# Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

Dydd Iau, 10 Mehefin 2021

Lisa Evans

**Annwyl Syr / Fadam**

**Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu, o bell trwy fideo-gynhadledda, Dydd Mercher, 16 Mehefin 2021 am 10.00 am i drafod y materion canlynol:**

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.**

3. **Cyfarfodydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 22 Chwefror 2021 a 26 Ebrill 2021 gyda phwyslais ar Gr.p Prosiect Deall ein Cymunedau. (Tudalennau 3 - 70)**

4. **Adroddiad Diogelu Grwp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS Chwarter 3 2020-21 (Tudalennau 71 - 130)**

5. **Adroddiad ar Gofnod Penderfyniadau Grŵp Rheoli Aur COVID-19 (Tudalennau 131 - 158)**

6. **Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyd-lynu a gynhaliwyd ar 11 Chwefror a 18 Mawrth 2021 ac ystyried unrhyw faterion yn codi o'r Cofnodion hynny (Tudalennau 159 - 164)**

7. **Diweddariad gan Gadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ac ystyried y Blaenraglenni Gwaith drafft (Tudalennau 165 - 176)**

8. **Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd ei fod er sylw brys y Pwyllgor**

**Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb**

**Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.**

**Yn gywir**



**Miss Lowri Edwards**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At:** **Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu**
**Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.**

## CYNGOR SIR CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu |
| **DYDDIAD:** | 16 Mehefin 2021 |
| **LLEOLIAD:** | Cyfarfod dros y we |
| **TEITL:** | Cyfarfodydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 22 Chwefror 2021 a 26 Ebrill 2021 gyda phwyslais ar Grŵp Prosiect Deall ein Cymunedau. |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Rhoi cyfle i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu graffu ar y penderfyniadau neu'r camau gweithredu a wnaed gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion. |
| **RHESWM PAM BOD Y PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM YR WYBODAETH:** | Fel y Pwyllgor Craffu a ddynodwyd i gadw golwg ar effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. |

**CEFNDIR:**
O dan Adran 35 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol sicrhau bod gan eu Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu y pŵer i graffu ar y penderfyniadau a wneir, neu gamau eraill a gymerir, gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (PSB) ar gyfer ardal yr Awdurdod Lleol wrth iddo arfer ei swyddogaethau.

**COFNODION CYFARFOD PSB CEREDIGION A GYNHALIWYD AR 22 CHWEFROR 2021**
Cyflwynir i'r Pwyllgor gofnodion cyfarfod PSB Ceredigion a gynhaliwyd ar 22 Chwefror 2021, ac maent i'w gweld yn **Atodiad 1.**

**COFNODION DRAFFT CYFARFOD PSB CEREDIGION A GYNHALIWYD AR 26 EBRILL 2021**
Cyflwynir i'r Pwyllgor gofnodion drafft cyfarfod PSB Ceredigion a gynhaliwyd ar 26 Ebrill 2021 ac maent i'w gweld yn **Atodiad 2.**

Mae'r adroddiadau diweddaraf o Grwpiau Prosiect y PSB, fel y'u cyflwynwyd i'r PSB, yn cael eu cynnwys ar ffurf **Atodiadau 3.1 i 3.5** isod:
**3.1** Grŵp Prosiect Newid Hinsawdd ac Adnoddau Naturiol – 8 Ebrill 2021
**3.2** Grŵp Prosiect Deall ein Cymunedau – 19 Mawrth 2021
**3.3** Grŵp Prosiect Cyd-leoli ac Integreiddio Gwasanaethau Rheng Flaen – 29 Mawrth 2021
**3.4** Grŵp Prosiect Menter ac Arloesedd – 7 Ebrill 2021
**3.5** Grŵp Prosiect Hyfforddiant Cydnerthedd – 23 Mawrth 2021

**ADOLYGU GRWPIAU PROSIECT Y PSB**

Wrth i gyfarfodydd gael eu hatal ar y dechrau o ganlyniad i bandemig Coronafeirws, penderfynwyd yn ystod chwarter olaf 2020 i gynnal adolygiad o aelodaeth a blaenoriaethau pob Grŵp Prosiect. Mae pump o'r Grwpiau Prosiect bellach wedi cytuno ar flaenoriaethau a chynlluniau gweithredu newydd sy'n canolbwyntio ar weithredu gan edrych drwy lens COVID.

Mae'r cynlluniau gweithredu newydd wedi arwain y Grwpiau Prosiect i ganolbwyntio ar gamau gweithredu penodol, gan barhau i weithredu o fewn y cyfyngiadau a'r heriau a ddaw yn sgil y pandemig. Mae Grwpiau Prosiect wedi bod yn rhannu gwybodaeth ac mae partneriaid wedi cefnogi ei gilydd drwy gydol y cyfnod.

**HOELIO SYLW AR GRŴP PROSIECT DEALL EIN CYMUNEDAU**

Yn unol â chais y Pwyllgor hwn yn ei gyfarfod ym mis Ionawr, mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys hoelio sylw ar un o'r Grwpiau Prosiect (bydd pob Grŵp Prosiect yn adrodd yn ei dro). Mae adroddiad ffocws ar waith Grŵp Prosiect Deall ein Cymunedau i'w gael yn **Atodiad 4**. Cyflwynir yr adroddiad gan Hazel Lloyd Lubran, Cadeirydd y Grŵp Prosiect.

**ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNLLUN LLESIANT LLEOL CEREDIGION 2020-21**

Mae'n rhaid i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion lunio a chyhoeddi Adroddiad Blynyddol yn ymwneud â chyflawni'r Cynllun Llesiant Lleol. Bydd Adroddiad Blynyddol 2020/21 yn cael ei ddatblygu yn unol â'r fframwaith a nodir yn **Atodiad 5** a bydd yr adroddiad ffocws ar gyfer Grŵp Prosiect Deall ein Cymunedau, fel yr amlinellir uchod, yn cael ei gynnwys.
Bydd Adroddiad Blynyddol Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion yn cael ei gymeradwyo gan y PSB yn ei gyfarfod ar 12 Gorffennaf ac fe'i cyflwynir i'r pwyllgor hwn cyn gynted â phosib wedi'r dyddiad hwnnw.

| | | |
|---|---|---|
| | **Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam** | Nac oes, am nad yw'r adroddiad yn newid Polisi neu Wasanaeth. |
| **LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:** | ***Crynodeb:***<br>**Hirdymor:**<br>**Integreiddio:**<br>**Cydweithio:**<br>**Cynnwys:**<br>**Atal:** | |

**ARGYMHELLION:**

i. Derbyn cofnodion cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 22 Chwefror 2021 a chofnodion drafft cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 26 Ebrill 2021.
ii. Derbyn yr adroddiad mwyaf diweddar ar gyfer Grwpiau Prosiect y PSB, fel y'u cyflwynwyd i'r PSB.
iii. Derbyn adroddiad ffocws ar waith Grŵp Prosiect Deall ein Cymunedau.
iv. Derbyn braslun o Adroddiad Blynyddol Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2020-21.

**RHESWM DROS YR ARGYMHELLION:**

Er mwyn i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu gyflawni ei rôl o gadw golwg ar effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Alun Williams |
| **Swydd:** | Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi a Pherfformiad |
| **Dyddiad yr adroddiad:** | 16.6.21 |
| **Acronymau:** | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus / Public Services Board (PSB) |

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Ceredigion
Public Services Board

Caru·Love Ceredigion

**Cyfarfod 24**

**22 Chwefror 2021, 13:30pm**

**Cyfarfod Rhithiol trwy Zoom**

**COFNODION**

| **Yn bresennol:** | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Ellen ap Gwynn (EaG) | Cadeirydd, Cyngor Sir Ceredigion |
| Alun Williams (AW) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Y Cynghorydd Elwyn Williams (EW) | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Ben Davies (BD) | Un Llais Cymru |
| Russell Hughes-Pickering (RHP) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Gwylim Dyfri Jones (GDJ) | Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant |
| Rhodri Llwyd Morgan (RLlM) | Prifysgol Aberystwyth |
| Helen Griffith (HG) | Coleg Ceredigion / Coleg Sir Gâr |
| Gillian Wells (GW) | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Eifion Evans (EE) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Hazel Lloyd-Lubran (HLL) | CAVO |
| James Gibb (JG) | Adran Gwaith a Phensiynau |
| Carys Morgans (CM) | Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys |
| Dr Phil Kloer (PK) | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Iwan Cray (IC) | Mid and West Wales Fire and Rescue Service |
| Ifan Evans (IE) | Welsh Government |
| **Tîm Cymorth BGC:** | |
| Diana Davies (DD) | Rheolwr Corfforaethol, Partneriaeth a Pherfformiad (CSC) |
| Sara Dafydd (SD) | Swyddog Partneriaethau (CSC) |
| Manon Horscroft (MH) | Swyddog Cymorth (CSC) |
| Lynne Walters (LW) | Swyddog Partneriaethau (CSC) |
| Michael Smith (MS) | Swyddog Ymgysylltu a Chydraddoldeb (CSC) |
| **Yn bresennol hefyd:** | |
| Cathryn Morgan (CM) | Cyngor Sir Ceredigion |

| | |
|---|---|
| Clare Hale (CH) | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Rob Starr (RS) | Cyngor Sir Ceredigion |
| PS Richard Marshall (RM) | Heddlu Dyfed Powys |
| Mydrian Harries (MH | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Amy Richmond-Jones (ARJ) | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| John Heneghan (JH) | Canolfan Strategaethau Economaidd Lleol (CLES) |
| Caitlin Theodorou (CT) | Cyngor Sir Ceredigion |

| | |
|---|---|
| **24.1** | Ymddiheuriadau, cyflwyniadau a datgelu buddiannau |

Cychwynnodd y Cadeirydd y cyfarfod trwy groesawu pawb. Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau.

**Ymddiheuriadau:**
Christine Harley, Gwasanaeth Prawf a Charchardai EM
Anna Bird, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Prif Arolygydd Christina Fraser, Heddlu Dyfed-Powys
Uwcharolygydd Robyn Mason, Heddlu Dyfed-Powys
Ditectif Brif Arolygydd Gareth Roberts, Heddlu Dyfed-Powys
Pat Smith, Adran Gwaith a Phensiynau
Maria Battle, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Matt Morden, Coleg Sir Gâr / Coleg Ceredigion
Pedr ap Llwyd, Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Arolygydd Andrew Merry, Heddlu Dyfed-Powys
Dr Andrew Cornish, Coleg Sir Gâr / Coleg Ceredigion
Ros Jervis, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Duncan Hamer, Llywodraeth Cymru
Y Cynghorydd Elizabeth Evans, Cyngor Sir Ceredigion

| | |
|---|---|
| **24.2** | Cofnodion cyfarfod blaenorol BGC Ceredigion – 07.12.20 |

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 07.12.20 yn gofnod cywir.

| | |
|---|---|
| **24.3** | Materion yn codi o’r cyfarfod blaenorol |

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o’r cyfarfod blaenorol.

| 24.4 | Diweddariad am Raglen Bartner Creu Cyfoeth Cymunedol - John Heneghan, CLES |
|---|---|

Cafwyd diweddariad manwl gan John Heneghan (JH) am brosiect yr Economi Sylfaenol – Creu Cyfoeth yn yr Economi Leol, sy'n cynnwys sefydliadau angori ar draws Ceredigion a Phowys. Ers y cyfarfod diwethaf, cynhaliwyd dadansoddiad pen desg ar gyfer pob rhanbarth BGC. Cynhaliwyd sesiynau ar ffurf grwpiau ffocws i drafod ystyriaethau caffael a datblygiad economaidd. Yn ystod trafodaethau, nodwyd bod manteision allweddol, y gellir eu cyflawni trwy nodi dull cyson tuag at gomisiynu contractwyr lleol, a cheir cysylltiadau clir rhwng y manteision hyn a blaenoriaethau datblygu busnes ar draws y rhanbarth. Adroddwyd y cynhelir sesiwn ar ffurf gweithdy ynghylch sefydlu busnes nesaf ac yna, trefnir gweithdy rhanbarthol pellach i drafod papur cwmpasu sy'n amlinellu'r camau nesaf ar gyfer y prosiect hanfodol hwn. Trafodir y papur cwmpasu a'r cynllun gweithredu hwn, a fydd yn canolbwyntio ar feysydd gwag posibl yn yr economi hefyd, mewn cyfarfod BGC yn y dyfodol. Yn ystod y drafodaeth, diolchwyd i JH am ei ddiweddariad manwl, a oedd wedi cadarnhau cyswllt y sefydliadau angori. Ar yr adeg hon, mynegodd NRW fudd uniongyrchol yn y prosiect mewn perthynas â'u gweithdrefnau caffael, a chytunwyd y byddai JH yn cysylltu â nhw yn uniongyrchol yn dilyn y cyfarfod hwn heddiw.

**GWEITHREDU: John Heneghan i gysylltu gyda Gillian Wells, NRW.**

**GWEITHREDU: Gwahoddir John Heneghan yn ôl i gyfarfod nesaf BGC ar 26 Ebrill.**

| 24.5 | Ymgyrch Dawns Glaw, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
|---|---|

Cafwyd cyflwyniad PowerPoint manwl gan Mydrian Harries (MH) cadeirydd Cyd-grŵp Tanau Bwriadol Gwasanaeth Tân MAWW, ynghylch Ymgyrch newydd Dawns Glaw. Mae'r Cyd-grŵp Tanau Bwriadol wedi pennu tasg ar gyfer y Gweithlu Aml-asiantaeth hwn ar draws Cymru Gyfan, sef lleihau nifer yr achosion o gynnau tanau yn fwriadol ar draws Cymru, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o'r ffordd y caiff tanau glaswellt eu cynnau'n ddamweiniol yn aml.

Nod y prosiect yw nodi'r rhai yr effeithir arnynt yn uniongyrchol ac ymgysylltu gydag amrediad o bartneriaid er mwyn rhoi sylw i'r achos a'r effeithiau mewn ffordd gadarnhaol. Rhennir data allweddol er mwyn nodi tueddiadau, a fydd yn cyfrannu at waith cynllunio ataliol, a datblygir amrediad o ymyriadau gyda'r nod o leihau nifer y digwyddiadau yn y dyfodol.

Bwriedir lansio'r prosiect ar 1 Mawrth 2021 a gofynnir am gefnogaeth partneriaid BGC i hyrwyddo'r maes gwaith hwn. Mae Gwasanaeth Tân MAWW yn dymuno sicrhau bod aelodau BGC yn ymwybodol o'r anawsterau a wynebir mewn perthynas â thanau glaswellt bwriadol ar draws y rhanbarth, ac y gall partneriaid BGC rannu'r wybodaeth hon o fewn eu rhwydweithiau, gan annog ymgysylltu ehangach o fewn cymunedau. Y nod

cyffredinol yw lleihau a gwaredu bygythiad ac effaith tanau glaswellt trwy gyfrwng gwaith cynllunio effeithiol i atal hyn.

**GWEITHREDU: Dosbarthir y cyflwyniad am Ymgyrch Dawns Glaw a'r wybodaeth sy'n cyd-fynd â'r ymgyrch i holl aelodau BGC.**

**GWEITHREDU: Aelodau BGC i rannu gwybodaeth ynghylch Ymgyrch Dawns Glaw gyda'r cynrychiolydd cyfathrebu priodol yn eu sefydliadau a gyda rhwydweithiau cymunedol. Yr aelodau i roi adborth am unrhyw wybodaeth sydd ganddynt am danau glaswellt hefyd i Wasanaeth Tân MWW er mwyn gallu nodi tueddiadau lleol.**

**GWEITHREDU: Bydd Mydrian Harries yn mynychu cyfarfod Un Llais Cymru yn y dyfodol er mwyn rhoi'r cyflwyniad am Ymgyrch Dawns Glaw.**

| | |
|---|---|
| **24.6** | Adroddiad gan Is-grŵp Tlodi BGC gan gynnwys diweddariad am Strategaeth Trechu Caledi |

Cafwyd diweddariad manwl gan Cathryn Morgan (CM) am Strategaeth a Chynllun Gweithredu Trechu Caledi, y mae bellach yn ei lle. Esboniwyd bod yr Is-grŵp Tlodi yn monitro gweithrediad y cynllun hwn. Yn ystod y cyflwyniad, cyfeiriwyd at y data a'r ystadegau sy'n cael eu cynnwys yn yr adroddiad, sy'n cynnig diweddariad am Strategaeth Trechu Tlodi, a ddosbarthwyd i'r holl aelodau cyn y cyfarfod hwn heddiw.

Esboniodd CM y bydd y Fforwm Darparwyr Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc yn ystyried yr holl faterion sy'n ymwneud â Thlodi Plant hefyd. Er mwyn cynorthwyo'r broses mewn ffordd effeithiol, cynhelir y cyfarfodydd Fforwm hyn yn ystod yr wythnos cyn y cynhelir cyfarfod yr Is-grŵp Tlodi. Nododd CM bod gwaith i'w wneud o hyd ar gynllun ymgysylltu er mwyn sicrhau y gwneir gwaith ymgysylltu effeithiol ar y camau gweithredu arfaethedig gyda'r holl randdeiliaid, yn enwedig y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig. Esboniodd CM bod ymgysylltu â'r cyhoedd yn allweddol. Nodwyd hefyd bod y gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd ynghylch Strategaeth Economaidd Ceredigion 2020 – 2035 wedi dod i ben ar 29 Ionawr 2021, ac er mwyn mabwysiadu dull gweithredu holistig, bydd camau gweithredu y Strategaeth Economaidd yn cyd-fynd â'r Strategaeth Trechu Caledi.

Bydd yr Is-grŵp Tlodi yn parhau gyda'i waith i fonitro dangosyddion poblogaeth er mwyn mesur effaith y Cynllun Gweithredu. Bydd cyfarfod nesaf y grŵp, a gynhelir ar 23 Ebrill 2021, yn canolbwyntio'n benodol ar gamau gweithredu sy'n ymwneud â Cholofn 2: Lles Corfforol ac Emosiynol. Bydd y cyfarfod a gynhelir ym mis Gorffennaf 2021 yn canolbwyntio ar Golofn 3: Manteisio ar Wasanaethau, a chyhoeddir adroddiad blynyddol yn dilyn y cyfarfod ym mis Gorffennaf.

Mynegwyd pryderon gan Ben Davies (BD) ynghylch y diffyg gwybodaeth gyswllt a ddarparir gan gwmnïau cyfleustodau ar eu biliau. Fel ymateb uniongyrchol i'r codiadau a welwyd yn ddiweddar mewn biliau cyfleustodau ac effeithiau ariannol Covid-19, mae

| | |
|---|---|
| unigolion yn teimlo'n fwyfwy gofidus am eu gallu i dalu'r costau uwch. Mae'r ffaith na cheir gwybodaeth gyswllt ar y biliau, a fyddai'n eu galluogi i siarad â'r cwmnïau'n uniongyrchol, yn cynyddu eu gofid. Mae hyn yn peri cryn bryder ac roedd BD yn holi a oes rhif cymorth ar gael er mwyn i aelodau'r gymuned allu cysylltu yn uniongyrchol. Gan ymateb i'r cais hwn, cyfeiriwyd at rwydwaith Fforwm Gallu Ariannol Canolbarth Cymru a chytunwyd y byddai'r mater hwn yn cael ei gyfeirio atyn nhw er mwyn iddynt ei ystyried.<br><br>Nododd Dr Phil Kloer (PK) bod ganddo ddiddordeb mewn cydweithio gyda'r Strategaeth Trechu Caledi. Nododd PK bod y Bwrdd Iechyd yn gweithio ar strategaeth 20 mlynedd ar hyn o bryd, o'r enw 'Canolbarth a Gorllewin Cymru Iachach: Cenedlaethau'r dyfodol yn byw'n dda' lle y byddai modd ffurfio cysylltiadau gyda'r Bwrdd Iechyd. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd y byddai Cathryn Morgan yn cysylltu yn dilyn y cyfarfod hwn.<br>Bu'r trafodaethau'n canolbwyntio ar y posibilrwydd o fyfyrwyr yn ymwneud gyda'r gwaith hwn hefyd. Cadarnhaodd Rhodri Llwyd, Prifysgol Aberystwyth a Gwilym Dyfri Jones, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant eu diddordeb.<br><br>Diolchodd yr aelodau i CM am ddiweddariad gwych, gan longyfarch y grŵp ar eu llwyddiant wrth ddatblygu a chyflwyno'r Strategaeth Trechu Caledi.<br><br>**GWEITHREDU: Bydd Cathryn Morgan yn cysylltu â Fforwm Gallu Ariannol Canolbarth Cymru ynghylch rhoi cymorth a chefnogaeth gyda chwmnïau cyfleustodau a'u biliau.**<br><br>**GWEITHREDU: Bydd Cathryn Morgan yn cysylltu gyda Dr Phil Kloer BIP Hywel Dda.**<br><br>**GWEITHREDU: Bydd Cathryn Morgan yn cael cyswllt uniongyrchol gyda Phrifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ynghylch myfyrwyr yn cymryd rhan yn yr ymchwil.**<br><br>**GWEITHREDU: Bydd Cathryn Morgan yn rhoi diweddariad pellach i BGC ynghylch Cynllun Gweithredu Trechu Caledi yn dilyn cyfarfod nesaf yr Is-grŵp Tlodi.** | |
| **24.7** | **Diweddariadau gan Grwpiau Prosiect BGC** |
| i. **Menter ac Arloesi**:<br>Cafwyd diweddariad gan Russell Hughes-Pickering (RHP) ynghylch cyfarfod diwethaf y grŵp prosiect, a gynhaliwyd ar 18 Ionawr. Mynegwyd pryder gan RHP mai dim ond un aelod o'r sector preifat oedd wedi mynychu'r cyfarfod. Teimlir bod angen i fwy o aelodau o'r sector preifat fod yn mynychu'r cyfarfodydd hyn o'r grŵp prosiect. Adroddodd RHP bod y pwyslais yn cael ei roi ar flaenoriaethau'r grŵp hwn yn y dyfodol nawr. Ymgynghorir â phob aelod cyn sefydlu grwpiau tasg. Bydd sefydlu'r grwpiau tasg hyn yn dibynnu'n uniongyrchol ar barodrwydd aelodau'r grwpiau prosiect i gymryd rhan ac i arwain grwpiau tasg penodol. Mae'r bum flaenoriaeth allweddol a ystyrir ar hyn o bryd fel a ganlyn;<br>1. Grŵp Tasg Dadansoddi Data – Beth mae'r data yn ei olygu ar gyfer menter ac arloesi? | |

2. Cydleoli ac Arallgyfeirio gan Fusnesau – A ddylai hyn fod yn sail i'r model datblygu busnes gofynnol?
3. Ymyrraeth Menter – A ydym yn deall amrediad ac effeithiau posibl yr ymyriadau presennol?
4. Grŵp tasg ar gyfer sectorau penodol – A ddylem ystyried gofynion sectorau penodol o bryd i'w gilydd?
5. Ffocws ar le – Sut allwn ni siapio dyfodol canol trefi, beth sy'n bwysig i'w bywiogrwydd yn y dyfodol?

**ii. Datrysiadau Cymdeithasol a Gwyrdd ar gyfer Iechyd**

Adroddodd y Cadeirydd nad yw Grŵp y prosiect wedi cyfarfod oherwydd COVID-19.

**iii. Newid yn yr Hinsawdd ac Adnoddau Naturiol:**

Adroddodd Gillian Wells (GW) bod y Grŵp Prosiect wedi bod yn weithredol iawn yn ystod y cyfnod diwethaf. Galluogwyd gweithgarwch prosiect uniongyrchol trwy gyfrwng £25,000 gan Gyfoeth Naturiol Cymru i'r BGC. Gweithredwyd dau dasg prosiect, yn gyntaf, penodi Resources for Change Ltd i gynnal ymgynghoriaeth ynghylch "Ail-Gysylltu a gwella cysylltiadau presennol gyda natur" ac yn ail, ceir ymgyrch a arweinir gan CAVO o'r enw 'Caru lle'r ydych chi'n Byw'. Nod yr ymgyrch yw rhannu gyda chymunedau yr hyn y gellir ei gyflawni yn eu hardal yn ystod COVID, gan annog preswylwyr i archwilio eu hamgylchedd leol yn unol â chanllawiau deddfwriaethol cyfredol.

**GWEITHREDU: Bydd Gillian Wells yn rhannu copi o Adroddiad terfynol Ail-gysylltu a gwella cysylltiadau presennol gyda Natur gyda BGC.**

**iv. a) Deall ein Cymunedau:**

Cafwyd diweddariad gan Hazel Lloyd-Lubran (HLL) am y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 21 Ionawr. Roedd yr aelodau wedi gwahodd Teresa Walters i roi cyflwyniad am ddarn o waith parhaus a gynhelir yng Ngheinewydd gan Severn Wye dan raglen Dyfodol Gwledig. Roedd y cyflwyniad yn ddiddorol iawn a chytunwyd y byddai aelodau'r grŵp prosiect yn cefnogi'r prosiect yn y dyfodol. Yn ogystal, cafwyd diweddariad yn ystod y cyfarfod am Brosiect Fory gan Heledd Gwyndaf, sef darn o waith ar y cyd rhwng Bro360 a Radio Beca. Mae hwn yn seiliedig ar arolwg sy'n gofyn 3 chwestiwn ac sy'n ceisio darganfod sut y mae cymunedau wedi ymateb a rhyngweithio yn ystod y pandemig presennol, gan nodi'r gwersi a ddysgwyd ar gyfer y dyfodol. Mae'r Grŵp Prosiect wedi ffurfio eu Cynllun Gweithredu hefyd yn unol ag adfer yn dilyn COVID ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

**b) Deall ein Cymunedau – Panel Ailagor Lleoliadau Cymunedol**

Cynhaliodd HLL y 5ed sesiwn ynghylch Gorsafoedd Pleidleisio ar 6 Ionawr, lle y cafwyd diweddariad gan Glynis Davies, Rheolwr Gwasanaethau Etholiadol CSC am y rheoliadau y mae angen eu dilyn yn ystod yr etholiadau a gynhelir cyn bo hir. Mae'r holl asesiadau risg ar gyfer y Gorsafoedd Pleidleisio wedi cael eu cwblhau erbyn hyn ac fe'u dychwelyd.

| | |
|---|---|
| Mae'r panel yn cydweithio'n agos iawn gyda Llywodraeth Cymru o hyd ynghylch negeseuon allweddol y bydd angen eu cyfleu i leoliadau cymunedol.<br><br>**V. Cydleoli ac Integreiddio:**<br>Hysbyswyd yr aelodau gan Iwan Cray (IC) bod Carwyn Young a'r tîm yn parhau gyda'u gwaith ar y Model Darparu Gwasanaeth Integredig a sefydlu'r Canolfannau Lles. Yn ystod y drafodaeth, cytunwyd y byddai gweithgarwch ymgynghori yn cael ei gynnal gyda phartneriaid er mwyn cyfrannu ymhellach at amrediad y gwasanaethau y byddai modd eu darparu. Cafodd yr aelodau wybodaeth gan Chesca Ross am y gwaith y mae CAVO yn ei wneud ar hyn o bryd fel ymarfer cwmpasu dan y Grant Adfer Gwirfoddoli.<br><br>**Vi. Hyfforddiant Cydnerthedd:**<br>Adroddodd y cadeirydd i'r aelodau nad oedd y Grŵp Prosiect wedi cyfarfod ers cyfarfod diwethaf BGC, ond y bwriedir cynnal cyfarfod fis nesaf. | |
| **24.8** | Asesiad Llesiant Lleol |
| Cafwyd diweddariad gan Rob Starr (RS) ynghylch yr Asesiad Llesiant Lleol nesaf. Mae'r aelodau'n ymwybodol o'r ffaith bod gofyn i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ar draws Cymru gyflawni dyletswyddau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Ddeddf yn mynnu bod BGC yn cynnal Asesiad Llesiant Lleol er mwyn cyfrannu at y Cynllun Llesiant Lleol 5-mlynedd. Rhaid cyhoeddi'r Asesiad Llesiant Lleol nesaf erbyn mis Mawrth 2022. Trafodwyd manylion yr amserlen, ynghyd ag argymhellion penodol ynghylch camau i'w cymryd yn y dyfodol.<br>Cynigiwyd yr argymhellion canlynol i BGC;<br>1. Bod BGC yn cymeradwyo'r dull tuag at weithio mewn partneriaeth gyda Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro wrth baratoi'r Asesiad Llesiant Lleol. Gellir estyn gwahoddiad i Bowys ymuno yn y trafodaethau hefyd er mwyn rhannu arfer gorau.<br>2. Y caiff fframwaith methodoleg ar y cyd ei ddatblygu a'i fabwysiadu rhwng Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro er mwyn cynnal yr Asesiadau Llesiant Lleol.<br>3. Bod BGC yn rhoi caniatâd mewn egwyddor i ddefnyddio'r grant rhanbarthol er mwyn recriwtio Cydlynydd Prosiect i gynorthwyo gyda'r gwaith o baratoi'r Asesiadau Llesiant Lleol.<br>4. Bod BGC yn rhoi ei ganiatâd i Gyngor Sir Ceredigion arwain y broses o reoli'r grant rhanbarthol, a fydd yn cynnwys cyllid ar gyfer swydd Cydlynydd y Prosiect ar ran<br><br>**PENDERFYNIAD: Cytunodd aelodau BGC i'r holl argymhellion, R1-R4, fel y nodir yn yr adroddiad am yr Asesiad Llesiant Lleol: Cynllun Datblygu.** | |
| **24.9** | Diweddariad am gronfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu |
| Cafwyd diweddariad gan Sara Dafydd (SD) ynghylch cronfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Nod prosiect Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion, a ariannir gan | |

Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, yw cynorthwyo'r rhai sydd mewn perygl o ddioddef troseddau agored i niwed yn y sir. Ceir dwy elfen gydategol yn y prosiect i) rhaglen hyfforddiant bwrpasol ar gyfer y rhai sy'n cydweithio'n agos gyda phobl agored i niwed a ii) ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o droseddau yn erbyn y rhai agored i niwed ymhlith y cyhoedd.

Comisiynwyd sesiynau hyfforddiant byw a gyflwynir trwy Microsoft Teams, yn ogystal â rhaglen eDdysgu. Cynhaliwyd y sesiynau hyfforddiant byw yn ystod mis Chwefror, a bwriedir cynnal y sesiynau olaf yn gynnar ym mis Mawrth. Mae'r sesiynau hyn yn canolbwyntio ar y rhai y gallent fod mewn perygl o fod yn destun camfanteisio, yr arwyddion i gadw golwg amdanynt a sut i adrodd am unrhyw bryderon i'r asiantaethau cymorth perthnasol. Cynhelir yr Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau yn erbyn y rhai Agored i Niwed rhwng 15 ac 19 Mawrth

Comisiynwyd asiantaeth gyfathrebu integredig yng Nghaerdydd i gyflawni'r gwaith hwn, a fydd yn cynnwys cynhyrchu ffilm fer, deunyddiau ar gyfer cyfryngau cymdeithasol a dylunio taflen a ddosbarthir i aelwydydd yng Ngheredigion.

**GWEITHREDU: Bydd Sara Dafydd yn dosbarthu'r pecyn cymorth cyfathrebu rhanddeiliaid i aelodau BGC pan fydd yr ymgyrch yn fyw.**

| | |
|---|---|
| **24.10** | Ailgydbwyso Gofal a Chymorth – Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru |

Rhoddodd HLL gyflwyniad byr i'r ddogfen ymgynghori a chytunwyd y byddai CAVO yn gweithio gyda Thîm Partneriaethau CSC i baratoi ymateb drafft ar ran BGC. Byddai'r ymateb hwn yn ystyried ac yn cynnwys ystyriaethau partneriaeth.

**GWEITHREDU: Bydd Hazel Lloyd-Lubran a Thîm Partneriaethau CSC yn dosbarthu ymateb drafft i aelodau BGC er mwyn iddynt wneud sylwadau amdano a'i gymeradwyo cyn ei gyflwyno i LlC ar 6 Ebrill 2021.**

| | |
|---|---|
| **24.11** | Adborth gan Bwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu Cyngor Sir Ceredigion |

Oherwydd problemau technegol, ni fu modd i Gyng Elizabeth Evans ymuno â'r cyfarfod. Rhoddodd Diana Davies (DD) y diweddariad ar ei rhan, gan nodi manylion y cais gan y Pwyllgor Craffu i Gadeiryddion Grwpiau Prosiect fynychu'r cyfarfodydd Craffu er mwyn rhoi diweddariadau.
Trafodwyd y cais hwn ac roedd Cadeiryddion y Grwpiau Prosiect a oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn cytuno y byddai o fudd iddynt fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu fel eitem unigol ar yr agenda neu mewn parau pan fo hynny'n briodol.

| | |
|---|---|
| **PENDERFYNIAD: Penderfynodd y bwrdd gytuno i'r cais a wnaethpwyd gan y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu a chaiff amserlen ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol ei chytuno a'i rhannu gyda Chadeiryddion y Grwpiau Prosiect.** | |
| **24.12** | Unrhyw Fater Arall |
| Ychwanegodd HLL i'r manylion a ddarparwyd gan Chesca Ross yn flaenorol, ac adroddodd am y camau gweithredu eraill sy'n cael eu cynnwys dan y Grant Adfer Gwirfoddoli, y mae CAVO wedi llwyddo i'w sicrhau. Caiff y prosiect hwn ei gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2021 ac mae'r gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.<br>Caeodd y Cadeirydd y cyfarfod trwy ddiolch i bawb am fynychu ac am eu cyfraniadau parhaus. | |
| **24.13** | **<u>Dyddiadau cyfarfodydd nesaf:</u>**<br>**26 Ebrill 2021**, 13:30-15:30<br>**12 Gorffennaf 2021**, 13.30-15:30<br>**17 Medi 2021**, 10.00-12:00<br>**29 Tachwedd 2021**, 13.30-15:30 |

**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus**
**Ceredigion**
**Public Services Board**

Caru·Love Ceredigion

**Cyfarfod 25**

**26ain Ebrill 2021, 13:30pm**

**Cyfarfod Rhithwir drwy Zoom**

**Cofnodion**

| **Yn bresennol:** | |
|---|---|
| Y Cyngh. Ellen ap Gwynn (EaG) | Cadeirydd, Cyngor Sir Ceredigion |
| Russell Hughes-Pickering (RHP) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Gwilym Dyfri Jones (GDJ) | Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant |
| Rhodri Llwyd Morgan (RLlM) | Prifysgol Aberystwyth |
| Matt Morden (MM) | Coleg Ceredigion / Coleg Sir Gâr |
| Gillian Wells (GW) | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Hazel Lloyd-Lubran (HLL) | CAVO |
| Pat Smith (PS) | Adran Gwaith a Phensiynau |
| Iwan Cray (IC) | Gwasanaeth Tân ac Achub y Canolbarth a'r Gorllewin |
| Ifan Evans (IE) | Llywodraeth Cymru |
| Duncan Hamer (DH) | Llywodraeth Cymru |
| Uwcharol. Robyn Mason(RM) | Heddlu Dyfed Powys |
| **Tîm Cefnogi'r Bwrdd** | |
| Diana Davies (DD) | Rheolwr Corfforaethol, Partneriaeth a Pherfformiad(CSC) |
| Sara Dafydd (SD) | Swyddog Partneriaethau (CSC) |
| Manon Horscroft (MH) | Swyddog Cymorth (CSC) |
| Lynne Walters (LW) | Swyddog Partneriaethau (CSC) |
| **Hefyd yn mynychu:** | |
| Cathryn Morgan (CM) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Rob Starr (RS) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Stuart Macdonald (SM) | Canolfan Strategaethau Economaidd Lleol (CLES) |
| Amy Richmond-Jones (ARJ) | Gwasanaeth Tân ac Achub y Canolbarth a'r Gorllewin |
| John Heneghan (JH) | Canolfan Strategaethau Economaidd Lleol (CLES) |
| Caitlin Theodorou (CT) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Y Cyng. Alun Williams (AW) | Cyngor Sir Ceredigion |

| | |
|---|---|
| **25.1** | Ymddiheuriadau, cyflwyniadau a datgan diddordeb |

| | |
|---|---|
| Dechreuodd y Cadeirydd y cyfarfod drwy groesawu pawb. Nid oedd unrhyw ddatganiad diddordeb.<br><br>**Ymddiheuriadau:**<br>Carys Morgans, Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys<br>Dr Phil Kloer, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda<br>Prif Arolygydd Christina Fraser, Heddlu Dyfed Powys<br>Y Cyngh. Elwyn Williams, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru<br>Ros Jervis, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda<br>Maria Battle, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda<br>Anna Bird, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda<br>Ben Davies, Un Llais Cymru<br>Alun Williams, Cyngor Sir Ceredigion<br>Peter Skitt, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | |
| **25.2** | Cofnodion cyfarfod diwethaf BGC Ceredigion – 22.02.21 |
| Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod y Bwrdd o 22.02.21 yn gofnod cywir. | |
| **25.3** | Materion yn codi o'r cyfarfod blaenorol |
| Nid oedd materion yn codi o'r cyfarfod blaenorol. | |
| **25.4** | Diweddariad am Raglen Bartner Creu Cyfoeth Cymunedol – John Heneghan, CLES |
| Cafwyd diweddariad manwl gan John Heneghan (JH) am brosiect yr Economi Sylfaenol – Creu Cyfoeth yn yr Economi Leol. Cam nesaf y prosiect yw edrych ar y themâu allweddol.<br><br>O ran y thema flaenoriaeth 'Gwella cyfleoedd dechrau busnes' mae'r aelodau partner sy'n rhan wedi cytuno i flaenoriaethu'r gwaith hwn a chynhelir dau weithdy yn ystod mis Mai. Yn ogystal â'r rhain, cynhelir sesiynau gweithdy pellach ar y themâu eraill, sef 'Adeiladu ac Ôl-osod', 'Caffael Bwyd', 'Gwella Cyfle i fusnesau bach a chanolig lleol' a 'Chefnogaeth i Gyflenwyr Cynhyrchiol' er mwyn rhannu gwybodaeth ar fanylion dadansoddiad ariannol a chaffael. Bydd hyn yn rhoi modd gosod y ffocws ar y rhannau hynny lle mae'r gollyngiadau pennaf o'r economi leol a nodi cyfleoedd ar gyfer y dyfodol. Pwysleisiodd JH bwysigrwydd y dadansoddi ychwanegol a wnaed ar wybodaeth gan sefydliadau cyswllt a dywedodd fod yr Awdurdodau Lleol wrthi'n trafod â'u timau cymorth busnes i weld pa ddata ychwanegol sy'n bodoli ar hyn o bryd ar gwmnïau yn y sectorau hyn. Cadarnhaodd JH hefyd ei fod yn gobeithio gwella'r sylfaen wybodaeth a chael gwybodaeth bellach gan Busnes Cymru a Chanolfan Cydweithredol Cymru. | |

| | |
|---|---|
| Dywedodd JH y byddai'r holl weithdai yn y dyddiadur ar gyfer mis Mai ac y byddai pob un yn canolbwyntio ar flaengynllun gwaith yn seiliedig ar nodi prif gamau gweithredu, arweinydd y cytunwyd arno a fframwaith yn seiliedig ar y capasiti cyflawni ar hyn o bryd a'r capasiti posibl o gael ymyrraeth cefnogaeth briodol. Rhoddwyd manylion i'r aelodau am y prif gamau gweithredu a nodwyd gan bartneriaid yn ystod trafodaethau blaenorol a bydd y manylion hyn i gyd yn cyfrannu at gydgynhyrchu cynlluniau gwaith yn dilyn yr ail sesiynau gweithdy.<br><br>Cadarnhaodd JH fod y sefydliadau angori wrthi'n mynd i'r afael â'r rhannu gwybodaeth, profiadau a manylion ariannol ac mae'r sylfaen wybodaeth hon bellach yn llywio opsiynau posibl ar gyfer cefnogaeth a gwelliant mewn cymunedau ledled rhanbarth y Canolbarth yn y dyfodol.<br><br>**CAM GWEITHREDU: John Heneghan i roi Cynllun Gweithredu Creu Cyfoeth Cymunedol i'r aelodau pan fydd wedi'i gwblhau.** | |
| **25.5** | Adroddiad gan Is-grŵp Tlodi'r Bwrdd gan gynnwys y diweddaraf am y Strategaeth Mynd i'r Afael â Thlodi |
| Rhoddodd Cathryn Morgan (CM) y manylion diweddaraf am Strategaeth a Chynllun Gweithredu Mynd i'r Afael â Thlodi. Esboniwyd bod yr Is-grŵp Tlodi yn monitro gweithredu'r cynllun hwn. Yn ystod y cyflwyniad a ddosbarthwyd i'r holl aelodau cyn y cyfarfod heddiw, cyfeiriwyd at y data a'r ystadegau sydd yn yr adroddiad diweddaru ar Strategaeth Mynd i'r Afael â Thlodi, Colofn 2: Cymorth i bobl sy'n profi blinder, straen a phryder.<br><br>Eglurodd CM y byddai'r holl faterion sy'n gysylltiedig â Thlodi Plant hefyd yn cael eu hystyried gan Fforwm Darparwyr Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc. Er mwyn cefnogi'r broses yn effeithiol, cynhelir cyfarfodydd y Fforwm yn ystod yr wythnos cyn yr Is-grŵp Tlodi.<br><br>Bydd cyfarfod Is-grŵp Tlodi'r Bwrdd ym mis Gorffennaf 2021 yn canolbwyntio ar Golofn 3: Mynediad i Wasanaethau. Cyhoeddir Adroddiad Blynyddol ar ôl y cyfarfod ym mis Gorffennaf a bydd hwn yn cynnwys crynodeb o'r gweithgareddau dros y 12 mis diwethaf ynghyd â dadansoddiad o ddangosyddion poblogaeth leol sy'n ymwneud â Chaledi.<br><br>**CAM GWEITHREDU: Cathryn Morgan i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd ar Gynllun Gweithredu Mynd i'r Afael â Thlodi yn dilyn cyfarfod nesaf yr Is-grŵp Tlodi.**<br><br>Diolchodd Rhodri Llwyd Morgan (RLlM) i CM am y gwaith anhygoel sy'n cael ei wneud ar y Strategaeth Mynd i'r Afael â Thlodi a mynegodd ei ddiolch am y cyfeiriad at y gwaith parhaus sy'n cael ei wneud mewn partneriaeth ag Adran Fusnes Prifysgol Aberystwyth. Manteisiodd RLlM ar y cyfle hefyd i rannu manylion dau brosiect ymchwil ychwanegol sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd. Mae'r cyntaf yn gydweithrediad â PCDDS a Phrifysgol Bangor | |

| | |
|---|---|
| ar effeithiau COVID-19 yn dilyn ailagor ysgolion, a ffocws penodol ar effeithiau cau ysgolion ar blant difreintiedig. Mae'r ail brosiect ymchwil yn canolbwyntio ar effaith y pandemig ar addysg gyfrwng Gymraeg. | |
| **25.6** | **Diweddariadau gan Grwpiau Prosiectau'r Bwrdd** |

**i. Menter ac Arloesi**:

Cafwyd diweddariad gan Russell Hughes-Pickering (RHP) gan ddweud nad oedd grŵp y prosiect wedi cwrdd ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd ym mis Chwefror, er bod aelodau wedi cynnal ymarfer ymgysylltu byr yn seiliedig ar ffocws a phrif flaenoriaethau Grŵp Prosiect Menter ac Arloesi. Awgrymwyd pum syniad penodol a nodwyd y rhain yn y papur a ddosbarthwyd cyn y cyfarfod. Mae ymatebion cychwynnol wedi cadarnhau cefnogaeth aelodau i ddwy flaenoriaeth, sef 'Ymyrraeth Menter – A ydym yn deall amrediad ac effeithiau posibl yr ymyriadau presennol?' a 'Ffocws ar le – Sut allwn ni siapio dyfodol canol trefi, beth sy'n bwysig i'w bywiogrwydd yn y dyfodol?' Fodd bynnag, dywedodd RHP y bydd y penderfyniadau terfynol ar y blaenoriaethau yn dibynnu ar nodi aelod sy'n barod i arwain a phartneriaid ychwanegol i gefnogi'r gwaith wrth symud ymlaen.

Cadarnhaodd RHP y trafodir y materion hyn yng nghyfarfod Grŵp y Prosiect a drefnwyd ym mis Mai. Bydd y grŵp hefyd yn cael cyflwyniad gan Rob Starr ar y gwaith sydd wrthi'n cael ei wneud ar yr Asesiad Llesiant Lleol.

**ii. Datrysiadau Cymdeithasol a Gwyrdd ar gyfer Iechyd**

Adroddodd y Cadeirydd nad yw Grŵp y Prosiect hwn wedi cyfarfod oherwydd COVID-19.

**iii. Newid yn yr Hinsawdd a Chyfoeth Naturiol:**

Adroddodd Gillian Wells (GW) fod Grŵp y Prosiect wedi parhau i fod yn weithredol dros y cyfnod diwethaf. Atgoffodd GW bawb bod cyllid cychwynnol wedi bod ar gael gan CNC yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf i roi cefnogaeth gychwynnol i waith Grŵp Prosiect. Ystyriodd yr aelodau syniadau tua diwedd mis Hydref 2020 a chytunwyd y byddai'r cyllid yn cael ei ddefnyddio ar gyfer dwy elfen allweddol sef 1. Cyhoeddi cyfle tendro i gomisiynu adroddiad cwmpasu gyda'r nod o nodi cyfleoedd i ailgysylltu pobl â natur, a 2. Datblygu ymgyrch Caru'ch Amgylchedd.

O ran elfen gyntaf y pecyn cyllido, cytunwyd bod cyfleoedd yng nghyd-destun y pandemig i annog pobl i werthfawrogi eu hamgylchedd lleol. Ar ôl dadansoddi nifer o gyflwyniadau tendr a ddaeth i law, comisiynwyd Resources for Change Ltd i gyflawni'r gwaith hwn rhwng Ionawr a Mawrth 2021. Mae'r adroddiad cwmpasu wedi nodi nifer o syniadau thema ar draws Ceredigion a chrëwyd mapiau sy'n tynnu sylw at y mannau gwyrdd y gellid eu gwella ymhellach i sicrhau mynediad hygyrch. Mae'r adroddiad hwn bellach wedi'i gwblhau a gofynnodd GW am y cyfle i gyflwyno'r adroddiad yn y cyfarfod nesaf a gofyn am gefnogaeth sefydliadau partner i alluogi ei roi ar waith. Nododd GW hefyd y cytunwyd y bydd y grŵp Gorchwyl a Gorffen traws-bartner yn parhau i gwrdd

gyda'r bwriad o drafod llwybrau posibl er mwyn bwrw ymlaen ag elfennau unigol yr adroddiad.

**PENDERFYNIAD: Cytunodd yr aelodau i dderbyn cyflwyniad gan Gillian Wells ar adroddiad Resources for Change Ltd yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.**

**CAM GWEITHREDU: Gillian Wells i gyflwyno adroddiad Resources for Change Ltd yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd ym mis Gorffennaf.**

Ail elfen y gwaith a ariannwyd gan CNC oedd sefydlu'r ymgyrch "Caru lle rydych chi'n byw" a symudodd GW ymlaen i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y gwaith hwn. Mae'r ymgyrch hon wedi'i sefydlu ar draws cymunedau yn y sir ac mae'n cynnig cyfleoedd cadarnhaol i gymunedau gysylltu â'i gilydd. Unwaith eto, roedd hwn yn waith a ariannwyd yn ystod y flwyddyn ariannol 2020/21 ac roedd angen ei gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth. Mae'r gwaith i sefydlu'r prosiect hwn, o dan CAVO, wedi'i wneud yn llwyddiannus ac mae'r platfform yn parhau i fod ar gael i annog unigolion a grwpiau mewn cymunedau i gymryd rhan weithredol. Gellir mynd i'r prif blatfform drwy ddilyn y ddolen hon: https://connectceredigion.org.uk/campaign/love-where-you-live a gellir gweld elfen boblogaidd iawn y prosiect yn https://connectceredigion.org.uk/adam-yn-yr-ardd

Ar yr adeg hon yn y cyfarfod, cynghorodd GW yr aelodau efallai na fydd yn bosibl parhau â chyllid ar gyfer y flwyddyn ariannol hon, a chyda hyn mewn golwg apeliwyd i bob sefydliad ystyried cefnogaeth bosibl i agweddau ar y prosiect.

Cyfeiriodd GW at brosiect arall a drafodwyd gan Grŵp y Prosiect, sef Prosiect Peilot Gwrthsefyll Newid yn yr Hinsawdd Castell Newydd Emlyn. Adroddodd GW fod adroddiad BGC ychwanegol wedi'i gyflwyno a bod llawer o argymhellion wedi dod o'r prosiect peilot cychwynnol hwn. Esboniodd GW fod yr adroddiad hwn wedi'i rannu ag aelodau Grŵp y Prosiect a chytunwyd y caiff ei drafod gyda Chadeiryddion grwpiau prosiectau eraill.

I orffen dywedodd GW y byddai cyfarfod nesaf y grŵp hefyd yn cynnwys cyflwyniad ar y gwaith ar gyfer Asesiad Llesiant Lleol.

**CAM GWEITHREDU: Gillian Wells i ddosbarthu adroddiad ar Brosiect Peilot Gwrthsefyll Newid yn yr Hinsawdd Castell Newydd Emlyn.**

**iv. a) Deall ein Cymunedau:**

Cafwyd diweddariad gan Hazel Lloyd-Lubran (HLL) am y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 19 Mawrth. Soniodd HLL am rai o'r pwyntiau allweddol a gododd yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd a rhannu'r rhain gyda'r aelodau. Cyfeiriwyd at ddiweddariadau gan

Rob Starr a Cathryn Morgan a nododd HLL hefyd fod Grŵp y Prosiect wedi derbyn cyflwyniad diweddar gan brosiect newydd o'r enw Radio Aber. Mae hwn yn wasanaeth sydd newydd ei lansio ar gyfer Ceredigion gyfan. Dywedodd HLL fod ganddynt becynnau hysbysebu wedi'u harchebu ymlaen llaw a ffocws ar bwysigrwydd gwirfoddolwyr. Fel partneriaid, nododd HLL fod cyfle i ddefnyddio Radio Aber fel modd i hyrwyddo unrhyw weithgareddau neu roi negeseuon i'r cyhoedd. I orffen, cyfeiriodd HLL at y broses ymgysylltu ar gyfer yr Asesiad Llesiant Lleol a nodwyd, gan fod aelodaeth y grŵp hwn wedi'i ganoli ar swyddogion ymgysylltu'r partneriaid, y byddai Rob Starr a Michael Smith yn cynnal sesiynau gorchwyl a gorffen gydag aelodau grwpiau prosiectau gyda ffocws ar ymgysylltu, gan estyn allan i bob rhan o gymunedau trwy rwydweithiau partner.

**b) Deall ein Cymunedau – Panel Ailagor Lleoliadau Cymunedol**

Rhoddodd HLL ddiweddariad byr yn dweud yn sgil y cyhoeddiad diweddar gan Lywodraeth Cymru ddydd Gwener, sef cadarnhau y gall lleoliadau a gweithgareddau cymunedol ailddechrau o 3 Mai, fod y panel wedi gweithio'n gyflym i gynnal y sesiwn briffio nesaf ddydd Mercher 28 Ebrill. Bydd y sesiwn hon yn rhannu gwybodaeth a chyngor i bwyllgorau sy'n rheoli lleoliadau cymunedol er mwyn eu cynorthwyo wrth ailagor yn ddiogel.

**V. Cydleoli ac Integreiddio:**

Rhoddodd Iwan Cray (IC) wybod i'r aelodau am y prif gamau gweithredu a oedd wedi digwydd yng nghyfarfod Grŵp y Prosiect hwn a gynhaliwyd ar 29 Mawrth. Hysbyswyd yr aelodau bod Carwyn Young a'r tîm yn parhau i sefydlu'r Ganolfan Lles gyntaf yn Llambed. Roedd y cyfarfod hefyd wedi clywed gan Chesca Ross a roddodd wybodaeth bellach i aelodau am y gwaith cyfredol sy'n cael ei wneud o dan y Grant Adfer ar gyfer Gwirfoddoli. Ar hyn o bryd mae Tammy Folley yn cynnal adolygiad a bydd ei gwaith yn cael ei rannu gyda chyfarfod nesaf Grŵp y Prosiect. Rhoddwyd gwybodaeth hefyd i'r aelodau gan Rhian Lewis gan gynnwys diweddariad am y gwasanaeth. Roedd y drafodaeth wedi ymdrin â blaenoriaethau allweddol System Integredig y Blynyddoedd Cynnar – Prosiect Braenaru a chadarnhawyd bod cais i alluogi'r prosiect peilot barhau bellach wedi'i gyflwyno. Cadarnhaodd IC hefyd y bydd Grŵp y Prosiect hwn yn ymrwymo rhan o'i agenda yn y cyfarfod nesaf i'r Asesiad Llesiant lleol ac i gau pen y mwdwl soniodd fod aelodau Grŵp y Prosiect wedi cael cais i ystyried enwau Cadeirydd ac Is-gadeirydd newydd ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol.

**Vi. Hyfforddiant Cydnerthedd:**

Adroddodd Matt Morden (MM) i'r aelodau fod Grŵp y Prosiect wedi cyfarfod ar 23 Mawrth. Mae'r grŵp wedi gwneud cynnydd wrth fapio'r hyfforddiant perthnasol y gall aelodau ymwneud ag ef. Yr her i'r grŵp wrth symud ymlaen fydd sicrhau ystod eang o fynychwyr o blith sefydliadau'r Bwrdd. Cadarnhaodd MM ei fod wedi adolygu presenoldeb ar hyn o bryd ac mae'n parhau i weld patrwm o ran bod bylchau yn

| | |
|---|---|
| ymddangos. Bydd hyn yn ei dro yn arwain at fylchau yn y wybodaeth gan bartneriaid a gofnodir ar gyfer darpariaeth hyfforddiant ac yn anochel bydd yn lleihau effaith yr adnodd. Gofynnir i bartneriaid ailddatgan eu hymrwymiad i'r gwaith hwn a chadarnhaodd MM y bydd Grŵp y Prosiect yn cefnogi'r Asesiad Llesiant Lleol wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo. | |
| **25.7** | Asesiad Llesiant Lleol |

Cafwyd diweddariad gan Rob Starr (RS) ynghylch yr Asesiad Llesiant Lleol nesaf. Ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd, mae'r paratoadau a'r trafodaethau gyda chydweithwyr a phartneriaid ymhlith tri maes y Bwrdd wedi bod yn parhau.

Mae rhwydwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus/Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn dal i gwrdd bob mis, ac yn cynnwys arweinwyr BGC y tair sir (Ceredigion, Sir Gâr a Sir Benfro), cynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Fel y cytunwyd yn flaenorol, estynnwyd y gwahoddiad hefyd i BGC Powys ac maent wedi croesawu'r cyfle i gymryd rhan yn y gwaith paratoi ar yr asesiad.

Sefydlwyd Gweithgor Rhanbarthol er mwyn datblygu Fframwaith Methodoleg ar y Cyd a rhannwyd manylion gyda'r aelodau cyn y cyfarfod heddiw.

Mae gan aelod-sefydliadau'r Bwrdd rôl allweddol wrth hwyluso llunio'r asesiad, yn enwedig trwy ddarparu data lleol, cymryd rhan mewn ymgysylltu a monitro cynnydd y prosiect hyd at ei gwblhau. Gofynnwyd i'r holl aelodau hwyluso ac annog cyfranogiad gweithredol cydweithwyr yn y gwaith hwn.

Yn dilyn trafodaeth fer, **CYTUNODD** y Bwrdd ar y canlynol:
**R1** Cadarnhaodd y BGC y Fframwaith Methodoleg ar y Cyd ar gyfer cynnal Asesiadau Llesiant Lleol.
**R2** Dylai pob aelod-sefydliad BGC enwebu 'Arweinydd Data' i gynorthwyo â chasglu a dadansoddi data ar gyfer yr asesiad.
**R3** Rhoddodd BGC ganiatâd ar gyfer dechrau ymgysylltu a chasglu data gydag is-grwpiau'r BGC ym mis Mai drwy gyfres o weithdai rhyngweithiol.
**R4** Cymeradwyodd y BGC gyflwyno cais i Rwydwaith Cydgynhyrchu Cymru i gael eu cefnogaeth ar gyfer gweithgarwch ymgysylltu yn ystod y rownd hon o asesiadau.

**CAM GWEITHREDU: Pob aelod-sefydliad y Bwrdd i enwebu 'Arweinydd Data' i gynorthwyo wrth gasglu a dadansoddi data ar gyfer yr Asesiad Llesiant Lleol.**

| | |
|---|---|
| **25.8** | Adroddiad Blynyddol Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion |

Adroddodd Lynne Walters (LW) wrth aelodau'r Bwrdd y bydd Adroddiad Blynyddol Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2020/21, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn cael ei lunio ar y cyd â Chadeiryddion Grwpiau'r Prosiectau yn barod i'w gyhoeddi ym mis Gorffennaf.

Er bod Llywodraeth Cymru wedi nodi ei bod yn barod i fod yn hyblyg ar y dyddiad cau eleni, y bwriad yw y bydd yr adroddiad drafft yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd cyn y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 12 Gorffennaf er mwyn cael cymeradwyaeth derfynol cyn ei gyhoeddi.

Bwriad Adroddiad Blynyddol 2020/21 yw adeiladu ar adroddiadau blaenorol a bydd yn adfyfyrio'n bwrpasol ar brofiad amgylchiadau gweithredu heriol y llynedd. Yn ddealladwy, mae'r 12 mis diwethaf wedi creu nifer o faterion i sefydliadau partner fynd i'r afael â nhw ac mae'n bwysig bod cynnwys yr Adroddiad Blynyddol yn adlewyrchu'r heriau hyn wrth fod yn onest am unrhyw addasiadau sydd wedi bod yn angenrheidiol.

Bydd yr adroddiad yn realistig a bydd yn canolbwyntio ar yr hyn sydd wedi bod yn bosibl, o fewn y cyfyngiadau, a bydd hefyd yn ceisio rhoi gwybodaeth am y cyfleoedd sydd nawr yn dechrau dod i'r amlwg ar gyfer y cyfnod nesaf.

| **25.9** | Grant Adfer ar gyfer Gwirfoddoli |
|---|---|

Hysbysodd HLL yr aelodau y bydd adroddiad llawn erbyn y cyfarfod nesaf y Bwrdd ym mis Gorffennaf yn seiliedig ar y Grant Adfer ar gyfer Gwirfoddoli. Gyda'r posibilrwydd o gael rhyngwyneb cyhoeddus uniongyrchol ar gyfer y gwaith hwn gofynnodd HLL i'r aelodau ystyried eu cefnogaeth i ddefnyddio enw a logo'r Bwrdd ar gyfer y strategaeth a sesiynau codi ymwybyddiaeth yn y dyfodol.

**PENDERFYNIAD: Cytunodd aelodau'r Bwrdd y gellid defnyddio logo ac enw'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i hyrwyddo'r gwaith a wneir o dan y Grant Adfer ar gyfer Gwirfoddoli.**

| **25.10** | Unrhyw Faterion Eraill |
|---|---|

I. Rhoddodd CM y wybodaeth ddiweddaraf i aelodau am weithgareddau a gynhaliwyd o dan y Gronfa Datblygu Plant dros y flwyddyn ddiwethaf. Gyda'r cyllid a ddarparwyd y llynedd ar gyfer Plant 0-5 oed defnyddiwyd adnoddau ar gyfer eitemau fel y canlynol:

- Byrddau cyfathrebu
- Grant Cotiau ac Esgidiau Glaw i gefnogi teuluoedd ac i alluogi plant i chwarae tu allan yn ystod y gaeaf.

| | |
|---|---|
| | • Adnoddau i ddatblygu sgiliau personol, emosiynol a chorfforol.<br><br>Dywedodd CM fod yna £60,000 ychwanegol i'w wario rhwng Ebrill a diwedd Medi 2021. Defnyddir y cyllid fel y llynedd, ond croesawodd CM unrhyw syniadau ychwanegol gan bartneriaid.<br>**PENDERFYNIAD: Cytunodd yr aelodau i Cathryn Morgan ddefnyddio'r cyllid yn yr un ffordd â'r llynedd.**<br><br>II. Ymddiheurodd Ifan Evans (IE) i aelodau am ei absenoldeb o gyfarfodydd blaenorol y Bwrdd. Rhoddodd IE wybod i'r aelodau heddiw mai hwn fydd ei gyfarfod olaf a chyflwynodd ei olynydd, Mr Duncan Hamer a fydd nawr yn cynrychioli Llywodraeth Cymru yng nghyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol. Diolchodd y Cadeirydd i Ifan Evans am ei gyfraniadau i drafodaethau'r Bwrdd dros y blynyddoedd. Dymunai'r Cadeirydd hefyd fynegi ei diolch i Lywodraeth Cymru am y cyllid a'r gefnogaeth sydd wedi bod ar gael i fusnesau bychain yn ystod COVID-19. Nodwyd bod y cyllid a'r gefnogaeth wedi bod yn llwyddiant mawr yn y Sir gan greu swyddi newydd yng Ngheredigion.<br><br>III. Dywedodd HLL fod CAVO yn derbyn ymholiadau gan y trydydd sector ynghylch pryd y mae sefydliadau'n bwriadu dychwelyd i swyddfeydd a gofynnodd y byddai'n fuddiol i bob sefydliad rannu gwybodaeth am y mater hwn. Cadarnhaodd y drafodaeth fod sefydliadau ar hyn o bryd wrthi'n ystyried opsiynau ond ni wnaed unrhyw benderfyniadau hyd yma.<br>**CAM GWEITHREDU: Hazel Lloyd-Lubran i drafod hyn ymhellach gyda'r Tîm Polisi a Pherfformio.**<br><br>Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben trwy ddiolch i bawb am ddod ac am ddal i gyfrannu. |
| **25.11** | **<u>Dyddiad y cyfarfodydd nesaf:</u>**<br>**12 Gorffennaf 2021**, 13.30-15:30<br>**17 Medi 2021**, 10.00-12:00<br>**29 Tachwedd 2021**, 13.30-15:30 |

# Adroddiad Grŵp Prosiect y BGC

Paratowyd gan: Manon Horscroft Dyddiad: 08.04.2021

| | |
|---|---|
| **Amcan y Cynllun Llesiant** | Creu cymunedau diogel sy'n amgylcheddol gyfrifol ac sy'n gallu addasu ac ymateb i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. |
| **Ein Gwerthoedd** | Iaith Gymraeg, Mynd i'r Afael ag Anghydraddoldebau, Cynnwys, Cynaliadwyedd, Arwain Trwy Esiampl |
| **Enw'r Grŵp Prosiect** | Newid Hinsawdd ac Adnoddau naturiol |
| **Cadeirydd**<br>**Is-gadeirydd** | **Gillian Wells,** Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Sarah Davies, Prifysgol Cymru, Aberystwyth |

| **Aelodaeth y Grŵp Prosiect** *(Mae enwau mewn **print trwm** yn dynodi presenoldeb yn y cyfarfod)* | | | |
|---|---|---|---|
| Cyngor Sir Ceredigion (CSC) | **Y Cynghorydd Alun Williams**, Rhodri Llwyd, Diana Davies, **Rob Starr, Alison Heal,** Gareth Evans, **Julie Thomas,** Michael Smith, **Manon Horscroft, Lynne Walters**, **Caitlin Theodorou,** Carwyn Jones-Evans. | Heddlu Dyfed Powys | Andrew Merry |
| Y GIG | Anna Bird, **Terri Shaw**, Paul Williams | Cyfoeth Naturiol Cymru | **Gillian Wells, Yvette Eley,** Carol Fielding, Aneurin Cox, **(Rachel Jarvis)** |
| Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru | Amy Richmond-Jones, Jessica Millard, **(Seamus Doyle)** | Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion | **Kate Naidoo** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Prifysgol Cymru Aberystwyth | Sarah Davies | Aelod ychwanegol | Roger Fisher |

**CRYNODEB O GYFARFOD Y GRŴP PROSIECT**

| Pwyntiau Allweddol a drafodwyd yng nghyfarfod y Grŵp Prosiect: |
|---|
| **Ymddiheuriadau:** Jessica Millard (Absenoldeb Mamolaeth), Rhodri Llwyd a Sarah Davies.<br><br>Dechreuodd y Cadeirydd trwy groesawu pawb i'r cyfarfod. Trafodwyd yr holl gamau gweithredu o gyfarfod 25.01.21 fel y nodir isod ac mae pob un wedi'i gwblhau.<br>Nodwyd bod cyfarfod, dan gadeiryddiaeth Sarah Davies o Brifysgol Aberystwyth, wedi cael ei gynnal i grŵp bach gwrdd i ystyried syniadau ymchwil. Fe wnaethant hefyd ystyried yr adroddiad Peilot Cydnerthedd gwreiddiol o Gastellnewydd Emlyn. Yn y cyfarfod cytunwyd y byddai Sarah Davies yn cylchredeg briff ymchwil a fydd yn galluogi myfyrwyr i gael eu hystyried i gynorthwyo aelodau'r grŵp prosiect hwn gydag elfennau unigol gwaith a phrosiectau.<br>**Cam Gweithredu: Sarah Davies i gylchredeg y briff ymchwil i aelodau ar ôl ei gwblhau ar gyfer mewnbynnu ac adolygu.**<br><br>Rhoddodd Alison Heal fanylion i aelodau ynghylch llwyddiant cais a gyflwynwyd am arian i gefnogi prosiect gan Gyngor Tref Aberystwyth. Roedd y cais hwn yn llwyddiannus a dyfarnwyd £212k iddynt. Defnyddir yr arian hwn ar flaenoriaethau Bio-amrywiaeth yn yr ardal ar dir y lawnt Fowlio ar Ffordd y Gogledd, Aberystwyth ac o amgylch y tir. Mae gan y Cyngor Tref lawer o syniadau a bydd gwaith yn cychwyn o amgylch yr ardal hon yn fuan iawn. Llongyfarchodd yr aelodau Alison Heal a'r Cynghorydd Alun Williams ar y llwyddiant mawr hwn a diolchodd y Cynghorydd Williams yn ffurfiol i Alison am ei mewnbwn a'i chefnogaeth arbenigol yn natblygiad cynnig y prosiect.<br><br>Hysbysodd y Cynghorydd Alun Williams yr aelodau bod gwaith ymgynghori hefyd wedi cychwyn gan Brifysgol Aberystwyth ar ymgynghoriad bach ar Fferm Solar. Rhoddwyd y ddolen ganlynol i'r aelodau i gael mwy o wybodaeth.<br>https://www.asbriplanning.co.uk/statutory-pre-application-consultation/land-north-of-fferm-penglais-aberystwyth-fferm-solar-ar-tir-ir-gogledd-o-fferm-penglais-aberystwyth/?fbclid=IwAR0naw4tP8orXJ5ugbfEpQDvPXZSQcCYJgobec1O8OPChXTbtRlUKYBqDS0 |

Nododd Julie Thomas fod angen ymgynghori â'r adran gynllunio ar gyfer y cynnig hwn gan na chredir bod hyn wedi digwydd hyd yma.

Cyfeiriwyd hefyd gan y Cynghorydd Alun Williams at y bwriad i'r Awdurdod Lleol adolygu eu contractau yn llawn gyda chyflenwyr a allai fod yn defnyddio mawn. Mae'r gwaith hwn yn gymhleth ac yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ond mae'n flaenoriaeth i'r Awdurdod Lleol.
Gwnaed cais i weld Polisi Mawn Cyfoeth Naturiol Cymru gan y gallai hyn roi cyfle i bolisïau ategol gael eu mabwysiadu.

**Cam Gweithredu: Gillian Wells ac Yvette Eley i rannu Polisi Mawn Cyfoeth Naturiol Cymru fel bod gan bawb yr un Polisi Mawn.**

O ran y pwynt gweithredu blaenorol yn ymwneud â'r adroddiad dilynol a gyfeiriwyd at y BGC gan Dr Alan Netherwood a Dafydd Thomas, rhoddodd Gillian Wells a'r Cynghorydd Alun Williams drosolwg ar y cyd o'u presenoldeb yn y sesiwn a gynhaliwyd ar 5ed Mawrth. Cytunwyd bod canfyddiadau'r gwaith wedi nodi'n glir yr heriau a wynebir yng nghyd-destun Newid Hinsawdd er ei bod ychydig yn aneglur sut y gellid datblygu hyn. Mae'n faes mor enfawr a chytunwyd y byddai Gillian Wells yn rhoi diweddariad i'r BGC yn eu cyfarfod nesaf ar 26ain Ebrill. Ymgymerir â hyn gan fod yr adroddiad atodol a gyflwynwyd ar gyfer sylw'r BGC a chytunwyd y byddai unrhyw gamau i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn gofyn am ymrwymiad a chefnogaeth yr holl bartneriaid.

**Cam Gweithredu:** Gillian Wells i gynnwys yr adroddiad hwn yn ei diweddariad fel Cadeirydd i gyfarfod y BGC ar 26ain Ebrill.

<u>Ail-gysylltu a gwella cysylltiadau presennol â natur</u>
Rhoddodd Yvette Eley ddiweddariad i aelodau ar yr Adroddiad Terfynol ar gyfer Ail-gysylltu Natur sydd bellach wedi'i gael oddi wrth yr ymgynghoriaeth lwyddiannus, Resources for Change Ltd. Pwrpas yr adroddiad hwn yw “nodi ffyrdd i wella bioamrywiaeth, cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer cysylltiadau rhwng pobl a natur, gan gefnogi'r nodau a nodir yn y Cynllun Llesiant.” Dywedodd YE fod rhestr hir dros 170 o safleoedd cyhoeddus sydd â photensial gwella’n ecolegol / yn gymunedol wedi'i chreu a bod casgliadau o safleoedd wedi’u nodi. Roedd cyfanswm saith dewis sydd wedi'u lleoli ledled y sir wedi’u nodi. Yn unigol ac ar y cyd, gallant ddangos amrywiaeth o gyfleoedd ar gyfer rhyngweithio a

datblygu o fewn ac ar gyfer cymunedau. Cadarnhaodd y cyflwyniad hefyd fod y saith prosiect thematig hyn a nodwyd yn cynnwys 57 safle.

**Aberystwyth:** Prosiectau Bywyd Gwyllt Cymunedol fydd y thema allweddol o amgylch yr ardal hon. Mae cyfle gwych yn Aberystwyth i wella ar gamau integredig, ymgysylltu â'r gymuned ar fannau gwyrdd a seilwaith gwyrdd.
**Llanilar:** Mae'r Daith Gerdded Bywyd Gwyllt gylchol wedi'i nodi fel y thema allweddol ar gyfer datblygu yn yr ardal hon. Mae pocedi o goetir a phrysgwydd wedi'u gwasgaru ledled y dirwedd ac wedi'u cysylltu gan goridor cloddiau a glannau'r afon.
Mae llawer o'r tir cyhoeddus o amgylch Llanilar yn goetir ac yn cael ei reoli gan Gyfoeth Naturiol Cymru, gan gynnig cyfle gwych i ddatblygu prosiectau cymunedol addas.
**Llanbedr Pont Steffan:** Y cynnig fyddai datblygu Coetir a Bywyd Gwyllt Dŵr Croyw. Trwy roi'r pwysigrwydd a'r ffocws ar yr afonydd a'r nentydd o amgylch Llanbedr Pont Steffan mae hyn yn creu cysylltiad amgylcheddol cryf i adeiladu arno. Mae Afon Teifi ac Afon Dulas yn cefnogi poblogaethau rhywogaeth y mamal sy'n dirywio gyflymaf yn y DU, llygoden y dŵr. Gallai cyfleoedd i godi ymwybyddiaeth amgylcheddol o amgylch themâu bioamrywiaeth dŵr croyw a choetir, newid yn yr hinsawdd ac atal llifogydd yn naturiol, fod yn fuddiol yma.

Croesawyd yr adroddiad gan aelodau'r grŵp prosiect a chytunwyd y dylai'r grŵp gorchwyl barhau ar waith i ystyried cynlluniau gweithredu ar gyfer cyd-gynhyrchu ceisiadau am gyllid.

**CAM GWEITHREDU: LW i gylchredeg y cyflwyniad gyda'r aelodau ynghyd â chopi o'r adroddiad terfynol.**

<u>Ymgyrch Byddwch yn Garedig wrth yr Amgylchedd</u>
Mae llawer o elfennau i'r gwaith hwn sy'n mynd rhagddo trwy CAVO. Gyda "**O'ch Drws Ffrynt"** y syniad yw gofyn i bobl fynd allan am dro yn eu hardal leol ac yna rhannu eu profiad ag eraill trwy blatfform ar-lein. Cyhoeddwyd erthygl hyrwyddol yn y Cambrian News ac ysgogodd hyn bobl i anfon eu llwybrau a'u lluniau cerdded. Gwnaed cysylltiadau â "Cerdded er Lles Ceredigion" i hyrwyddo eu teithiau cerdded rhithwir tra bod teithiau cerdded grŵp yn dal i gael eu cyfyngu. Gwnaed gwaith hefyd gyda Cered a phreswylwyr chartrefi gofal lleol er mwyn datblygu taflenni ffeithiau dwyieithog yn rhoi manylion planhigion ac adar cynhenid i bobl eu hadnabod wrth iddynt gerdded. Crëwyd llyfrynnau garddio hefyd gyda ffocws ar ardd synhwyraidd perlysiau a phlanhigion persawrus.

I ddechrau, cysylltwyd "O'ch Calon" â cherdded a chwilio am gerrig wedi'u paentio. Mae Caffi Cletwr wedi cynnal sesiwn beintio ar-lein i gyflwyno'r ymgyrch i'w cwsmeriaid. Yna datblygodd "O'ch calon" yn bethau y gallech eu gwneud i 'garu' eich ardal leol ac mae hyn wedi cael ei gysylltu â Naturehood, prosiect cymunedol o Earthwatch Europe. Cynlluniwyd **"O'ch Gardd"** i ddechrau i gefnogi grwpiau/unigolion i blannu gartref ac ystyried plannu cymunedol wrth i'r cyfyngiadau godi. Mae cysylltiadau wedi'u creu gydag 'Adam yn yr Ardd' a'i flog fideo garddio dwyieithog. Mae ei fideos diweddaraf wedi'u hanelu at ddysgwyr Cymraeg lle mae pobl yn gallu gweld pob fideo trwy YouTube. Mae CAVO yn gweithio gyda busnes bach lleol "Harvest" sy'n cynhyrchu tai gwydr clyfar ond sydd hefyd ag ethos cryf o annog tyfu bwyd.
**Cam Gweithredu: Kate Naidoo ac Alison Heal i gysylltu gwaith o amgylch Cartrefi Gofal.**
**Cam Gweithredu: Ymgyrch Byddwch yn Garedig wrth yr Amgylchedd i aros ar Agendâu yn y dyfodol.**

<u>Datganiad Ardal Canolbarth Cymru</u>
Rhoddodd Rachel Jervis drosolwg byr o Ddatganiad Ardal Canolbarth Cymru a'i ffocws ar Newid Hinsawdd fel thema allweddol. Gobeithio yr eir i'r afael â'r thema Newid Hinsawdd ar ôl cwblhau'r 4 thema ardal allweddol arall y manylir arnynt yn Natganiad Ardal Canolbarth Cymru. Soniodd RJ am syniad sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru i greu cysylltiadau cryfach â BGC Ceredigion a defnyddio'r Grŵp Prosiect Newid Hinsawdd ac Adnoddau Naturiol i gyflawni ac ychwanegu gwerth at drafodaethau a chamau gweithredu'r prosiect. Cododd RJ awgrym posibl hefyd i aelodau ystyried creu is-grŵp arall ar gyfer Datganiad Ardal Canolbarth Cymru, lle bydd cysylltiadau posibl yn cael eu gwneud â Phowys i ystyried cydweithio'n rhanbarthol.

Dywedodd y Cynghorydd Alun Williams y gallai gweithio'n rhanbarthol fod yn fuddiol iawn mewn rhai themâu ond rhaid i ni sicrhau ein bod yn cynnal ac yn cydnabod y cyd-destun lleol ar gyfer ein trafodaethau. Cytunwyd bod meysydd eraill yn wir lle mae cydweithio wedi bod yn fuddiol iawn a rhaid i ni ystyried y trafodaethau hyn eto. Cytunwyd hefyd bod gan y grŵp prosiect hwn rôl gref wrth yrru prosiectau, a nodwyd yn ei waith a gomisiynwyd a nodwyd uchod, yn eu blaenau.

**Cam Gweithredu: Rachel Jervis i gael ei gwahodd i gyfarfod mis Mehefin i roi diweddariad manylach.**

<u>Asesiad o Lesiant Lleol</u>

| |
|---|
| Rhoddodd Rob Starr drosolwg ar yr Asesiad o Lesiant Lleol, a fydd yn llywio'r Cynllun Llesiant Lleol. Mae canol mis Mai i ganol mis Gorffennaf wedi'i glustnodi ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu, gydag ymgynghoriad i ddigwydd yn Hydref / Gaeaf 2021. Dywedodd RS fod fframwaith methodoleg ar y cyd yn y broses o gael ei sefydlu gyda phartneriaid rhanbarthol. Bydd yr Asesiad drafft o Lesiant Lleol yn cael ei ddatblygu yn yr haf, a cheisir cymeradwyaeth y BGC cyn y cyfnod ymgynghori. Bydd cymeradwyaeth derfynol y BGC a chwblhau'r ail ddrafft yn cael ei gwblhau yng Ngwanwyn 2022.<br><br>Mae cais am Gydlynydd Rhanbarthol wedi'i gyflwyno - Os yw'n llwyddiannus, bydd deiliad newydd y swydd yn cychwyn ym mis Mehefin neu fis Gorffennaf. Nododd RS fod y tîm yn ystyried defnyddio arbenigedd rhanddeiliaid ar draws pob un o Grwpiau Prosiect y BGC i gasglu gwybodaeth a data o amgylch pob un o'r nodau llesiant. Yn ystod y cyfnod ymgysylltu, cynigiodd RS y dylid neilltuo amser yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Prosiect i gynnal sesiwn grŵp ffocws a defnyddio gwybodaeth aelodau i nodi data a chyfleoedd i hyrwyddo arolygon a pholau. Nododd RS bwysigrwydd y sesiynau hyn, oherwydd er bod digon o setiau data cenedlaethol ar gael, mae angen ategu'r wybodaeth hon â data cyd-destunol lleol.<br>**CAM GWEITHREDU: Sesiwn Grŵp Ffocws Asesiad o Lesiant Lleol i'w chynnal yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Prosiect.** |
| **Cyfarfodydd nesaf:**<br>10fed Mehefin, 2021<br>12fed Awst, 2021<br>11eg Tachwedd, 2021 |



**CAMAU SYDD WEDI'U CYNNWYS YN Y CYNLLUN LLESIANT LLEOL O DAN YR AMCAN HWN**

| Cam Gweithredu Tymor Byr | Cam Gweithredu Tymor Canolig | Cam Gweithredu Hirdymor |
|---|---|---|
| Creu Asesiad Risg Newid yn yr Hinsawdd ac Adnoddau Naturiol Ceredigion a fydd yn amlinellu meysydd risg, yn sbarduno lefelau ac yn cynnwys ymatebion, gweithredoedd a chyfleoedd ar gyfer hyfforddiant ymwybyddiaeth gymunedol. | Trwy addysg a phrosiectau peilot, byddwn yn hyrwyddo cynaliadwyedd cymunedol a busnes, ynni adnewyddadwy, cysylltedd natur a chymryd cyfrifoldeb am y camau a nodwyd yn yr Asesiad Risg Newid Hinsawdd ac Adnoddau Naturiol. | Amddiffyn a gwella cydnerthedd ecosystemau, yr amgylchedd ac asedau naturiol Ceredigion gan wneud y mwyaf o'n heconomi, iechyd a lles. |

**CYNLLUN GWEITHREDU: EBRILL 2020 – MAWRTH 2021**

| ALLWEDD | |
|---|---|
| GWYRDD | Ar waith ac ar y trywydd iawn |
| AMBR | Ar waith ond ceir rhai pryderon sydd angen eu monitro'n agos |
| COCH | Ar waith ond mae pryderon mawr ac mae angen cymryd camau unioni |
| GLAS | Wedi'i atal am y tro |
| DU | Wedi dod i ben |

| **CAM 1:** *Paratoi cais am gyllid i'w gyflwyno i Gyfoeth Naturiol Cymru* | | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithgaredd** | | **Erbyn Pryd** | **Sylwadau** |
| 1.1 | Hwyluso sesiwn gychwynnol ar gyfer cywain syniadau fel y gall aelodau'r grŵp prosiect ddefnyddio'r cyllid £25,000 y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei gynnig i'r Bwrdd. | 24.09.20 | Cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol i ddiweddaru'r grŵp prosiect a chafodd gwybodaeth ei lledaenu i'r partneriaid ynglŷn â'r cyfleoedd sydd ar gael am gyllid oddi wrth Gyfoeth Naturiol Cymru. |
| 1.2 | Paratoi ffurflen ar gyfer cynnig prosiectau gan gynnwys amlinelliad o syniadau fel y gall aelodau'r grŵp prosiect roi adborth ac ystyried cyflwyno eu syniadau eu hunain ar gyfer defnyddio cyllid Cyfoeth Naturiol Cymru. | 30.09.20 | Datblygwyd y ffurflen dan sylw a chafodd ei dosbarthu i holl aelodau'r grŵp prosiect gan ofyn iddynt gyflwyno eu syniadau yn ffurfiol fel y gellid eu cynnwys yn y cais am gyllid oddi wrth Gyfoeth Naturiol Cymru. |
| 1.3 | Paratoi adroddiad byr sy'n crynhoi'r prif syniadau i'w hystyried a'u dewis. | 05.10.20 | Cynhaliwyd cyfarfod gyda'r partneriaid a dewiswyd dwy dasg benodol i'w cynnwys ar y ffurflen dan sylw. Byddai'r dasg allweddol gyntaf yn golygu comisiynu ymgynghorwyr i |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | ganolbwyntio ar gynlluniau a fyddai’n annog pobl i ymwneud mwy â’u hamgylchedd. Byddai’r ail dasg allweddol yn canolbwyntio ar gynnal ymgyrch farchnata o'r enw “Byddwch yn garedig wrth eich amgylchedd”. Cyfeiriwyd hefyd at y ffaith fod cynnig a gyflwynwyd gan y GIG yn canolbwyntio ar y posibilrwydd y gallai’r cyllid hwn fod ar gael ar gyfer Blynyddoedd 2 a 3. |
| 1.4 | Cyflwyno cais am gyllid i Gyfoeth Naturiol Cymru ynghyd â dogfennau i’w llofnodi. | 09.10.20 | Cyflwynwyd y ffurflen a llofnodwyd y dogfennau perthnasol. Disgwylir penderfyniad ynglŷn â’r cyllid ddechrau mis Tachwedd. |
| 1.5 | Trafod opsiynau ar gyfer gwella’r drefn o gyfathrebu a rhannu ffeiliau gyda phartneriaid y grŵp prosiect rhwng y cyfarfodydd. | 27.10.20 | Yn ystod cyfarfod y grŵp prosiect, ystyriodd pob un o’r aelodau aelodaeth y grŵp hwn a bu iddynt gadarnhau eu cefnogaeth i'r cais cyllido uchod. Cytunwyd hefyd y byddai unrhyw ddogfennau cefndirol ynglŷn â phrosiectau eraill yn cael ei rhannu e.e. Prosiect peilot Cydnerthedd Cymunedol - Castellnewydd Emlyn, Basecamp, Coed Lleol ac ati. |
| 1.6 | Trafod sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i oruchwylio’r defnydd a wneir o gyllid Cyfoeth Naturiol Cymru. | 27.10.20 | Grŵp gorchwyl a gorffen wedi’i sefydlu a rhoddwyd pwyslais ar hyn wrth baratoi Briff y Tendr er mwyn bod yn barod cyn gynted ag y daw’r penderfyniadau am y cyllid i law. |
| 1.7 | Dechrau ar y gwaith o baratoi briff y tendr ar gyfer penodi ymgynghorwyr. | 02.11.20 | Caiff Briff y Tendr ei lunio a’i ddosbarthu er mwyn i’r grŵp gorchwyl a gorffen ei adolygu a’i newid. Byddai pwysigrwydd hygyrchedd a chyfeiriad penodol at hawliau tramwy cyhoeddus yn cael eu cynnwys. |
| 1.8 | Gweithio gyda'r grŵp gorchwyl a gorffen i gwblhau briff y tendr gan ddilyn y rheoliadau caffael. | 09.11.20 | Cafwyd y penderfyniad ynglŷn â’r cyllid oddi wrth Gyfoeth Naturiol Cymru ar e-bost ar 12fed Tachwedd. Disgwylir llythyr i gadarnhau hyn. Caiff Briff y Tendr ei gwblhau a'i gyhoeddi trwy’r dulliau arferol. Y dyddiad cau yw dydd Llun 7fed Rhagfyr. Hysbysir aelodau’r grŵp prosiect am y cynnydd a wneir. Dechreuir ar y gwaith cyn y cyfarfod cyntaf. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1.9 | Trafod â CAVO i gynllunio'r ymgyrch "Byddwch yn garedig wrth eich amgylchedd" gan ragweld y bydd yn cael ei lansio yn y Flwyddyn Newydd. | 01.12.20 | Cynhaliwyd trafodaethau cychwynnol i sefydlu cytundeb contractiol rhwng Cyngor Sir Ceredigion a CAVO ar gyfer cyflawni'r elfen benodol hon o'r cynnig. Y Grŵp Gorchwyl a Gorffen hefyd fydd y grŵp llywio ar gyfer yr elfen hon o'r prosiect a bydd CAVO yn rhoi diweddariad yng nghyfarfod nesaf y grŵp gorchwyl a gorffen ar $9^{fed}$ Rhagfyr. |
| 1.10 | Y grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried y tendrau a gyflwynir fel y gellir dechrau ar yr ymchwil/mapio ym mis Rhagfyr 2020. | Rhag. '20 | Cynhelir cyfarfod o'r grŵp gorchwyl a gorffen ddydd Mercher $9^{fed}$ Rhagfyr. |
| 1.11 | Cynnal y cyfarfod cyntaf a chytuno ar y cynllun gwaith. | Rhag '20 | Cwblhawyd y broses gaffael ac ar ôl i 6 thendr ddod i law, penodwyd Resources for Change Ltd. |
| 1.12 | Monitro Camau Allweddol a Cherrig Milltir y Tendr – bydd yr Adroddiad Dros Dro yn seiliedig ar yr ymchwil desg. | 31.1.21 | Monitro parhaus yn mynd rhagddo. Crëwyd cofnod o'r camau gweithredu i arwain yr ymateb o ran y tendr. |
| 1.13 | Monitro Camau Allweddol a Cherrig Milltir y Tendr – Cyflwyno rhestr o'r prosiectau | Canol Chwefror '21 | Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar $6^{ed}$ Ionawr a chynhaliwyd cyfarfod gyda'r Cleientiaid ar $25^{ain}$ Ionawr. Mae rhestr hir o safleoedd posibl wedi'i pharatoi ac rydym ar hyn o bryd yn cytuno ar y meini prawf fel y gallwn ddatblygu'r rhestr fer. |
| 1.14 | Monitro Camau Allweddol a Cherrig Milltir y Tendr – Cyflwyno'r cynllun gan gefnogi'r adnoddau gweledol a chwblhau'r contract. | $31^{ain}$ Mawrth '21 | Cafwyd yr adroddiad terfynol yn rhoi syniadau manwl ar gyfer 7 maes thematig. Ynghyd â'r adroddiad mae dogfen ariannu ddefnyddiol iawn ar gyfer aelodau'r grŵp prosiect. |
| 1.15 | Monitro elfen "Byddwch yn garedig wrth eich amgylchedd" y cais am gyllid | $31^{ain}$ Mawrth '21 | Lansiwyd yr ymgyrch 'Byddwch yn garedig wrth yr amgylchedd – Caru lle'r ydych chi'n byw ar $25^{ain}$ Ionawr – O'ch Gardd, O'ch drws ffrynt ac O'ch Calon. |
| 1.16 | Paratoi adroddiad monitro a chwblhau'r rhwymedigaethau cyllido ar gyfer 2020/21 | $31^{ain}$ Mawrth '21 | Mae'r cais am gyllid wedi'i wneud a chyflwynwyd yr adroddiad monitro. Bydd sylw nawr yn troi at weithredu'r camau hyn wrth gydnabod bod partneriaid yn gweithredu o |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | fewn adnoddau cyfyngedig. Mabwysiadir dull gweithredu graddol ar gyfer gweithredu a bydd y rôl arweiniol ar gyfer camau gweithredu'r prosiect yn wahanol yn unol â'r arbenigedd sy'n ofynnol. |

| **CAM 2:** *Aelodau'r grŵp i rannu arfer da a chefnogi trafodaethau'r grŵp prosiect* | | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithgaredd** | | **Erbyn Pryd** | **Sylwadau** |
| 2.1 | Sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried y dystiolaeth ymchwil er mwyn cefnogi blaenraglen waith y grŵp. | Rhag '20 | Cynhelir cyfarfod cyntaf y Grŵp Gorchwyl a Gorffen hwn ar 17eg Chwefror o dan Gadeiryddiaeth Sarah Davies, Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Gorchwyl gyntaf y grŵp fydd ystyried y prif flaenoriaethau a nodwyd yn adroddiad terfynol Cynllun Cydnerthedd Hinsawdd Castellnewydd Emlyn. |
| 2.2 | Paratoi ar gyfer yr alwad newydd am gynigion yn amodol ar dderbyn cadarnhad o gyllid ychwanegol gan Gyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2021/22. | 31ain Ionawr 2021 | Rhoddwyd 31ain Ionawr fel dyddiad ar gyfer y cam gweithredu hwn er mwyn mynd i'r afael â'r heriau a ddaeth yn sgil yr amserlen dynn eleni. Fodd bynnag, mae'r alwad am brosiectau newydd wedi'i hatal am y tro wrth i Gyfoeth Naturiol Cymru wneud penderfyniadau yn fewnol ynglŷn ag ariannu. Mae'r pecynnau ariannu hyn yn cael eu paratoi ar hyn o bryd ac ailgydir yn y mater hwn mewn cyfarfod yn y dyfodol. Cytunwyd bod sicrhau bod cyllid ar gael yn gynnar yn y flwyddyn ariannol yn hanfodol a rhaid cydnabod hefyd bod angen i ffrydiau cyllido fod yn y tymor hwy er mwyn cael effaith gadarnhaol a pharhaol. |
| 2.4 | | | |

| **CAM 3 :** *Ystyried prosiectau peilot a rhaglenni cymorth eraill* |
|---|

| Gweithgaredd | | Erbyn Pryd | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| 3.1 | Ystyried adroddiad terfynol Prosiect Cydnerthedd Hinsawdd, Castellnewydd Emlyn. | Ion '21 | Mae'r adroddiad hwn wedi dod i law ac mae'r prif flaenoriaethau wedi'u trafod. Mae'r grŵp wedi cytuno i ofyn i'r grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried hyn yn fwy manwl. |
| 3.2 | Adolygu'r prosiect a rhoi diweddariad am Basecamp a'r rhaglenni eraill. | Mawrth '21 | Mae'r ymgyrch 'Caru lle'r ydych yn byw' wedi creu cysylltiadau uniongyrchol â Basecamp er mwyn rhannu gwybodaeth a chreu rhagor o gysylltiadau. |
| 3.3 | Gwybodaeth wedi'i rhannu ag aelodau'r grŵp prosiect am fentrau newydd. | Ebrill '21 | Mae adroddiad yr ymgynghoriaeth wedi cynnwys crynodeb manwl o'r rhaglenni ariannu ar hyn o bryd. Mae hyn i'w rannu ag aelodau'r grŵp prosiect. Mae hefyd yn bwysig rhannu gwybodaeth am fentrau eraill e.e. Ceinewydd trwy eu Cylchlythyr. |

**BGC: PENDERFYNIADAU A RISGIAU**

| Penderfyniadau Angenrheidiol neu Risgiau i'w hamlygu i'r BGC |
|---|
| |

# Adroddiad Grŵp Prosiect BGC

Paratowyd gan: Manon Horscroft Dyddiad: 19.03.2021

| | |
|---|---|
| **Nod y Cynllun Llesiant** | **Creu amodau i gymunedau gefnogi unigolion o bob cefndir i fyw bywydau llawn ac annibynnol**<br>Datblygu a chynnal rhwydweithiau cymdeithasol, a chyfleoedd diwylliannol ac ieithyddol i wella llesiant a sicrhau annibyniaeth. |
| **Ein Gwerthoedd** | Y Gymraeg, Taclo Anghydraddoldeb, Cymryd Rhan, Cynaliadwyedd, Arwain drwy Esiampl |
| **Enw'r Grŵp Prosiect** | Deall Ein Cymunedau |
| **Cadeirydd**<br>**Is-gadeirydd** | **Hazel Lloyd-Lubran**, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO)<br>**Yr Arolygydd Andrew Merry**, Heddlu Dyfed-Powys |

| **Aelodaeth y Grŵp Prosiect** *(Yr enwau mewn print **trwm** oedd yn bresennol yn y cyfarfod)* | | | |
|---|---|---|---|
| Cyngor Sir Ceredigion | Cyng. Dafydd Edwards, Naomi McDonagh, **Sara Dafydd**, **Manon Horscroft**, Diana Davies, Alan Haird, Llyr Hughes, Lowri Evans / **Cyra Shimell**, Meleri Richards, **Mari Hopkins**, **Sarah Bowen**, **Michael Smith** | Tai Wales & West | Rhiannon Ling |
| | | Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion | **Teleri Davies**, Kate Naidoo, Chesca Ross |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | **Delyth Evans**, Clare Hale, Anna Bird | Swyddfa Ben Lake | Carys Lloyd |
| Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru | Craig Thomas | Cered | Non Davies<br>**(Steffan Rees)** |
| Tai Ceredigion | Catrin Owen | Iechyd Cyhoeddus Cymru | I'w gadarnhau |

DRAFT

**CRYNODEB O GYFARFOD Y GRŴP PROSIECT**

**Pwyntiau Allweddol a drafodwyd yng nghyfarfod y Grŵp Prosiect: 19.03.2021**

***Ymddiheuriadau:*** *Cyng. Dafydd Edwards, Anna Bird, Clare Hale, Rhiannon Ling, Meleri Richards, Alan Haird, Llyr Hughes, Non Davies*
***Cyflwynwyr:*** *Al Frean & Dylan Wilson-Lewis (Radio Aber)*
***Hefyd yn bresennol:*** *Rob Starr (Cyngor Sir Ceredigion), Cerys Sharples (CAVO)*

Adborth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Rhoddodd Hazel Lloyd-Lubran (HLL) drosolwg o'r cyflwyniadau a wnaed yn y cyfarfod diwethaf o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC), a gynhaliwyd 22ain Chwefror, gan gynnwys Ymgyrch Dawns Glaw a'r Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi. Cytunwyd y byddai'n fuddiol i'r Grŵp Prosiect (GP) dderbyn cyflwyniad ar y data sy'n cefnogi'r Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi mewn cyfarfod yn y dyfodol.

**GWEITHREDU: Rob Starr (RS) i gyflwyno dangosfwrdd data mewn cyfarfod yn y dyfodol.**

Cytunodd aelodau'r BGC y byddai Cadeiryddion Grwpiau Prosiect yn bresennol ym Mhwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu Cyngor Sir Ceredigion (CSC) i roi adborth, ar sail unigol neu mewn parau, ar gynnydd y GP wrth symud ymlaen. Nododd Sara Dafydd (SD) hefyd bod angen cael cynrychiolydd newydd o Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) i fynd i gyfarfodydd y GP

**GWEITHREDU: HLL / SD i gysylltu â ICC i ddynodi cynrychiolydd.**

Cyflwyniad – Radio Aber

Rhoddodd Al Frean (AF) gyflwyniad ar Radio Aber, radio cymunedol dwyieithog ar gyfer Aberystwyth a'r ardaloedd oddi amgylch. Mae Radio Aber yn anelu at weithio'n agos gyda gwasanaethau cyhoeddus i gyflawni nodau cymunedol ac i hwyluso cysylltiadau gyda'r gymuned drwy gyfathrebu mewn modd arloesol sy'n creu effaith. Drwy hyn, mae Radio Aber yn gobeithio gwella lles trigolion Ceredigion yn economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol, yn unol â'r Cynllun Llesiant Lleol. Mae Radio Aber hefyd yn edrych ar wrthweithio canfyddiadau diweddar Coleg y Brenin, Llundain, sef bod teimlo'n ynysig ac unigrwydd ymysg pobl ifanc yn broblem gynyddol, drwy raglen sy'n anelu at estyn allan i boblogaeth ifanc Ceredigion. Drwy weithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Aberystwyth, Cered a Choleg Ceredigion, y nod yw canolbwyntio ar Y Gymraeg a lliniaru effeithiau ynysu daearyddol.

Bydd Radio Aber yn darlledu ar-lein o ddydd Llun 29ain Mawrth yn y lle cyntaf, a bydd cyflwynwyr yn darlledu'n ddwyieithog 24/7. Ar hyn o bryd, mae'r sefydliad yn cael ei arwain gan rhyw 30 o wirfoddolwyr. Yn y dyfodol, bydd Radio Aber yn ceisio dynodi

DRAFT

ffrydiau cyllido i ddatblygu swyddi staff, adeiladu ar hyfforddiant sgiliau yn y cyfryngau a gweithio'n agos gyda phobl ifanc a'r rhai sydd wedi bod yn ddi-waith yn yr hirdymor. Er bod modd cyrraedd Radio Aber ar-lein o unrhyw le (https://radioaber.wales/), oherwydd cyfyngiadau yn y drwydded, mae'r orsaf ond ar gael ar FM i Aberystwyth a'r ardal oddi amgylch. Gofynnodd RS ynghylch y posibilrwydd o gyfleoedd hysbysebu am ddim er mwyn creu cysylltiadau gyda'r Cyngor er lles y gymuned. Nodwyd y gellid defnyddio trafodaethau a sgyrsiau yn ogystal â gwybodaeth a sesiynau cynghori megis sesiynau ffonio-i-mewn i ledaenu negeseuon pwysig ymysg cymunedau, ac fel arall, am ddim. Nododd HLL y gallai fod yn fuddiol i bartneriaid ystyried mapio unrhyw ddigwyddiadau sydd ar y gweill a allai fanteisio ar sylw ar Radio Aber.
**GWEITHREDU: Aelodau'r GP i ystyried mapio digwyddiadau sydd ar y gweill i'w rhannu drwy Radio Aber.**
**GWEITHREDU: BGC ehangach i fod yn ymwybodol o'r cyfle hwn yn y cyfarfod nesaf.**

<u>Ymgysylltu a Chyfathrebu</u>
Adroddodd Delyth Evans (DE) y bydd y gwaith ar Engagement HQ yn parhau i gael ei ariannu gan Raglen 7 yn ystod y flwyddyn i ddod. Er bod gwneud cynnydd wedi bod yn her yn sgil COVID a chapasiti sefydliadau partner, gobeithir y gall gwaith gyda'r platfform barhau yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Cododd HLL y posibilrwydd o ddefnyddio'r dull cyllidebu cyfranogol yng Nghei Newydd drwy adeiladu ar waith Teresa Walters o Severn Wye, ac ystyried sut y gallai Engagement HQ a Cysylltu Ceredigion hwyluso'r syniad hwn.

Mae Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO) yn chwilio am Swyddog Ymgynghori ac Ymgysylltu Rhanbarthol gyda'r nod o ddatblygu ymhellach yr ymygysylltu â chymunedau yn rhanbarthol. Mae cwmni ymgynghori i ddatblygu strategaeth ymgysylltu ar gyfer y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) hefyd ar fin cael ei gomisiynu, a gall y canfyddiadau helpu i lywio'r GP. Rhannodd Sarah Bowen (SB) bryderon a godwyd gan Grŵp Llywio Statws Preswylwyr Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, sef bod nifer o breswylwyr Ceredigion yn gymwys i ymgeisio ac eto i wneud hynny. Cytunwyd y gallai rhannu'r wybodaeth hon ymysg grwpiau cymunedol ac ar y cyfryngau cymdeithasol atgyfnerthu'r neges.
**GWEITHREDU: HLL i rannu manylion swydd y Swyddog Ymgynghori ac Ymgysylltu Rhanbarthol pan fyddai'n cael ei hysbysebu.**
**GWEITHREDU: SB i anfon gwybodaeth am Statws Preswylwyr Sefydlog i Ddinasyddion yr UE at HLL i'w rhannu ymgysg grwpiau cymunedol ac ar y sianeli cyfryngau cymdeithasol.**
**GWEITHREDU: SB i gysylltu gyda Rheolwr Ymgysylltu'r Cyfrifiad, Huw Davies.**

<u>Data ac Asedau Cymunedol</u>
Rhoddodd Michael Smith (MS) ddiweddariad ar y camau nesaf yn yr Asesiad Llesiant Lleol y mae gan y GP y potensial i gyflawni rôl hanfodol ynddo wrth ymgysylltu. Adroddodd MS y bydd gwaith yn cael ei wneud ar yr asesiad yn lleol ac yn rhanbarthol, a

DRAFT

bod fframwaith methodoleg ar y cyd yn y broses o gael ei sefydlu. Amlygodd MS bod canol Mai a chanol Gorffennaf wedi'u clustnodi ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu, a bod ymgynghoriad i'w gynnal yn Hydref/Gaeaf 2021.

Cyflwynwyd cais am Gydlynydd Rhanbarthol – Os yw'n llwyddiannus, bydd deiliad newydd y swydd yn dechrau ym mis Mehefin neu ym mis Gorffennaf. Cynigiodd MS sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen a fyddai'n cynnwys sesiynau i drafod y cynllun ymgysylltu drafft a gweithdy ymgysylltu. Dywedodd RS y byddai dull gwyddonol â ffocws yn cael ei ddefnyddio i gasglu data drwy bleidleisiau ar-lein, grwpiau ffocws, arolygon ac anogaeth i ystyried nodau hirdymor yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
**GWEITHREDU: MS i ddrafftio'r cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn barod ar gyfer y cyfarfod cyntaf o'r grŵp Gorchwyl a Gorffen.**
**GWEITHREDU: MS, SD a HLL i bennu dyddiadau priodol ar gyfer sesiynau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen. SD / MH i ddosbarthu nodyn ar gyfer y dyddiadur a gwahoddiadau.**

Fel rhan o'r Grant Adfer ar gyfer Gwirfoddoli, nododd HLL bod Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO) yn chwilio am gyfleoedd i gynnig hyfforddiant ar ddatblygu'r gymuned sy'n seiliedig ar asedau gyda'r nod o gynnal cyfres o weithdai gyda phartneriaid yn y flwyddyn ariannol newydd. Mae adborth gan gymunedau wedi amlygu angen penodol o ran:

- Hyfforddiant Sylfaenol Cymorth Cyntaf
- Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl
- Ymwybyddiaeth Meithrin Hyder

Anogir aelodau'r GP i gysylltu â Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO) os yw grwpiau neu sefydliadau am ymgeisio i ddod yn rhan o bortffolio o ddarparwyr a all gyflenwi sesiynau i wirfoddolwyr mewn cymunedau ledled Ceredigion.

<u>Cydgynhychu</u>

Cadarnhaodd HLL bod trafodaethau cychwynnol ynghylch datblygu'r prosiect yng Nghei Newydd wedi'u cynnal gyda Teresa Walters, yn benodol, sut y gellid defnyddio Cyllidebu Cyfranogol fel cam dilynol i gynllunio gweithredu a sesiynau tystiolaeth o angen. Os yw'r dull hwn yn cael ei gymeradwyo, cynigir bod is-grŵp o'r GP yn cael ei sefydlu i symud y gwaith hwn yn ei flaen. Adroddodd Steffan Rees (SR) ei fod mewn trafodaeth gyda Teresa ynghylch creu proffil iaith o Gei Newydd, ymysg gweithgareddau eraill, gan gynnwys trafodaethau panel rhithiol.

Hysbysodd HLL bod arian y Loteri wedi'i ddyfarnu i Rwydwaith Cydgynhyrchu Cymru i gefnogi BGC yn benodol o ran yr Asesiad Llesiant Lleol, ac hefyd yn y tymor hirach dros y 5 mlynedd nesaf. Mae'n edrych ar weithio'n agos gyda 3 BGC neu glystyrau o

| |
|---|
| Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, er y gellid rhannu canfyddiadau drwy rwydweithiau dysgu ar draws yr holl Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Bydd Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru yn gwahodd Datganiadau o Ddiddordeb ym mis Ebrill.<br>**GWEITHREDU: Cadw Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru ar yr Agenda ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol.**<br><br><u>Cynllun Gweithredu y Grŵp Prosiect</u><br>Gofynnodd HLL ac SD i aelodau'r GP gysylltu os oedd angen diweddaru unrhyw wybodaeth ar y Cynllun Gweithredu, yn benodol o ran unrhyw ymgyngoriadau cymunedol diweddar na roddwyd sylw iddynt er mwyn sicrhau bod y cynnwys yn gyfredol, yn barod ar gyfer y cyfarfod nesaf o'r BGC.<br>**GWEITHREDU: aelodau'r GP i gysylltu â SD neu ychwanegu at y Cynllun Gweithredu ar safle *MS Teams* gydag unrhyw ddiweddariadau i'r Cynllun.**<br>**GWEITHREDU: SD i gysylltu â Meleri Richards ac Alan Haird ynghylch unrhyw ddiweddariadau ar Cynnal y Cardi neu Gynlluniau Lle.**<br>**GWEITHREDU: HLL ac SD i ddiweddaru'r Cynllun Gweithredu yn unol â thrafodaethau'r cyfarfod ac unrhyw adborth ychwanegol gan bartneriaid.**<br><br><u>U.F.A.</u><br>Cyfeiriodd RS at brosiect a oedd yn yr arfaeth gan Ysgol Fusnes Prifysgol Aberystwyth sy'n ymgymryd â phrosiect ar effaith COVID-19. Bydd y prosiect yn ceisio cynnal arolwg o breswylwyr a busnesau yng Ngheredigion ar effeithiau'r pandemig gan ei wneud yn ddarn unigryw o waith a fydd o ddiddordeb i'r BGC oherwydd ei ffocws ar Geredigion ac ardaloedd gwledig. Bydd Tîm Ymchwil CSC yn cynnal ac yn cefnogi'r arolwg ac yn edrych ar unrhyw gysylltiadau defnyddiol a allai gynorthwyo gyda gwaith y BGC a'i is-grwpiau. |
| **Cyfarfod nesaf:** 25ain o Fai, 10.00am-12.00pm |

**GWEITHREDU A GEIR YN Y CYNLLUN LLESIANT LLEOL DAN Y NOD HWN**

| Gweithredu Tymor Byr | Gweithredu Tymor Canolig | Gweithredu Tymor Hir |
|---|---|---|
| Gweithio gyda chymunedau i gael gwell dealltwriaeth o'u hasedau ffisegol, cymdeithasol a naturiol, a'u deinameg cyfnewidiol. Cyflawnir hyn drwy ddod â | Datblygu 'hybiau' arloesol, ymatebol, sy'n pontio'r cenedlaethau (ffisegol, rhithiol a chymdeithasol) i greu ffocws a phwynt cyswllt ar gyfer cymunedau. | Symud tuag at fodel o gyd-ddylunio a chreu gwasanaethau sy'n rhoi blaenoriaeth i gymryd rhan, a |

| | | |
|---|---|---|
| rhanddeiliaid allweddol sy'n cynrychioli amrywiaeth o fewn ein cymunedau at ei gilydd e.e. diwylliannol ac ieithyddol, a'r gwasanaethau sy'n eu cefnogi. | | gweithgareddau sy'n pontio'r cenedlaethau. |

**CYNLLUN GWEITHREDU: EBRILL 2020 – MAWRTH 2021**

| **ALLWEDD** | |
|---|---|
| **GWYRDD** | Ar waith ac ar y trywydd iawn |
| **OREN** | Ar waith ond rhai pryderon ac angen monitro gofalus |
| **COCH** | Ar waith ond pryderon mawr ac angen camau unioni |
| **GLAS** | Ar stop |
| **DU** | Wedi cau |

| **CAM 1:** Nodi cymunedau daearyddol a chymunedau o ddiddordeb *(Data ac asedau cymunedol)* | | | |
|---|---|---|---|
| | **Gweithgaredd** | **Dyddiad** | **Sylwadau** |
| 1.1 | Casglu adroddiadau a chanlyniadau ymarferion ymgynghori cymunedol diweddar. Sicrhau ein bod yn ystyried yr elfen wledig. | Parhaus | Ymgynghoriadau cymunedol Cered - Aberaeron, Llanbed, Cei Newydd<br>Dyfodol Gwledig – Llandysul, Cei Newydd<br>Cynnal y Cardi – Llanbed, Llangrannog<br>CAVO – Llandysul<br>BGC – Aberteifi, Penparcau<br>Cynlluniau Lle |
| 1.2 | Asesu'r rhestr bresennol o grwpiau rhanddeiliaid allweddol, i baratoi ar gyfer yr Asesiad o'r Cynllun Llesiant. | Parhaus | **21.01.21**<br>Ystyried sefydlu grŵp Gorchwyl a Gorffen i drafod ble fydd y data'n cael ei gadw'n ganolog yn y lle cyntaf. Creu rhestr o ddeiliaid data, ac ystyried sut gallai'r rhain fwydo mewn i'r Asesiad o'r Cynllun Llesiant.<br>**19.03.21** |

Tudalen 40

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Bydd y grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cwrdd ym mis Ebrill a mis Mai i drafod y cynllun ymgysylltu drafft, gyda sesiwn bellach wedi'i threfnu ar gyfer Mehefin i gynnal gweithdy ymgysylltu. |
| 1.3 | Datblygu platfform Writemedia / Engagement HQ fel storfa ar gyfer adroddiadau ymgysylltu. | Parhaus | **21.01.21**<br>Ystyried sefydlu grŵp Gorchwyl a Gorffen i drafod ble fydd y data'n cael ei gadw'n ganolog yn y lle cyntaf.<br>**19.03.21**<br>Bydd casglu data yn canolbwyntio ar arolygon, pleidleisiau, sesiynau grwpiau ffocws – Cytunwyd y byddai Engagement HQ yn gweithredu fel ychwanegiad gwerthfawr os yw'n barod ar gyfer y cyfnod ymgysylltu.<br>Hefyd y posibilrwydd y gellir defnyddio Engagement HQ yn offeryn yn y dull Cyllidebu Cyfranogol yng Nghei Newydd. |
| 1.4 | Parhau i archwilio cysylltiadau â Deall Lleoedd Cymru fel adnodd data cymunedol. | | Ystyried sut mae'r ffynhonnell ddata hon yn berthnasol i'r grŵp data Gorchwyl a Gorffen. |

| **CAM 2:** Datblygu rhaglen o ymgysylltu â chymunedau a chytuno ar bwrpas a neges glir ar gyfer cyfleu'r weledigaeth, ac annog cyfranogiad *(Ymgysylltu a Chyfathrebu)* | | | |
|---|---|---|---|
| | **Gweithgaredd** | **Dyddiad** | **Sylwadau** |
| 2.1 | Profi safle Engagement HQ. | Parhaus | Ystyried sut all y safle gefnogi'r broses o gynnal Asesiad o Lesiant. |
| 2.2 | Datblygu negeseuon a dulliau allweddol ar gyfer ymarfer ymgysylltu'r Cynllun Llesiant. | | Dysgu o waith Cei Newydd – Ystyried sut all y broses casglu data hon gynorthwyo gyda'r gwaith o ffurfio strategaethau.<br><br>Creu cyswllt â gwaith Cyfranogi ac Ymgysylltu Rhaglen Drawsnewid 7 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.3 | Datblygu a chyflenwi rhaglen sgiliau ymgysylltu ar gyfer gweithlu partneriaid BGC, a fydd yn cynnwys technegau cyd-gynhyrchu, gan wneud i bob cyswllt gyfrif. | | Rhaglen Drawsnewid 7 neu Gyllideb Hyfforddiant Cronfa Gofal Canolraddol Ceredigion i gefnogi'r ddarpariaeth. |

| **CAM 3:** Gweithio gyda chymunedau i ddeall eu hasedau – gan gynnwys adeiladau, pobl, sgiliau, gweithgareddau, digwyddiadau a gwasanaethau (*Data ac asedau cymunedol*). | | | |
|---|---|---|---|
| | **Gweithgaredd** | **Dyddiad** | **Sylwadau** |
| 3.1 | Cymell a chydnabod gwaith gwirfoddol | Parhaus | Cyllid LlC wedi'i gymeradwyo a chynllun gwaith manwl i'w gytuno - **28.01.21** |
| 3.2 | Ail-adeiladu cymunedau ar ôl Covid. | Parhaus | Panel Ail-agor Lleoliadau Cymunedol **19.03.21** Sesiwn wybodaeth i'w chynnal ar 28.04.21 i atgoffa lleoliadau cymunedol o reoliadau Profi, Olrhain, Diogelu a pharatoi ar gyfer etholiadau'r Senedd a'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu ddechrau Mai. |
| 3.3 | Hyrwyddo Cysylltu Ceredigion fel safle cyfnewid sgiliau a gwybodaeth cymunedol. | Parhaus | Rhaglen Drawsnewid 7 |
| 3.4 | Hyrwyddo InfoEngine / Dewis fel y cyfeiriadur gwasanaethau cymunedol ar-lein. | Parhaus | Rhaglen Drawsnewid 7 |

| **CAM 4:** Cynorthwyo cymunedau i weithio fel Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus *(Cyd-gynhyrchu)* | | | |
|---|---|---|---|
| | **Gweithgaredd** | **Dyddiad** | **Sylwadau** |
| 4.1 | Gweithio gyda chymunedau a swyddogion allweddol i sefydlu Tasgluoedd, i gyd-gynllunio a darparu atebion i gwrdd â'r anghenion a nodwyd yn ystod y broses Cynlluniau Lle. | | |
| 4.2 | Cefnogi'r rhwydwaith o grwpiau cymorth lleol a sefydlwyd mewn ymateb i'r argyfwng COVID-19 ac annog datblygiad Cynlluniau Cymunedol. | | Manylion i'w penderfynu – **28.01.21**<br>**19.03.21**<br>Cynlluniau Cydnerthedd Cymunedol yn y broses o gael eu datblygu drwy'r Grant Adfer Gwirfoddoli ynghyd â chyfleoedd hyfforddi i'w dynodi ar gyfer gwirfoddolwyr ar gymorth cyntaf, iechyd meddwl a meithrin hyder. |
| 4.3 | Gweithio â phartneriaid i dreialu dulliau cyllidebu cyfranogol i ddosbarthu cyllid allweddol i gymunedau, gan gynnwys cyllid y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a chyllid Hybiau Gweithredu Lleol Rhaglen Drawsnewid 7. | | Rhaglen Drawsnewid 7<br>**19.03.21**<br>Trafodaethau cychwynnol wedi'u cynnal gyda Teresa Walters (Severn Wye) ynghylch defnyddio'r dull cyllidebu cyfranogol ar ôl cwblhau cynlluniau gweithredu ac asesiad o angen yng Nghei Newydd. |

**BGC: PENDERFYNIADAU A RISGIAU**

| **Penderfyniadau Gofynnol neu Risgiau i'w hamlygu i'r BGC** |
|---|
| |

# Adroddiad Grŵp Prosiect BGC

Paratowyd gan: Manon Horscroft   Dyddiad: 29.03.2021

| | |
|---|---|
| **Amcan y Cynllun Llesiant** | **Galluogi pob plentyn i gael y dechrau gorau mewn bywyd.**<br>Cefnogi parodrwydd rhieni drwy ymyrraeth gynnar, goresgyn anghydraddoldeb, a hybu dysgu cyfannol. |
| **Ein Gwerthoedd** | Yr Iaith Gymraeg, Mynd i'r Afael ag Anghydraddoldebau, Cynnwys, Cynaladwyedd, Arwain Trwy Esiampl |
| **Enw'r Grŵp Prosiect** | Cydleoli ac Integreiddio Gwasanaethau Rheng Flaen |
| **Cadeirydd**<br>**Is-gadeirydd** | **Iwan Cray, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru**<br>Peter Skitt, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |

| **Aelodaeth y Grŵp Prosiect** *(Mae enwau mewn **print trwm** yn dynodi presenoldeb yn y cyfarfod)* | | | |
|---|---|---|---|
| Cyngor Sir Ceredigion (CSC) | **Y Cynghorydd Catherine Hughes,** Elen James, Diana Davies, **Rob Starr,** Michael Smith, **Manon Horscroft, Lynne Walters**, Rhian Owen, **Rhian Lewis**, **Meinir Paske**, Meinir Ebbsworth, **Lowri Evans**, **Carwyn Young**. | Heddlu Dyfed-Powys | Yr Arolygydd Andrew Merry |
| GIG | Peter Skitt, Amanda Bainbridge, Lesley Hill, Liz Wilson, Rebecca Thomas, Natalie Vanderlinden, Vicky Wood, Barbara Morgan | Coleg Ceredigion | Helen Griffith |
| Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru | Amy Richmond-Jones, Christine Robertson | Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Ceredigion | **Chesca Ross** |
| Iechyd Cyhoeddus Cymru | Jan Batty | Aelodau ychwanegol | Rhys Penry-Williams |

DRAFT

**CRYNODEB O GYFARFOD Y GRŴP PROSIECT**

| **Pwyntiau Allweddol a drafodwyd yng nghyfarfod y Grŵp Prosiect:** |
|---|
| **Hefyd yn bresennol:** Sian Jones, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda<br>**Ymddiheuriadau:** Peter Skitt, Michael Smith, Amanda Bainbridge, Liz Wilson, Meinir Ebbsworth, Elen James<br><br>Dechreuodd y Cadeirydd Iwan Cray (IC) drwy groesawu'r holl aelodau i'r cyfarfod. Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir a rhoddodd Lynne Walters (LW) y wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y pwyntiau gweithredu a ddosbarthwyd ar ôl y cyfarfod blaenorol. Cadarnhawyd hefyd y darparwyd diweddariad o'r cyfarfod diwethaf yng nghyfarfod diwethaf y BGC ym mis Chwefror.<br><br><u>Model Darparu Gwasanaethau Integredig Cyngor Sir Ceredigion – Canolfannau Lles</u><br>Yn ystod y cyfarfod diwethaf, rhoddodd Carwyn Young (CY) gyfle i aelodau'r is-grŵp gymryd rhan mewn ymgynghoriad partner yn seiliedig ar y syniadau i ddatblygu cyfleusterau integredig yn y Ganolfan Les. Nododd CY y derbyniwyd ymatebion cadarnhaol gan bartneriaid a sefydliadau yng Ngheredigion. Rhannodd CY y datblygiadau a wnaed hyd yma a chyfeiriwyd yn fanwl at drafodaethau a gynhaliwyd gyda'r tîm gwasanaethau eiddo. Datblygwyd dyluniadau gyda'r bwriad o ddarparu ar gyfer y cyfleoedd a nodwyd gan bobl. Rhannodd CY y cynlluniau llawr newydd ar gyfer y Ganolfan Les gyda'r aelodau, gan ddarparu delweddau o'r cynllun newydd a'r strwythur a awgrymir ar gyfer y Ganolfan. Mae hyn yn seiliedig ar fodel hyblyg a fydd yn galluogi ardaloedd i gael eu haddasu ymhellach i ddiwallu anghenion defnyddwyr. Y cam nesaf i'r Ganolfan Les yw mynd allan i Dendr ar gyfer penodi Penseiri. Fe'u comisiynir i ddatblygu cynlluniau manwl a gobeithir hefyd y bydd y Penseiri yn darparu argraffiadau arlunydd i bobl ddychmygu sut olwg fydd ar yr adeilad a'r ardal o'i gwmpas.<br><br>I orffen, soniodd CY am bwysigrwydd y Ganolfan yn integreiddio â'r ardal leol a soniwyd am y gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd ar ganolfan fusnes Barcud yn Llanbedr Pont Steffan. Cytunwyd y byddai rhagor o wybodaeth am y gwaith hwn yn fuddiol. Soniodd y Cynghorydd Cathryn Hughes hefyd ei bod yn bwysig cofio bod yr Hwb yn Llanbedr Pont Steffan ond efallai y bydd is-ganolfannau ar gyfer darparu gwasanaethau ychwanegol a allai estyn allan i'r ardal gyfagos.<br><br>Llongyfarchodd Rob Starr (RS) CY ar y gwaith sy'n cael ei wneud ar y Ganolfan Les. Roedd RS yn meddwl tybed a fydd y Ganolfan Les yn darparu cyfleoedd i bobl ddiwallu anghenion sy'n newid. Gofynnodd a oes digon o gapasiti yn yr adeilad i ymdrin â'r anghenion newidiol hyn. Esboniodd CY y bydd y Ganolfan yn darparu gofod craidd hyblyg, a gyda thechnoleg yn chwarae rhan flaenllaw yn ei ddyluniad y gobaith yw y bydd y Ganolfan yn gallu ymateb i anghenion sy'n newid. |

DRAFT

Diolchodd y Cadeirydd i CY am ymgysylltu â Phartneriaid ehangach dros yr wythnosau diwethaf a diolchodd i'r Partneriaid sydd wedi bwydo i mewn i'r broses o ddylunio'r Ganolfan Les.
**CAM GWEITHREDU: Carwyn Young i roi diweddariad pellach ar y Canolfannau Lles yn y cyfarfod nesaf.**
**CAM GWEITHREDU: Lynne Walters i rannu rhagor o wybodaeth am ganolfan newydd Barcud gyda'r aelodau.**

<u>Y Gronfa Cydnerthedd Gwirfoddoli – Canolfannau yn y gymuned</u>
Rhoddodd Chesca Ross (CR) ddiweddariad ar y gwaith hwn i'r aelodau. Mae CAVO bellach wedi cwblhau briff sydd wedi mynd allan i Dendr er mwyn i arbenigwr ymgymryd â gwaith ymchwil ynghylch yr hyn sy'n bodoli mewn mannau eraill. Mae CAVO wedi ymgysylltu ag ymgynghorydd annibynnol, Tammy Folley, o ogledd Sir Benfro. Mae gwaith wedi dechrau a bydd Tammy yn cyfarfod â grŵp llywio'r gronfa yn y dyfodol agos. Mae'r briff ar gyfer y gwaith hwn wedi'i adael yn eithaf eang yn yr ystyr y bydd yn edrych ar fformatau canolfannau eraill sydd mewn ardaloedd eraill e.e. De Cymru, Gogledd Cymru ac wrth gwrs rhanbarthau eraill y DU. Bydd Tammy Folley yn rhoi adborth rheolaidd i CR a bydd y wybodaeth hon yn cael ei rhannu gydag aelodau'r grŵp hwn.
**CAM GWEITHREDU: Chesca Ross i rannu'r gwaith gan Tammy Folley gyda'r aelodau.**

<u>Porth Cymorth Cynnar – diweddariad gan y gwasanaeth a thrafodaeth ar flaenoriaethau allweddol y System Integredig ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar - Prosiect Braenaru</u>
Cyflwynodd Rhian Lewis (RL) y wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am brosiect Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar. Trafodwyd yr EIF yn y cyfarfod diwethaf, ac yn dilyn arolwg mae cam nesaf y prosiect bellach wedi'i ddatblygu, a dosbarthwyd yr EIF yn flaenorol ar gyfer sylwadau. Mae'r fframwaith hwn bellach wedi'i adolygu gan uwch staff o fewn y Bwrdd Iechyd a'r Awdurdod Lleol. Roedd RL yn falch o hysbysu'r aelodau y cyflwynwyd y copi terfynol ar 12 Chwefror. Rhannodd RL dabl gyda'r aelodau yn nodi sut mae'r tîm wedi gallu adolygu eu perfformiad wrth ddarparu gwasanaethau. Mae hwn yn offeryn monitro effeithiol ac mae'r tabl wedi'i gynnwys yng nghyflwyniad yr EIF. Ar ôl ei gyflwyno, cododd y swyddog adolygu ymholiadau ac mae'r rhain bellach wedi'u hegluro ac mae'r grŵp yn aros am adborth pellach ar hyn o bryd. Cadarnhaodd RL fod y Strategaeth Mamolaeth a Blynyddoedd Cynnar Ranbarthol wedi'i chyd-gynhyrchu ag aelodau o'r grwpiau llywio a bod RL bellach yn cydweithio'n rhanbarthol â Sir Gâr er mwyn cwblhau'r drafft cyntaf erbyn diwedd mis Gorffennaf 2021.

O ran y Rhaglen Beilot Braenaru, mae'r adroddiad diwedd blwyddyn bellach yn cael ei ddatblygu i baratoi ar gyfer ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd mis Ebrill 2021. Mae pob un o bedair ardal y rhaglen Fraenaru wedi gweithio'n gadarnhaol gyda'i gilydd ac mae adborth cadarnhaol wedi'i goladu'n uniongyrchol gan deuluoedd, ac mae RL a'r tîm yn gobeithio cysylltu'r gwaith hwn â CAVO a PACE a byddant yn cael eu gwahodd i'r cyfarfod nesaf. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cefnogi gwaith parhaus y Rhaglen Beilot Braenaru.

DRAFT

Comisiynwyd gwerthusiad allanol gan y cwmni ymgynghori, Wavehill a byddant yn cynnal yr ymgynghoriad a'r gwerthusiad gyda theuluoedd. Dosbarthwyd yr adroddiad drafft gan Wavehill i'r tîm ar gyfer sylwadau ac adborth a bydd enghreifftiau o'r adborth yn cael eu rhannu gydag aelodau'r grŵp.
**CAM GWEITHREDU: Lynne Walters i ddosbarthu cyflwyniad i aelodau'r Grŵp Prosiect.**
**CAM GWEITHREDU: Rhian Lewis a Lowri Evans i baratoi crynodeb byr o'r adroddiad allanol gan Wavehill ar gyfer aelodau'r Grŵp Prosiect.**

Canolfannau Busnes a Chymunedol

Rhoddodd LW ddiweddariad byr ar ran Michael Smith. O ran y Canolfannau Busnes a Chymunedol, mae briff gwylio yn cael ei gadw ar ddatblygiadau newydd o ran gweithio o bell gan Lywodraeth Cymru. Roedd ymgynghoriad a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru gyda dyddiad cau o 26 Mawrth wedi'i ddosbarthu i'r aelodau yn flaenorol cyn y cyfarfod. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn, safbwyntiau a syniadau yn ymwneud â chydweithio a gweithio o bell ac mae'n cael ei goladu gyda'r bwriad o lywio sut y gellid datblygu modelau posibl yn y dyfodol. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn i gyfranogwyr gofnodi unrhyw ddiddordeb mewn ardaloedd daearyddol penodol ac mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ystyried dull graddol o ymdrin ag ardaloedd peilot ledled Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud ei chyhoeddiad cychwynnol i ystyried Ardaloedd Peilot ledled Cymru a'r bwriad yw dilyn y cyhoeddiad hwn gydag ardaloedd peilot pellach yn seiliedig ar ganlyniadau'r ymgynghoriad. Mae'r ardaloedd posibl hyn i'w gweld ar fap ar eu gwefan. Mae'r broses gyfredol bellach wedi dod i ben, ond rhaid edrych ar hyn fel man cychwyn oherwydd bydd y gwaith cychwynnol hwn o gasglu gwybodaeth yn cael ei ddatblygu ymhellach yn y dyfodol. Nododd LW hefyd, yn ogystal â'r Grŵp Prosiect hwn, y byddai cydweithwyr sy'n ymwneud â'r Grŵp Prosiect Menter ac Arloesi hefyd yn ymgysylltu â'r gwaith hwn.

Pwysleisiodd y Cadeirydd bwysigrwydd y gwaith hwn a chyfeiriodd at gyfleoedd posibl yng Ngheredigion y gobeithir y bydd partneriaid yn gallu ymateb iddynt pan fydd Llywodraeth Cymru yn gwneud cyhoeddiadau pellach yn y dyfodol. Bydd hwn yn faes hanfodol yn yr adferiad wedi COVID.

**CAM GWEITHREDU: Pob aelod i ailedrych ar y ddolen isod a ddosbarthwyd cyn y cyfarfod.**
https://gov.wales/remote-working-locations-confirmed-across-wales

Asesiad Llesiant Lleol

Rhoddodd Rob Starr (RS) fanylion i'r aelodau am gamau allweddol nesaf a dyddiadau Asesiad y Cynllun Lles. Bydd y gwaith ymgysylltu ar yr Asesiad Llesiant Lleol yn cael ei gynnal rhwng canol mis Mai a mis Gorffennaf, ac yn ystod yr Haf bydd RS a'r tîm mewn sefyllfa i lunio drafft cyntaf yr asesiad. Yna bydd y drafft cyntaf yn cael ei anfon i'w gymeradwyo ac ymgynghori arno yng

| |
|---|
| nghyfarfod y BGC yn yr Hydref, ac yn dilyn hyn mae'r tîm yn gobeithio bod mewn sefyllfa i greu ail ddrafft i'w gymeradwyo erbyn Gwanwyn 2022.<br>Gan fod yr Asesiad Llesiant Lleol yn ddull partneriaeth, amlinellodd RS eu bod yn bwriadu cynnal trafodaethau Grwpiau Ffocws ym mhob Grŵp Prosiect er mwyn casglu barn pob sefydliad a darparu cyfleoedd penodol i bartneriaid rannu data a fydd yn llywio'r cynllun yn uniongyrchol. Pwysleisiodd RS yn ei adborth mai'r pwyslais presennol yw sicrhau mai'r broses ymgysylltu yw'r sail a bod hyn i'w adlewyrchu'n glir o fewn y Fethodoleg. Mae RS eisoes wedi mynd â rhan gyntaf y cynllun i gyfarfod y BGC ym mis Chwefror a chymeradwyodd yr aelodau'r dull arfaethedig. Mae trafodaethau yn mynd rhagddynt gyda rhanbarthau eraill megis Sir Gâr, Sir Benfro a Phowys ac mae'r Fethodoleg ar y cyd yn cael ei datblygu ar hyn o bryd. Cadarnhaodd RS mai'r bwriad yw mynd â hyn i gyfarfod y BGC ar 26 Ebrill.<br>**CAM GWEITHREDU: Asesiad o'r Cynllun Lles i aros ar yr agenda ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.**<br><br>Trafodaeth ar Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd<br>Agorodd y Cadeirydd y drafodaeth i aelodau'r Grŵp Prosiect ddechrau ystyried enwebu enwau newydd ar gyfer Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Grŵp Prosiect hwn.<br>**CAM GWEITHREDU: Aelodau i ystyried enwau ac enwebiadau ar gyfer Cadeirydd ac Is-gadeirydd newydd.**<br>**CAM GWEITHREDU: Trafodaeth ar Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd i ailgychwyn yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Prosiect.** |
| **Cyfarfodydd nesaf:**<br>7 Mehefin, 2021<br>26 Gorffennaf, 2021<br>1 Tachwedd, 2021 |



**CAMAU GWEITHREDU YN Y CYNLLUN LLESIANT LLEOL O DAN YR AMCAN HWN**

| Cam Gweithredu Byrdymor | Cam Gweithredu Tymor Canolig | Cam Gweithredu Hirdymor |
|---|---|---|
| Ymgymryd ag ymarfer cwmpasu er mwyn ymchwilio i fanteision cydleoli ac integreiddio gwasanaethau rheng flaen gan ganolbwyntio yn y lle cyntaf ar y blynyddoedd cynnar a gweithio tuag at fodel sy'n cynnig arfer dda ar draws y sir. | Gweithredu model gwasanaethau integredig gydol oed yng Ngheredigion, a ddarperir trwy bartneriaid y BGC yn y lle cyntaf ac a gaiff ei rannu fel y bo'n briodol gyda phartneriaid cyflenwi ychwanegol ledled y sir. | Sicrhau bod gan wasanaethau cyffredinol ddigon o adnoddau a'u bod yn cael eu defnyddio gan bawb. |



DRAFT

**CYNLLUN GWEITHREDU: EBRILL 2020 – MAWRTH 2021**

| **ALLWEDD** | |
|---|---|
| GWYRDD | Ar waith ac ar y trywydd iawn |
| AMBR | Ar waith ond ceir rhai pryderon ac mae angen monitro'n agos |
| COCH | Ar waith ond ceir pryderon mawr ac mae angen cymryd camau unioni |
| GLAS | Wedi'i atal am y tro |
| DU | Wedi dod i ben |

| **CAM 1: Canolbwyntio ar raglenni, strategaethau a pholisïau sydd wedi'u hanelu at gyd-gynhyrchu system integredig ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar** | | | |
|---|---|---|---|
| | **Gweithgaredd** | **Erbyn pryd** | **Sylwadau** |
| 1.1 | Adolygu'r diweddariadau rheolaidd o ran y Rhaglen Beilot Braenaru ac ystyried y ddarpariaeth leol. | Yn parhau | Daw'r wybodaeth ddiweddaraf i law ym mhob cyfarfod ac yn dilyn trafodaethau am y trefniadau ariannu a'r ddarpariaeth bresennol, caiff blaenoriaethau allweddol eu nodi cyn y cyfarfod ym mis Mawrth. Mae'r cynnig ar gyfer y cam nesaf wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo. |
| 1.2 | Annog mewnbwn uniongyrchol gan bartneriaid wrth ddatblygu Strategaeth Ranbarthol y Blynyddoedd Cynnar. | Ionawr 2021 | Gofynnwyd am adborth gan y partneriaid ar ôl y cyfarfod. Mae'r cwmni ymgynghori Wavehill wedi'i gomisiynu i ymgymryd ag adborth gan deuluoedd a bydd hwn yn cael ei rannu ar ffurf crynodeb gyda'r grŵp prosiect. |
| 1.3 | Cyfrannu'n uniongyrchol at ddatblygu systemau gwaith integredig sydd wedi'u lleoli ar lefel leol yn ein cymunedau. | Mawrth 2021 | Megis dechrau y mae'r gwaith hwn ond mae'r partneriaid wedi cadarnhau eu hymrwymiad i ystyried ffyrdd newydd o weithio ar y cyd a chytunwyd i ystyried lleoliadau ar draws y Sir wrth inni sicrhau mwy o eglurder oddi wrth Lywodraeth Cymru. Mae ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn ystyried ardaloedd ledled Cymru ar hyn o bryd ac mae dull graddol o ymdrin ag ardaloedd peilot wedi dechrau. Mae ystyried modelau posibl yng Ngheredigion i'w groesawu. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1.4 | | | |

| CAM 2: Cefnogi sefydlu'r Canolfannau Llesiant mewn modd integredig | | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithgaredd** | | **Erbyn pryd** | **Sylwadau** |
| 2.1 | Derbyn diweddariadau yn rheolaidd gan bartneriaid a darparu mewnbwn y partneriaid wrth ddatblygu'r canolfannau llesiant. | Yn parhau | Bydd gwaith ymgysylltu hanfodol â'r partneriaid yn dechrau pan ystyrir bod yr amser yn briodol a disgwylir y bydd y ganolfan gyntaf wedi'i chwblhau erbyn mis Mehefin 2022. |
| 2.2 | Ymgynghori ar y camau allweddol sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau uniongyrchol o fewn y canolfannau llesiant (gan ddechrau gyda gwasanaethau'r Awdurdod Lleol) | Ionawr 2021 | Cynhaliwyd ymgynghoriad mewnol manwl yn canolbwyntio ar y Model Gydol Oed ac mae trafodaethau bellach yn mynd rhagddynt i gomisiynu Penseiri. Mae cynlluniau llawr cychwynnol wedi'u cwblhau a bydd Tendr yn cael ei ryddhau ar gyfer comisiynu Penseiri. |
| 2.3 | Ystyried unrhyw ofynion ymchwil sy'n ymwneud yn uniongyrchol â darparu gwasanaethau yn y dyfodol. Canolbwyntio ar les preswylwyr a chefnogi anghenion economaidd a chymdeithasol ledled y sir. | Mawrth 2021 | Mae'r gwaith hwn yn gysylltiedig â gwaith ymgynghori a gomisiynwyd o dan Gronfa Cydnerthedd Gwirfoddoli CAVO a disgwylir adroddiad yn manylu ar wahanol fodelau. |
| 2.4 | Gwella'r canolfannau llesiant trwy nodi Is-ganolfannau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r hyn a ddarperir gan ein partneriaid. | Mawrth 2021 | Mae'r Ganolfan Les newydd yn cael ei dylunio gyda hyblygrwydd mewn golwg er mwyn gallu ymateb i ofynion gwasanaethau. Rhoddir pwyslais hefyd ar nodi is-ganolfannau a fydd yn cysylltu'r Ganolfan ag ardaloedd a chyfleusterau eraill yn yr ardal gyfagos. |
| 2.5 | | | |

| CAM 3 : Ystyried ac ymchwilio i fodelau hybrid posibl ar gyfer darparu gwasanaethau i gymunedau. |
|---|

| Gweithgaredd | | Erbyn pryd | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| 3.1 | Cynnal asesiad o'r cyfeiriad strategol a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â sefydlu canolfannau cymunedol. Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o ran uchelgais Llywodraeth Cymru sy'n dymuno *"…gweld oddeutu 30% o weithwyr Cymru yn gweithio o gartref neu yn agos at eu cartrefi yn y tymor hir. Dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod am roi "mwy o hyblygrwydd i weithwyr weithio o bell" a honnodd y gallai hyn "ysgogi adfywiad a gweithgaredd economaidd mewn cymunedau".* | Mawrth'21 | Mae'r gwaith hwn sy'n seiliedig ar gynnig gan Lywodraeth Cymru yn parhau ond mae'n dibynnu ar dderbyn canllawiau pellach. Gall y gwaith paratoi ddechrau a'r bwriad yw cyfrannu at y trafodaethau wrth iddynt fynd rhagddynt. |
| 3.2 | Cynnal gwaith cwmpasu cychwynnol a datblygu trafodaethau gyda phartneriaid yn seiliedig ar y model hybrid sy'n cynnwys y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. | Mawrth '21 | Cwblhawyd yr ymchwil cychwynnol sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru ar 26 Mawrth. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi eu hardaloedd peilot ar gyfer cam 1 ond disgwylir cyhoeddiadau pellach yn seiliedig ar ddata'r ymchwil. |
| 3.3 | Ymgymryd â'r gwaith o fapio asedau partneriaid er mwyn cefnogi hybiau gwaith yn y gymuned gan gysylltu cyfraniadau cadarnhaol cydleoliadau o ran y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol. | Mawrth'21 | Mae'r gwaith hwn yn gysylltiedig ag ymchwil sy'n cael ei wneud drwy'r Gronfa Cydnerthedd Gwirfoddoli a disgwylir adroddiad. |
| 3.4 | | | |

| Penderfyniadau sydd angen eu gwneud neu risgiau y mae angen tynnu sylw'r BGC atynt. |
| --- |
| |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| **Nod y Cynllun Llesiant** | **Galluogi cymunedau i ffynnu, i fod yn gynaliadwy ac yn gysylltiedig drwy gefnogi'r broses o drawsnewid rhagolygon economaidd.** Gwella'r seilwaith ffisegol a digidol i gefnogi datblygiad economaidd, gan gynnwys cartrefi addas a fforddiadwy. |  |
| **Enw Grŵp y prosiect** | Menter ac Arloesedd – 07.04.21 | |

**CAMAU GWEITHREDU A GEIR YN Y CYNLLUN LLES LLEOL DAN Y NOD HON**

| **Cam Gweithredu Tymor Byr** | **Cam Gweithredu Tymor Canolig** | **Cam Gweithredu Hirdymor** |
|---|---|---|
| Hyrwyddo arloesedd, entrepreneuriaeth a datblygiad gyrfa drwy sefydlu cyfleoedd o fewn sefydliadau'r BGC ar gyfer secondiadau, hyfforddiant a gwaith. Byddwn hefyd yn datblygu fframwaith i gynorthwyo unigolion a chymunedau i ddeall tueddiadau'r dyfodol, goresgyn rhwystrau a manteisio ar gyfleoedd ar gyfer mentrau a chynlluniau. | Defnyddio tir ac adeiladau segur sefydliadau'r BGC, ochr yn ochr â gweithdrefnau caffael, i gyflawni mwy o fudd cymunedol cynaliadwy. | Sicrhau bod seilwaith (trafnidiaeth, tai, y byd digidol a mannau gwaith) yn cyd-fynd â datblygu cymunedol sy'n seiliedig ar asedau yng Ngheredigion. |

Mae'r Grŵp Prosiect hwn wedi cynnig y blaenoriaethau drafft gwelir isod a chytunwyd bod angen mynd i'r afael â'r materion canlynol : -

- Blaenoriaethu'r grwpiau tasg - dewis 1 neu 2 i ganolbwyntio arnynt yn y lle cyntaf.

- Aelodaeth a chyfranogiad gweithredol yn y grwpiau tasg gyda chyfraniad uniongyrchol o'r sector gyhoeddus, preifat a'r 3ydd sector.

1. Grŵp Tasg Dadansoddi Data - Beth mae'r data yn ei olygu i menter ac arloesi?
2. Blaenoriaethu grŵp tasg arallgyfeirio a chyd-leoli - A ddylai hyn fod yn sail i'r model datblygu busnes sydd ei angen?
3. Ymyriadau - Ydyn ni'n deall hyd a lled ac effeithiau posib yr ystod o ymyriadau presennol?
4. Ffocws y sector - A allwn ystyried gofynion sectorau allweddol?
5. Canolbwyntio ar le - Sut ydyn ni'n llunio dyfodol canol trefi; beth sy'n bwysig i'w bywiogrwydd yn y dyfodol?

Yn yr amgylchedd gweithredu presennol ac yn unol â'r trafodaethau a gynhaliwyd yng nghyfarfod diwethaf y Grŵp Prosiect, cynhaliwyd ymarfer ymgynghori byr gyda rhestr aelodaeth lawn y Grŵp Prosiect hwn. Derbyniwyd pedwar ymateb gan aelodau ac yn anffodus ni chafwyd unrhyw gynigion penodol i arwain y grwpiau tasg hyn. Er y cafwyd y gefnogaeth fwyaf ar hyn o bryd ar gyfer Blaenoriaeth 3 (Ymyrraeth Menter) a Blaenoriaeth 5 (Ffocws Lle) bydd y Grŵp Prosiect nawr yn trafod y sefyllfa hon yn eu cyfarfod nesaf ynghyd ag ystyried dulliau gwahanol ar gyfer yr weithgaredd.

# Adroddiad Grŵp Prosiect y BGC (PSB)

| Paratowyd gan: Manon Horscroft | Dyddiad: 23.03.21 |
|---|---|

| | |
|---|---|
| **Amcan y Cynllun Llesiant** | **Galluogi pobl i greu cyfleoedd, a manteisio arnynt, ac ymateb i heriau drwy gydol eu hoes.** Gwella sgiliau galwedigaethol a sgiliau bywyd, meithrin hyder a galluogi pobl i ymateb yn gadarnhaol i newid. |
| **Ein Gwerthoedd** | Yr Iaith Gymraeg, Mynd i'r Afael ag Anghydraddoldebau, Cynnwys, Cynaliadwyedd, Arwain Trwy Esiampl |
| **Enw'r Grŵp Prosiect** | Hyfforddiant Cydnerthedd |
| **Cadeirydd**<br>**Is-Gadeirydd** | **Matt Morden**, Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion |

**Aelodaeth y Grŵp Prosiect** *(Mae enwau mewn **print trwm** yn dynodi presenoldeb yn y cyfarfod)*

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyngor Sir Ceredigion | **Y Cyng. Catrin Miles**, Naomi McDonagh, **Michael Smith**, **Sara Dafydd**, **Manon Horscroft**, Diana Davies, Caroline Lewis, **Victoria Foale**, **Rob Starr**, Elen James / **Mark Gleeson** | Adran Gwaith a Phensiynau | Mark Davies |
| | | Coleg Ceredigion | **Katy Barron** |
| Heddlu Dyfed-Powys | Yr Arolygydd Andrew Merry | Llywodraeth Cymru | **Diana Reynolds** |
| Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru | Chris Rees | Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | Gwilym Dyfri Jones |
| Prifysgol Aberystwyth | **Dr Antonia Ivaldi** | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Jan Batty |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | Suzanne Tarrant, Anna Bird | Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO) | **Chesca Ross** |

DRAFT

## CRYNODEB O GYFARFOD Y GRWP PROSIECT

**Materion Allweddol a drafodwyd yng nghyfarfod y Grŵp Prosiect:**

***Ymddiheuriadau***: *Anna Bird, Suzanne Tarrant, Chris Rees, Gwilym Dyfri Jones, Elen James*

Adborth o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC)

Cytunodd aelodau'r BGC y byddai Cadeiryddion y Grwpiau Prosiect (GP) yn mynychu pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu Cyngor Sir Ceredigion o hyn allan, naill ai fel unigolion neu mewn parau, i adrodd ar gynnydd y GP. Yn unol â Chynlluniau Gweithredu diwygiedig y GP, cynigiwyd yng nghyfarfod y BGC ym mis Rhagfyr y dylid adolygu aelodaeth pob GP, er mwyn sicrhau cynrychiolaeth briodol. Awgrymodd Diana Reynolds (DR) y dylid cysylltu â'r cynrychiolwyr, er mwyn sicrhau eu bod yn mynychu'r cyfarfodydd ac er mwyn datrys unrhyw rwystrau sy'n atal unigolion rhag mynychu cyfarfodydd.

**CAM GWEITHREDU: Matt Morden (MM) a Sara Dafydd (SD) i gysylltu â sefydliadau i drafod unrhyw rwystrau a allai fod yn atal pobl rhag mynychu cyfarfodydd y GP.**

Cynllun Gweithredu ac Aelodaeth y Grŵp Prosiect

Rhoddodd SD drosolwg o Gynllun Gweithredu'r GP. Codwyd pryderon nad oedd capasiti presennol sefydliadau yn caniatáu i aelodau'r GP lenwi'r Gofrestr Hyfforddiant Cydnerthedd ag enghreifftiau cyfredol o hyfforddiant na chwaith yn caniatáu iddynt ddiweddaru'r gofrestr yn ôl yr angen. Adroddodd SD fod y rhwystr hwn yn effeithio ar feysydd eraill yn y Cynllun Gweithredu, ac yn benodol ar y gallu i glustnodi lle mae'r bylchau yn yr anghenion, yn seiliedig ar ganfyddiadau'r daenlen adnoddau. Y nod yw datblygu hyfforddiant ar y cyd i sefydliadau'r BGC, gan seilio'r hyfforddiant ar yr anghenion a glustnodwyd. Awgrymodd MM y dylid mynd â'r camau hyn yn ôl i'r BGC ehangach ar 26 Ebrill ac y dylid ystyried a yw'r awydd i rannu hyfforddiant yn parhau, yn enwedig o gofio'r hinsawdd bresennol.

**CAM GWEITHREDU: MM i ymgynghori ag aelodau'r BGC yn y cyfarfod nesaf i weld a yw'r camau a amlinellir yn y Cynllun Gweithredu yn dal yn berthnasol.**

Rhoddodd Antonia Ivaldi (AI) ddiweddariad byr ar brosiect 'Mannau Adferol' y GIG, fel y'i hamlinellwyd dan Gam 2.3 yn y Cynllun Gweithredu. Mae'r prosiect yn mynd rhagddo ond mae recriwtio wedi bod yn heriol yn yr amgylchiadau presennol. Y gobaith yw y gellir ailddechrau hyrwyddo'r broses recriwtio cyn bo hir iawn.

**CAM GWEITHREDU: DR ac AI i gynnal trafodaeth bellach y tu allan i'r cyfarfod ar brosiect 'Mannau Adferol' y GIG.**

Y Diweddaraf am Ymchwil y Grwpiau Ffocws

Cyflwynodd AI yr wybodaeth ddiweddaraf am Ymchwil y Grwpiau Ffocws. Hyd yma, mae Cyngor Sir Ceredigion, Cyfoeth Naturiol Cymru a Phrifysgol Aberystwyth wedi cyfrannu at yr ymchwil a chynhaliwyd pedair sesiwn gan y Grŵp Ffocws. Gan fod 14 o bobl

DRAFT

ym Mhrifysgol Aberystwyth wedi nodi bod ganddynt diddordeb i gyfrannu at yr ymchwil, cynhaliwyd 2 Grŵp Ffocws. Cysylltwyd â chynrychiolydd o Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, gyda'r nod o dynnu sylw at y cyfle i gyfrannu at sesiwn a gynhelir gan Grŵp Ffocws ar ôl y Pasg. Heb gynnal dadansoddiad ffurfiol, nododd AI ei bod yn rhy gynnar nodi beth yw'r canfyddiadau cychwynnol ond gallai amlinellu rhai sgyrsiau a oedd yn gyffredin i drafodaethau'r Grwpiau Ffocws, fel y nodir isod.

- Ailsefydlu a meithrin ymdeimlad o gymuned yn y lle gwaith.
- Diffyg eglurder a chysondeb wrth i rolau newid a hynny'n achosi rhywfaint o bryder ac amwysedd.
- Mae'n angenrheidiol a hefyd yn bwysig bod pobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cydnabod fel unigolion, yn hytrach nag yn ddim ond adnodd.
- Yr awydd i gyfarfod â sefydliadau eraill a'u staff, er mwyn rhannu arfer dda a hwyluso rhwydweithio traws sector.

Mewn cyfarfodydd blaenorol o'r GP, cytunwyd i edrych o'r newydd wedi'r Pasg ar y gobaith o gynnal sesiwn Grŵp Ffocws gyda'r sector addysg, a hynny'n dibynnu ar y pwysau ar staff. Er y rhagwelir y bydd y tymor nesaf yn gyfnod prysur ac i Gynorthwywyr Addysgu fynegi pryder mewn cyfarfodydd Undeb blaenorol ynghylch capasiti yn ystod y tymor hwn, cytunai'r Cynghorydd Catrin Miles (CM) a Mark Gleeson (MG) y byddai'n fuddiol cysylltu ag Elen James a Meinir Ebbsworth i holi a fyddai modd cyflawni hyn.

**CAM GWEITHREDU: AI i roi diweddariad pellach ar Ymchwil y Grwpiau Ffocws yn y cyfarfod nesaf.**

**CAM GWEITHREDU: SD i drafod gyda Meinir Ebbsworth ac Elen James ynghylch cynnal sesiwn Grwpiau Ffocws gyda'r sector addysg.**

**CAM GWEITHREDU: MM i wneud ymholiadau a fyddai Coleg Ceredigion mewn sefyllfa i gyfrannu.**

Nododd DR fod Archwilio Cymru wedi trawsnewid eu gweithdrefnau archwilio perfformiad yn sgil COVID-19. Mae DR ac Archwilio Cymru yn gweithio gyda'i gilydd, drwy gyfrwng rhwydweithiau cyfoed, setiau dysgu gweithredol a chylchoedd coetsio er mwyn rhannu gwell dealltwriaeth o beth yw dysgu ac arfer dda.

**CAM GWEITHREDU: DR, MM a SD i gyfarfod y tu allan i'r cyfarfod i gynnal trafodaeth bellach ar gyfleoedd Archwilio Cymru.**

**CAM GWEITHREDU: DR ac AI to gysylltu â'i gilydd y tu allan i'r cyfarfod ynglŷn ag Archwilio Cymru ac Ymchwil y Grwpiau Ffocws.**

Canolfan Cydnerthedd a Harmoni Cymru – y Datblygiadau Diweddaraf

Ar ran Gwilym Dyfri Jones, rhoddodd MM yr wybodaeth ddiweddaraf am Ganolfan Cydnerthedd a Harmoni Cymru. Mae'r cynnig yn cylchdroi o gwmpas y syniad o greu academi bwyd a mentrau gwledig o'r enw Canolfan Tir Glas ar Gampws y Brifysgol yn Llanbedr Pont Steffan. Bydd yn hyrwyddo'r diwydiant bwyd lleol, cynaliadwyedd lleol, cydnerthedd a menter o fewn cyd-destun gwledig, gyda phwyslais ar gryfhau isadeiledd economaidd Llanbedr Pont Steffan. Bydd pwyslais hefyd ar weithio mewn partneriaeth gyda grwpiau cymunedol megis Hybiau Cydnerthedd Llanbedr Pont Steffan ac Aldi - yr adwerthwr bwyd am brisiau gostyngol, er mwyn datblygu'r cysyniad o bentref bwyd, a chyda Coleg Ceredigion er mwyn sicrhau'r hyfforddiant priodol i

fyfyrwyr sy'n ystyried gyrfa mewn bwyd a lletygarwch. Bydd Canolfan Tir Glas hefyd yn gweithio'n agos gyda Phartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru.
**CAM GWEITHREDU: MM i rannu llyfryn gwybodaeth pan fydd wedi ei orffen ac wedi ei gyhoeddi.**
**CAM GWEITHREDU: SD i ailddosbarthu sleidiau PwerBwynt a gyflwynwyd ym mis Mawrth 2020 ac sy'n sôn am Ganolfan Gydnerthedd a Harmoni Cymru a Hwb Cydnerthedd Llanbedr Pont Steffan.**

<u>Asesiad o'r Cynllun Llesiant – Llinell Amser a Diweddariad</u>
Rhoddodd Michael Smith (MS) a RS drosolwg o'r Asesiad o Lesiant Lleol a fydd yn cyfrannu at y Cynllun Llesiant Lleol. Clustnodwyd y cyfnod rhwng canol mis Mai a chanol mis Gorffennaf ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu, gydag ymgynghori'n digwydd yn ystod Hydref/Gaeaf 2021. Adroddodd MS fod fframwaith methodoleg wrthi'n cael ei sefydlu ar y cyd gyda phartneriaid rhanbarthol. Bydd fersiwn ddrafft yr Asesiad o Lesiant Lleol yn cael ei datblygu yn ystod yr haf, gan geisio cymeradwyaeth y BGC cyn y cyfnod ymgynghori. Bydd cymeradwyaeth derfynol y BGC a llofnod terfynol yr ail ddrafft yn cael eu sicrhau yn ystod Gwanwyn 2022.

Cyflwynwyd cais am Gydlynydd Rhanbarthol –Os bydd y cais yn llwyddiannus, bydd deiliad newydd y swydd yn dechrau ar ei waith ym mis Mehefin neu ym mis Gorffennaf. Mae MS a RS yn bwriadu defnyddio arbenigedd rhanddeiliaid ar draws pob un o Grwpiau Prosiect y BGC er mwyn casglu gwybodaeth a data sy'n ymwneud â phob un o'r amcanion llesiant. Cynigiodd MS a RS fod amser yn cael ei neilltuo yn ystod cyfarfod nesaf y Grwpiau Prosiect, yn ystod y cyfnod ymgysylltu, i gynnal sesiwn grwpiau ffocws a defnyddio gwybodaeth aelodau i nodi data a rhoi cyfleoedd i hyrwyddo arolygon a phleidleisiau. Nododd RS pa mor bwysig oedd y sesiynau hyn, gan fod angen data lleol cyd-destunol i ategu'r wybodaeth genedlaethol eang sydd ar gael.
**CAM GWEITHREDU: Sesiwn Grŵp Ffocws Asesu Llesiant i'w chynnal yng nghyfarfod nesaf y Grwpiau Prosiect.**

<u>Grantiau i Wirfoddolwyr yn ystod y cyfnod adfer</u>
Dywedodd Chesca Ross (CR) fod Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO) wedi derbyn arian gan Lywodraeth Cymru yn ddiweddar. Nod yr arian hwn yw cefnogi gweithgareddau gwirfoddoli yn ystod y cyfnod adfer. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae CAVO yn edrych am gyfleoedd i gynnig hyfforddiant cymunedol sy'n seiliedig ar asedau, gyda'r nod o gynnal cyfres o weithdai gyda phartneriaid yn y flwyddyn ariannol newydd. Mae adborth oddi wrth gymunedau wedi amlygu bod angen yn y meysydd canlynol:

- Hyfforddiant Cymorth Cyntaf Sylfaenol
- Ymwybyddiaeth o Iechyd Meddwl
- Ymwybyddiaeth o'r modd i Adeiladu Hyder



DRAFT

| |
|---|
| Anogir aelodau'r Grwpiau Prosiect i gysylltu â CAVO os bydd grwpiau neu sefydliadau yn dymuno gwneud cais i fod yn rhan o bortffolio o ddarparwyr a all gyflwyno sesiynau i wirfoddolwyr mewn cymunedau ledled Ceredigion.<br>**CAM GWEITHREDU: SD i rannu gwybodaeth bellach gydag aelodau ynghylch Portffolio'r Darparwyr** |
| **Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf:** 8fed o Fehefin 2021, 14:00-16:00yh |

**CAMAU GWEITHREDU YN Y CYNLLUN LLESIANT LLEOL O DAN YR AMCAN HWN**

| Cam Gweithredu Byrdymor | Cam Gweithredu Tymor Canolig | Cam Gweithredu Hirdymor |
|---|---|---|
| Datblygu amrywiaeth o ddulliau gweithredu a chyfleoedd yn y BGC i ddysgu sgiliau bywyd a chydnerthedd unigol i bob aelod o staff sy'n perthyn i sefydliadau'r BGC, gan hyrwyddo rhyngweithio rhwng pobl, yn ogystal â llesiant emosiynol a byw'n iach. | Gweithio gyda sefydliadau a chymunedau eraill i gyflwyno'r rhaglen hyfforddi ledled Ceredigion. | Parhau i hyrwyddo newid diwylliannol sy'n galluogi pobl i groesawu newid. |

**CYNLLUN GWEITHREDU: MAWRTH 2021 – MAWRTH 2022**

| ALLWEDD | |
|---|---|
| GWYRDD | Yn weithredol ac ar y trywydd iawn |
| OREN | Yn weithredol ond mae rhai pryderon ac mae angen monitro'n agos |
| COCH | Yn weithredol ond mae pryderon mawr ac mae angen camau unioni |
| GLAS | Wedi'i ohirio |
| DU | Wedi'i gau |

| **CAM 1:** *Sefydlu cyfeiriadur o adnoddau ar gyfer holl sefydliadau'r BGC.* | | |
|---|---|---|
| **Gweithred** | **Erbyn Pryd** | **Sylwadau** |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1.1 | Creu Cyfeiriadur o Hyfforddiant Cydnerthedd drwy daenlen Excel, a dechrau cyfrannu gwybodaeth sydd eisoes yn hysbys ato. | 26.08.20 | **Wedi'i gwblhau.**<br>Rhannwyd sgerbwd arfaethedig y Gofrestr Hyfforddiant Cydnerthedd gyda'r grŵp prosiect ar 26-08-20. Awgrymwyd a gwnaed diwygiadau. Cytunwyd ar y cynnwys ac fe'i uwchlwythwyd ar Teams er mwyn gallu cyfrannu ato. |
| 1.2 | Cadarnhau gydag aelodau'r grŵp prosiect a fyddai Hwb canolog i'r tîm drwy MS Teams yn fuddiol, a ph'un a oes gan y grŵp fynediad at y platfform hwn. | 24.08.20 | **Wedi'i gwblhau.**<br>Cytunodd aelodau'r Grŵp Prosiect i fwrw ymlaen â chael hwb canolog drwy MS Teams. |
| 1.3 | Sefydlu Tîm ar gyfer y Grŵp Prosiect Hyfforddiant Cydnerthedd ar MS Teams er mwyn caniatáu gwell cyfathrebu a rhannu ffeiliau rhwng cyfarfodydd. | 26.08.20 | **Wedi'i gwblhau.**<br>Sefydlwyd Hwb i'r Tîm ar MS Teams ar 25.08.20. |
| 1.4 | Sicrhau bod y daenlen adnoddau yn cael ei rhannu â'r Grŵp Prosiect dros MS Teams. | 26.08.20 | **Wedi'i gwblhau.** |
| 1.5 | Sicrhau bod diwygiadau fel yr awgrymwyd gan y grŵp prosiect yn ystod y cyfarfod ar 26-08-20 yn cael eu gwneud i'r Gofrestr Hyfforddiant Cydnerthedd a'r Cynllun Gweithredu. | 07.09.20 | **Wedi'i gwblhau.**<br>Uwchlwythwyd y dogfennau diwygiedig ar Hwb y Tîm. |
| 1.6 | Diffinio'r hyn sy'n berthnasol o dan bennawd yr hyfforddiant o ran cymorth cydnerthedd sefydliadol. | 08.10.20 | **Wedi'i gwblhau.**<br>Rhannwyd y diffiniad gydag aelodau ar 14-10-20 a gwahoddwyd adborth. Mae'r diffiniad wedi'i gynnwys yn y cylch gorchwyl ac wedi'i uwchlwytho ar y safle Teams. |
| 1.7 | Yr holl sefydliadau partner i ddiweddaru'r Cyfeiriadur Hyfforddiant Cydnerthedd gydag unrhyw hyfforddiant perthnasol a gynigir drwy eu sefydliadau a sicrhau bod manylion manwl yn cael eu cynnwys. | 17.11.20 | **06.06.19**<br>Cytunwyd bod angen rhagor o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael i staff gan wahanol bartneriaid, gan gynnwys y gynulleidfa darged, unrhyw waith gwerthuso ar y cymorth a ddarperir, a manylion ynglŷn â'r cymorth.<br>**17.11.20** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Mae angen gwaith ychwanegol i sicrhau bod holl aelodau'r GP yn cyfrannu at y Gofrestr fel bod gennym ddarlun cyflawn o'r cyfleoedd o ran Hyfforddiant Cydnerthedd sydd ar gael ar draws sefydliadau'r BGC. |
| 1.8 | Holl aelodau'r grŵp prosiect i barhau i gyfrannu unrhyw ddiweddariadau at y daenlen adnoddau yn ôl yr angen er mwyn sicrhau bod y ddogfen fyw yn parhau i fod yn berthnasol ac yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf. | Pan fo angen | |

| **CAM 2:** *Nodi unrhyw fylchau mewn hyfforddiant ac angen yn seiliedig ar ganfyddiadau'r daenlen adnoddau* | | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithred** | | **Erbyn Pryd** | **Sylwadau** |
| 2.1 | Ar ôl cwblhau pwynt 5 o dan Gam 1, aelodau'r grŵp prosiect i adolygu'r Cyfeiriadur Hyfforddiant Cydnerthedd a nodi bylchau amlwg yn yr hyfforddiant. | 12.01.21 | Aros i bwynt 1.7 o dan Gam 1 gael ei gwblhau. |
| 2.2 | Sgyrsiau â grwpiau bach i'w cynnal gyda staff sefydliadau partner er mwyn nodi unrhyw angen o fewn ein sefydliadau o safbwynt adferiad COVID-19. | Ionawr, 2021 | **17.11.20**<br>Mae Cyngor Sir Ceredigion, Gwasanaeth Tân ac Achub Gorllewin a Chanolbarth Cymru a Phrifysgol Aberystwyth wedi ymrwymo i gefnogi'r ymchwil. Mae angen nodi ffynonellau cymorth ym mhob sefydliad, cyn y gall mynychwyr gael eu gwahodd i gymryd rhan ac mae hyn ar waith. Mae enwau cyswllt wedi eu clustnodi er mwyn cysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru.<br>**23.03.21**<br>Hyd yma cynhaliwyd pedair sesiwn Grwpiau Ffocws gyda thri sefydliad. Gobeithir cynnal sesiwn bellach gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ar ôl y Pasg. |
| 2.3 | Mannau adfer o fewn y GIG i lywio gwaith y grŵp prosiect drwy nodi unrhyw fylchau sy'n codi mewn angen. | Pan fo angen | **23.03.21** Mae'r broses recriwtio wedi bod yn heriol oherwydd COVID-19 ond gobeithio y gellir hyrwyddo'r broses recriwtio unwaith eto a hynny yn y dyfodol agos. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.4 | Nodi a oes cyfle i rannu hyfforddiant sefydliadol gyda chymunedau a gwirfoddolwyr mewn rhyw ffurf. | Ionawr / Chwefror, 2021 | **09.07.20** Nodir anghenion hyfforddi penodol Grwpiau Cymorth Cymunedol drwy sesiynau wythnosol dros Zoom gyda thîm CAVO. **17.11.20** Mae GP Deall Ein Cymunedau yn edrych i goladu cyfleoedd hyfforddi er mwyn rhoi yn ôl i'r gymuned - Bydd y maes gwaith hwn yn cael ei godi gan yr GP DEC yng nghyfarfod mis Ionawr. |
| 2.5 | Sesiynau hyfforddi / gwybodaeth ynghylch Tracio ac Olrhain COVID-9 i'w rhannu lle bo hynny'n briodol e.e. o fewn grwpiau cymunedol, yn enwedig mewn perthynas ag ailagor lleoliadau cymunedol. | | |

| **CAM 3:** *Datblygu hyfforddiant a rennir ar gyfer sefydliadau BGC yn seiliedig ar fylchau ac angen.* | | | |
|---|---|---|---|
| | **Gweithred** | **Erbyn Pryd** | **Sylwadau** |
| 3.1 | | | **23.03.21** Cadeirydd y Grŵp Prosiect i ddod o hyd i wybodaeth o blith aelodau'r BGC ehangach, gan weld a oes awydd o hyd i rannu hyfforddiant cydnerthedd. |



**BGC: PENDERFYNIADAU A RISGIAU**

| **Penderfyniadau sydd angen eu gwneud neu risgiau sydd angen tynnu sylw'r BGC atynt.** |
|---|
| Gadeirydd y Grŵp Prosiect i ddod o hyd i wybodaeth o blith aelodau'r BGC ehangach, gan weld a oes awydd o hyd i rannu hyfforddiant cydnerthedd fel y'i hamlinellir yng Ngham 3 y Cynllun Gweithredu. |

DRAFT

## 3.2 Deall ein Cymunedau

- Creu amodau addas fel y gall cymunedau gefnogi unigolion o bob cefndir i fyw bywydau annibynnol a chyflawn. Datblygu a chynnal rhwydweithiau cymdeithasol a chyfleoedd diwylliannol ac ieithyddol er mwyn gwella llesiant a sicrhau annibyniaeth.

### 3.2.1 Adolygu'r Amcanion:

Fel y soniwyd eisoes, y Grŵp Prosiect Deall Ein Cymunedau oedd y cyntaf i ailddechrau ar ôl i bandemig COVID-19 ddechrau a hynny i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu rhwng cymunedau a gwasanaethau cyhoeddus ar adeg pan oedd ymateb yn gyflym i gefnogi'r rhai mwyaf bregus yn ein cymunedau yn hollbwysig. Roedd hyn yn arbennig o bwysig oherwydd roedd potensial y byddai natur wledig Ceredigion, ei phoblogaeth wasgaredig, a'i heriau megis allgáu digidol ac arwahanrwydd, oll yn cael eu yn dwysáu gan effaith COVID-19. Cynhaliwyd adolygiad o'r blaenoriaethau presennol i sicrhau bod gwaith y Grŵp Prosiect yn diwallu anghenion y cymunedau a'r sefydliadau partner yng ngoleuni'r pandemig, gan gydnabod y dylai'r rhaglen waith fod yn hyblyg i ymateb i newidiadau yn ôl yr angen.

Dyma'r camau gweithredu a gydgynhyrchwyd ar gyfer y Grŵp Prosiect hwn yn 2020/21:

- Nodi cymunedau daearyddol a chymunedau o ddiddordebau – Data ac asedau cymunedol.
- Datblygu rhaglen ymgysylltu â chymunedau a chytuno ar bwrpas a neges glir i gyfleu'r weledigaeth ac i annog cyfranogiad – Ymgysylltu a Chyfathrebu.
- Gweithio gyda chymunedau i ddeall eu hasedau – gan gynnwys adeiladau, pobl, sgiliau, gweithgareddau, digwyddiadau a gwasanaethau – Data ac asedau cymunedol.
- Cefnogi cymunedau i weithio fel Byrddau Gwasanaethau Cymunedol – Cydgynhyrchu.

### 3.2.2 Prif gamau gweithredu 2020/2021:

- **<u>Data ac Asedau Cymunedol</u>**

Mae'r Grŵp Prosiect wedi parhau i gasglu adroddiadau a chanlyniadau yn dilyn ymarferion ymgysylltu â'r gymuned yn ddiweddar. O ganlyniad i gyfyngiadau COVID-19 gohiriwyd rhai ymarferion a phrosiectau am y tro megis y Cynlluniau Lle, a bu'n rhaid ailystyried y cyfleoedd ymgysylltu gan ganolbwyntio ar ymgynghori'n ddigidol yn hytrach nag wyneb yn wyneb. Mae'r ymgyngoriadau cymunedol wedi cynnwys y rheiny a gynhaliwyd gan Cered yn Aberaeron a Llambed, Dyfodol Gwledig yn Llandysul a Cheinewydd, Cynnal y Cardi yn Llambed a Llangrannog, a CAVO yn Llandysul, Aberteifi a Phenparcau. Drwy gasglu adborth ac adroddiadau o ymarferion fel y Cynlluniau Lle, a

thrwy ymgysylltu â'r gymuned, mae modd deall anghenion yn well a nodi meysydd posib ar gyfer gwaith yn y dyfodol.

I fod yn barod ar gyfer yr Asesiad nesaf o Lesiant Lleol a gynhelir yn 2021/2022, sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen gan y Grŵp Prosiect i gefnogi'r broses o ddatblygu'r cynllun drafft ymgysylltu a chyfathrebu. Gan fod sefydliadau'r PSB yn ymestyn ymhell i mewn i gymunedau, bydd arbenigedd y Grŵp Prosiect yn amhrisiadwy wrth nodi rhanddeiliaid a digwyddiadau allweddol y gellir ymgysylltu â nhw gyda'r Asesiad nesaf o Lesiant Lleol. Bydd y broses hon yn hanfodol er mwyn cyrraedd y cymunedau hynny sydd dan anfantais, ar y cyrion a heb lais gan sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed a'u hanghenion yn cael eu hystyried. Bydd aelodau'r Grŵp Prosiect hefyd yn cymryd rhan mewn gweithdy er mwyn casglu eu barn a'u harbenigedd drwy arolygon, byrddau gwyn rhithiol a thrafodaethau ynghylch themâu llesiant yng nghyd-destun Deall ein Cymunedau.

> ***"…….sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen i gefnogi'r broses o ddatblygu'r cynllun drafft ymgysylltu a chyfathrebu."***

- **Ymgysylltu a Chyfathrebu**

Mae datblygiadau ynghylch Writemedia ac Engagement HQ yn parhau i gael eu hadrodd yn ôl i'r Grŵp Prosiect gyda'r nod o ddefnyddio'r platfformau digidol hyn fel cronfa ar gyfer adroddiadau ymgysylltu. Mae'r gwaith o ddatblygu Engagement HQ wedi bod yn heriol oherwydd capasiti'r partneriaid adeg COVID-19, ond y gobaith yw y gellir defnyddio'r platfform yn y dyfodol fel dull o ymgysylltu'n barhaus er mwyn cwtogi ar yr ymgyngoriadau cymunedol. Cynhaliwyd trafodaethau gan y Grŵp Prosiect ar sut y gellir defnyddio Engagement HQ i gefnogi Cyllidebu Cyfranogol yng Ngheinewydd, yn dilyn llwyddiant prosiect tebyg a ariannwyd gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu mewn tair ardal yn y sir. Bydd hyn yn adeiladu ar waith Hafren Gwy/Severn Wye yn yr ardal o dan y rhaglen Dyfodol Gwledig, sydd wedi bod yn cefnogi'r gymuned i fapio asedau lleol, nodi anawsterau sy'n gysylltiedig â byw mewn ardaloedd gwledig a chynnig syniadau ar sail arfer da gyda'r nod o ganfod datrysiadau. Mae'r Grŵp Prosiect hefyd yn parhau i feithrin cysylltiadau â Deall Lleoedd Cymru fel ffynhonnell ddata gymunedol, ac yn ystyried sut y gall gyd-fynd â'r Asesiad o Lesiant Lleol.

Mae cyfathrebu effeithiol yn hanfodol i waith y Grŵp Prosiect, ac ni fu hyn erioed yn bwysicach nag ar ddechrau'r pandemig. Trefnodd CAVO gyfarfodydd wythnosol gyda threfnwyr y grwpiau cymorth lleol, gydag adborth, heriau a meysydd o arfer da yn cael eu hadrodd yn ôl i'r aelodau yng nghyfarfodydd y Grŵp Prosiect. Gwnaed tasg mapio gyda'r nod o gasglu'n ddaearyddol yr ardaloedd yng Ngheredigion a wasanaethir gan ddarparwyr cymorth, gan gynnwys banciau bwyd, grwpiau cymorth cymunedol, cynghorau tref a chymuned a Chlybiau Ffermwyr Ifanc. Roedd yr ymarfer hwn yn hanfodol wrth nodi ardaloedd yn y sir nad oeddent yn cael eu gwasanaethu gan rwydweithiau cymorth, gan alluogi mecanweithiau i gael eu rhoi ar waith i gefnogi cymunedau lle'r oedd llai o ddarpariaeth. Wrth i'r neges Aros Gartref ddod yn glir a dulliau cyfathrebu amgen yn cael eu rhoi ar waith, roedd yn hanfodol i'r Grŵp Prosiect fod negeseuon yn parhau i gyrraedd y rhai a oedd wedi'u hallgáu'n ddigidol yn y sir. Gyda hyn mewn golwg, lluniwyd Cynllun Cyfathrebu fel dogfen fyw ar safle Teams y Grŵp Prosiect a oedd yn cyfeirio at

wahanol ffyrdd o gyfathrebu a meysydd o arfer da ar gyfer cyrraedd cymunedau ar-lein ac all-lein. Cafodd y Grŵp Prosiect gyflwyniad hefyd gan Radio Aber, sy'n canolbwyntio ar hwyluso negeseuon rhwng cymunedau a gwasanaethau cyhoeddus drwy amryw ddulliau gan gynnwys galwadau ffôn i mewn a hysbysebion.

***"Gwnaed tasg mapio gyda'r nod o gasglu'n ddaearyddol yr ardaloedd yng Ngheredigion a wasanaethir gan ddarparwyr cymorth, gan gynnwys banciau bwyd, grwpiau cymorth cymunedol, cynghorau tref a chymuned a Chlybiau Ffermwyr Ifanc. Roedd yr ymarfer hwn yn hanfodol wrth nodi ardaloedd yn y sir nad oeddent yn cael eu gwasanaethu gan rwydweithiau cymorth."***

- **Yr Adferiad ar ôl COVID-19**

Cyn llacio'r cyfnod clo cychwynnol, sefydlwyd is-grŵp i'r Grŵp Prosiect i gynorthwyo a chynghori ar ailagor lleoliadau cymunedol yn ddiogel. Sefydlwyd panel amlasiantaethol o arbenigwyr ac maent yn dal i gyfarfod yn wythnosol i drafod ymholiadau, i fonitro'r heriau a rhannu gwybodaeth. Cynhaliwyd nifer o sesiynau briffio rhithiol gyda chynrychiolwyr y lleoliadau cymunedol, a bu tipyn o fynd ar y rhain. Mae templedi asesu risg, cyngor ar lanhau, gweithdrefnau olrhain a diogelu a chanllawiau diweddaraf Llywodraeth Cymru a CGGC/WCVA yn parhau i gael eu cynnig ar-lein a thrwy'r sesiynau briffio lle caiff cynrychiolwyr lleoliadau cymunedol eu hannog i ofyn cwestiynau i'r panel ynglŷn â'u gweithgarwch / lleoliadau penodol. Mae'r Panel wedi llwyddo i lywio a dylanwadu ar benderfyniadau cenedlaethol ar sail yr angen yn lleol.

***".....sefydlwyd is-grŵp i'r Grŵp Prosiect i gynorthwyo a chynghori ar ailagor lleoliadau cymunedol yn ddiogel. Sefydlwyd panel amlasiantaethol o arbenigwyr ac maent yn dal i gyfarfod yn wythnosol i drafod ymholiadau, i fonitro'r heriau a rhannu gwybodaeth."***

Hefyd mae'r Grŵp Prosiect yn parhau i gael ei lywio gan wahanol ddarnau o ymchwil ar effaith y pandemig ar gymunedau. Cafodd y Grŵp Prosiect gyflwyniad ar Brosiect Fory – Prosiect cydweithredol rhwng Bro360 a Radio Beca yn seiliedig ar arolwg tri chwestiwn i weld sut mae cymunedau'n rhyngweithio ac i nodi'r pethau cadarnhaol a negyddol a achoswyd gan y pandemig. Gwahoddir cynrychiolydd o Brosiect Fory i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Grŵp Prosiect maes o law a bydd hyn yn llywio gwaith y grŵp at y dyfodol ac yn sicrhau bod enghreifftiau cadarnhaol o arfer da yn cael eu cadw. Bydd astudiaeth gan Ysgol Fusnes Aberystwyth ar effaith benodol COVID-19 ar drigolion a busnesau cefn gwlad Ceredigion hefyd yn helpu i lywio'r gwaith o gefnogi cymunedau wrth i'r adferiad barhau.

- **Cydgynhyrchu**

Fel y soniwyd eisoes, mae'r Grŵp Prosiect yn awyddus i archwilio Cyllidebu Cyfranogol fel man cychwyn ar gyfer cydgynhyrchu. Mae trafodaethau eisoes wedi'u cynnal gyda Hafren Gwy/Severn Wye ynghylch treialu'r dull Cyllidebu Cyfranogol. Bydd hyn yn adeiladu

ar y cynlluniau gweithredu a'r asesiad o anghenion a wnaed yng Ngheinewydd drwy'r rhaglen Dyfodol Gwledig, ac yn sicrhau bod arian allweddol yn cael ei ddosbarthu i gymunedau. Hefyd adroddir ar gynnydd Grant Adfer Gwirfoddol COVID-19 yng nghyfarfodydd y Grŵp Prosiect, a fydd yn hybu cyfleoedd i gymunedau ddatblygu sgiliau ac ymwybyddiaeth ym meysydd cymorth cyntaf, meithrin hyder ac iechyd meddwl, yn ogystal â chefnogi'r gwaith o weithredu cynlluniau cymunedol wrth gefn. Bydd y prosiect hefyd yn dathlu'r weithred o wirfoddoli, a'r manteision iechyd sydd ynghlwm. Atgyfnerthir y neges hon drwy blatfform Cysylltu Ceredigion lle gall cymunedau wneud cysylltiadau, rhannu gwybodaeth a chyfnewid cynigion gwirfoddoli; hefyd, drwy ymgyrch Cysylltu â Charedigrwydd sy'n annog trigolion i gefnogi ei gilydd yn anffurfiol drwy wneud pethau caredig. Yn ogystal mae'r Grŵp Prosiect yn parhau i hyrwyddo Dewis Cymru a chyfeiriadur Infoengine lle gall pobl chwilio am gyngor a gwasanaethau o bob cwr o Gymru neu yn eu hardal nhw.

***"…treialu'r dull Cyllidebu Cyfranogol i adeiladu ar y cynlluniau gweithredu a'r asesiad o anghenion a wnaed yng Ngheinewydd drwy'r rhaglen Dyfodol Gwledig, ac i sicrhau bod arian allweddol yn cael ei ddosbarthu i gymunedau."***

### 3.2.3 Cam gweithredu a gynigir at y dyfodol:

Bydd y Grŵp Prosiect yn parhau i adeiladu ar y gwaith a ddisgrifir uchod, os yw'n briodol, dros y flwyddyn sydd i ddod gan barhau i fod yn hyblyg ac i ymateb i anghenion y gymuned. Y gobaith yw y bydd y gwaith ar y Cynlluniau Lle mewn sefyllfa i barhau ac y gall y Grŵp Prosiect gefnogi cymunedau a swyddogion allweddol i sefydlu Tasgluoedd i gyd-ddylunio a chyflawni atebion i ddiwallu'r anghenion a nodwyd yn y broses. Bydd trafodaethau'n parhau ynghylch gweithredu'r dull Cyllidebu Cyfranogol yng Ngheinewydd yn dilyn canfyddiadau'r rhaglen Dyfodol Gwledig sy'n ceisio cefnogi'r gymuned i gael atebion i'r anawsterau sy'n gysylltiedig â byw mewn ardaloedd gwledig. Bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen - Deall ein Cymunedau hefyd yn parhau i gefnogi'r broses Asesu Llesiant Lleol, yn benodol drwy'r gweithdy sydd ar y gweill a'r sesiwn ddilynol yn yr hydref a fydd yn canolbwyntio ar gasglu adborth ar yr Asesiad Llesiant drafft.

Bydd y Grŵp Prosiect yn parhau i gryfhau cysylltiadau, i edrych am gyfleoedd i ymgysylltu ac i annog cydweithio a hynny gyda chymunedau a phartneriaid yn lleol ac yn rhanbarthol. Rhagwelir y bydd Engagement HQ yn arf amhrisiadwy wrth ymgysylltu'n barhaus yn ein gwaith bob dydd. Bydd yn sicrhau bod gwybodaeth berthnasol ynghylch cael gafael ar gyllid a grantiau a chyflawni cynlluniau ar gael fel rhan o storfa ganolog, er mwyn osgoi llethu pobl ag ymgyngoriadau. Gyda hyn mewn golwg, bydd y Grŵp Prosiect yn helpu i brofi'r safle ac yn parhau i weithio mewn partneriaeth i sicrhau ei fod yn cael ei weithredu hyd yr eithaf, a'i reoli. Mae'r Grŵp Prosiect hefyd yn cynnig datblygu a chyflwyno rhaglen sgiliau ymgysylltu ar gyfer gweithluoedd cyrff y BGC/PSB. Bydd hon yn cynnwys technegau cydgynhyrchu, gan wneud i bob cyswllt gyfrif.

***"….yn parhau i gryfhau cysylltiadau, i edrych am gyfleoedd i ymgysylltu ac i annog cydweithio a hynny gyda chymunedau a phartneriaid yn lleol ac yn rhanbarthol."***

**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus**
**Ceredigion**
**Public Services Board**

Caru·Love Ceredigion

| Eitem : | Dyddiad : |
|---|---|
| 25.8 | 12.4.2021 |

| Teitl : | Er BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CEREDIGION |
|---|---|
| Adroddiad Blynyddol Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion | *Trafodaeth / Penderfyniad /* ***Gwybodaeth*** |

Crynodeb o'r Materion :

**CEFNDIR**

Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 mae'n ddisgwyliad bod Adroddiad Blynyddol 2020/21 Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion yn cael ei baratoi.

Mae disgwyliad i'r Adroddiad Blynyddol gael ei gyhoeddi mis Gorffennaf. Er fod Llywodraeth Cymru wedi nodi ei bod yn barod i fod yn hyblyg ar y dyddiad cau eleni bwriedir cyflwyno'r adroddiad ddrafft i'r BGC ymlaen llaw i'r cyfarfod ar y 12fed o Orffennaf er mwyn derbyn cadarnhad terfynol gan aelodau cyn ei gyhoeddi.

Bwriedir bod yr Adroddiad Blynyddol 2020/21 yn adeiladu ar adroddiadau blaenorol gan synfyfyrio'n bwrpasol ar brofiad cyd-destun gweithredu'r flwyddyn ddiwethaf. Mae cyfnod y 12 mis ddiwethaf wedi taflu nifer o heriau tuag at sefydliadau'r bartneriaeth ac mae'n bwysig bod y cynnwys adlewyrchu'r heriau yma gan fod yn onest ynglŷn ag unrhyw addasiadau angenrheidiol.

Mae angen i'r adroddiad fod yn hollol realistig gan ganolbwyntio ar yr hyn sydd wedi bod yn bosib, o fewn y cyfyngiadau a gofynnir am wybodaeth am y cyfleoedd sydd yn awr yn dechrau amlygu ar gyfer y cyfnod nesaf.

Bydd yr adroddiad yn cael ei gyd-gynhyrchu gan bartneriaid trwy eu haelodaeth o'r grwpiau prosiect.

**TROSOLWG O'R CYNNWYS :**
**Teitl:** Adroddiad Blynyddol Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2020/21
**Dulliau:** Arolwg cyfarfodydd y BGC, crynodeb o weithgaredd y grwpiau prosiect a chyfarfodydd rhithwir.

| |
|---|
| **Camau:** Gorffennol, presennol, dyfodol, risg, cyfrifoldeb, ymyriadau a chynlluniau i'r dyfodol.<br>**Amserlen:** Adroddiad Blynyddol 2020/21 i'w chyflwyno i Lywodraeth Cymru Mis Gorffennaf 2021. |
| Goblygiadau Ariannol : |
| N/A |
| Argymhellion : |
| I gymeradwy'r dull o baratoi'r Adroddiad Blynyddol Cynllun Llesiant Lleol 2020/21. |
| Atodiadau : |
| N/A |
| Swyddog Adrodd : |
| Lynne Walters, Swyddog Partneriaethau |

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Eitem Agenda 4

## Cyngor Sir CEREDIGION County Council

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu** |
| **DYDDIAD:** | **16 Mehefin 2021** |
| **LLEOLIAD:** | **ZOOM** |
| **TEITL:** | **Adroddiad Diogelu Grŵp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS Chwarter 3 2020-21** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Monitro’r gweithgarwch ar sail amlasiantaethol o ran y camau a gymerwyd i ddiogelu plant ac oedolion yng Ngheredigion. |
| **RHESWM Y MAE'R PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH HON:** | Sicrhau bod yr aelodau'n monitro’r cynnydd yng nghyfarfodydd rheoli chwarterol Grŵp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS |

**CEFNDIR:**
Gweler Adroddiad Diogelu Grŵp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS ar gyfer Chwarter 3 2020-21 sydd wedi’i atodi.

Adroddiadau rheoli amlasiantaethol yw'r rhain ynghylch diogelu plant ac oedolion yng Ngheredigion yn ystod y cyfnod rhwng 1 Hydref a 31 Rhagfyr 2020. Darperir gwybodaeth reoli ganddynt am y camau a gymerwyd o dan Ganllawiau Diogelu Cymru.

Mae'r Adroddiadau yn cynnwys yr wybodaeth a ddarparwyd gan asiantaethau eraill sy'n ymwneud â diogelu llesiant plant ac oedolion yng Ngheredigion.

Mae aelodau Grŵp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS (Ceredigion) yn trafod yr wybodaeth reoli hon er mwyn monitro a gwerthuso pa mor effeithiol yw'r trefniadau ar gyfer diogelu plant ac oedolion yng Ngheredigion a'r canlyniadau.

Mae'r cyfarfodydd amlasiantaethol hyn yn rhoi cyfle i nodi a gweithredu ar unrhyw faterion perfformiad a materion eraill o fewn y maes gwaith hwn.

Mae’r wybodaeth am berfformiad hefyd yn cael ei darparu i Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru sydd hefyd yn gyfle i ddadansoddi perfformiad, tueddiadau a materion ar draws y Rhanbarth.

| | | |
|---|---|---|
| | **Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os nac oes, esboniwch pam** | Nac oes |

***Crynodeb:***

Caiff yr adroddiad hwn ei ddarparu'n barhaus ac mae'n dangos y gwaith parhaus a wneir ar ddiogelu plant yng Ngheredigion***.***

| | | |
|---|---|---|
| **LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:** | **Hirdymor:** | Cael cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a chynllunio hirdymor ar gyfer y dyfodol |
| | **Integreiddio:** | Effeithio'n gadarnhaol ar bobl, yr economi, yr amgylchedd a'r diwylliant a cheisio dod â budd i bob un ohonynt |
| | **Cydweithio:** | Cydweithio â phartneriaid eraill i gyrraedd y nod |
| | **Cynnwys:** | Cynnwys y rhai hynny sydd â diddordeb a cheisio eu safbwyntiau; ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid |
| | **Atal:** | Defnyddio adnoddau i atal problemau rhag codi neu waethygu. |

**ARGYMHELLIAD (ARGYMHELLION):**
Nodi cynnwys yr adroddiad a'r lefelau gweithgarwch gyda'r Awdurdod Lleol.

**RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLIAD (ARGYMHELLION):**
Er mwyn monitro dull llywodraethu gweithgarwch yr Awdurdod Lleol a'i asiantaethau partner.

| | |
|---|---|
| **Contact Name:** | **Siân Howys** |
| **Swydd:** | **Swyddog Arweiniol Corfforaethol (Plant a Theuluoedd)** |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | **3 Mawrth 2021** |

# GRŴP GWEITHREDOL LLEOL CYSUR CEREDIGION

## Adroddiad Rheoli Perfformiad

**Chwarter: 3**

**1.10.20 – 31.12.20**

| **CYNNWYS:** | **TUDALEN** |
|---|---|
| **ADRAN 1:**<br>**Cyflwyniad** | 3 |
| **ADRAN 2:**<br>**Prif Ddata a Data Cymharol** | 4 |
| **ADRAN 3:**<br>**Atgyfeiriadau Amddiffyn Plant** | 5 |
| **ADRAN 4:**<br>**Ymholiadau Adran 47 Amddiffyn Plant** | 9 |
| **ADRAN 5:**<br>**Cynadleddau Amddiffyn Plant** | 11 |
| **ADRAN 6:**<br>**Y Gofrestr Amddiffyn Plant** | 19 |
| **ADRAN 7:**<br>**Cyfarfodydd Strategaeth Amddiffyn mewn Amgylchiadau Arbennig** | 23 |
| **ADRAN 8:**<br>**Cyfarfodydd Amlasiantaethol ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant (MACSE)** | 24 |
| **ADRAN 9:**<br>**Yr Heddlu – Cynadleddau Amlasiantaethol Asesu Risg (MARAC)** | 25 |
| **ADRAN 10:**<br>**Gwasanaethau Dysgu** | 28 |
| **ADRAN 11:**<br>**Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda** | 34 |
| **ADRAN 12:**<br>**Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (S-CAMHS)** | 35 |
| **ADRAN 13**<br>**Diogelu Oedolion** | 42 |

## ADRAN 1: CYFLWYNIAD

Dyma'r adroddiad rheoli amlasiantaethol ar gyfer diogelu plant yng Ngheredigion yn ystod y cyfnod rhwng 1 Hydref a 31 Rhagfyr 2020. Mae'n darparu gwybodaeth rheoli perfformiad am y camau a gymerwyd i ddiogelu plant.

Mae'n cynnwys adroddiadau gan asiantaethau sy'n bartneriaid ynglŷn â diogelu a hybu llesiant plant yng Ngheredigion.

Mae'r dangosyddion a'r mesurau a ddefnyddir yn cael eu diffinio a'u hadrodd yn lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Mae aelodau Grŵp Gweithredol Lleol CYSUR Ceredigion yn trafod yr wybodaeth reoli hon yn gyson er mwyn monitro a gwerthuso pa mor effeithiol yw'r trefniadau diogelu plant yng Ngheredigion a'r canlyniadau.

Dylid cyfeirio unrhyw sylwadau neu gwestiynau am yr adroddiad hwn at:

Elizabeth Upcott
Rheolwr Corfforaethol Diogelu
Elizabeth.Upcott@ceredigion.gov.uk
01545 574212

## ADRAN 2: Prif Ddata a Data Cymharol

| **Canlyniadau'r Atgyfeiriadau** | **Hyd-Rhag 2020** | **Gorff-Medi 2020** | **Ebrill-Meh 2020** | **Ion-Maw 2020** | **Hyd-Rhag 2019** |
|---|---|---|---|---|---|
| Adroddiadau / Atgyfeiriadau sy'n arwain at Drafodaethau / Cyfarfodydd Strategaeth Amddiffyn Plant | 102 | 92 | 85 | 106 | 75 |
| | | | | | |
| Nifer y Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant (ac eithrio cynadleddau trosglwyddo a chyn geni) | 13 | 10 | 5 | 11 | 7 |
| Nifer y Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant Cyn Geni | 1 | 2 | 2 | - | - |
| Nifer y Cynadleddau Trosglwyddo Amddiffyn Plant | - | - | - | 1 | - |
| **Cyfanswm y Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant (gan gynnwys cynadleddau trosglwyddo a chyn geni)** | **14** | **12** | **7** | **12** | **7** |
| **Cyfanswm y plant a fu'n destun Cynadleddau Cychwynnol / Cyn Geni / Trosglwyddo** | **20** | **23** | **9** | **30** | **13** |
| | | | | | |
| Nifer y plant â'u henwau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant (ac eithrio cynadleddau cyn geni a throsglwyddo) | 15 | 18 | 7 | 23 | 12 |
| Nifer y plant â'u henwau i'w rhoi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant pan gânt eu geni | 1 | 2 | 2 | - | - |
| Nifer y plant â'u henwau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar ôl eu trosglwyddo o Awdurdodau Lleol eraill | - | - | - | 3 | - |
| **Cyfanswm y plant â'u henwau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar ôl Cynadleddau Cychwynnol** | **16** | **20** | **9** | **26** | **12** |
| Cyfanswm y plant na roddwyd eu henwau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant | 4 | 3 | - | 4 | 1 |
| | | | | | |
| **Cyfanswm y Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant** | **17** | **16** | **19** | **11** | **22** |
| **Cyfanswm y plant a fu'n destun Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant** | **39** | **26** | **42** | **15** | **46** |
| **Cyfanswm y plant sy'n dal ar y Gofrestr Amddiffyn Plant** | **18** | **11** | **24** | **9** | **17** |
| Cyfanswm y plant y tynnwyd eu henwau oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant | 21 | 15 | 18 | 6 | 29 |

**Dadansoddiad:**

Roedd cynnydd pellach yn nifer yr atgyfeiriadau a arweiniodd at weithredu o dan Ganllawiau Diogelu Cymru yn ystod y chwarter hwn ac mae'n llawer uwch nag yn ystod y cyfnod hwn y flwyddyn flaenorol, yn enwedig ffigurau mis Medi a mis Rhagfyr.
Canran y plant a drafodwyd mewn cynadleddau adolygu ac a gafodd eu datgofrestru oedd 54%.


## ADRAN 3: Adroddiadau ac Atgyfeiriadau Amddiffyn Plant:


Mae Argymhelliad 39 Ymchwiliad Victoria Climbie yn ei gwneud hi'n ofynnol i staff ar y rheng flaen i drosglwyddo ymholiadau am ddiogelwch a llesiant plant i'r tîm priodol yn ddi-oed ac o fewn yr awr. Yng Ngheredigion, mae'r Porth Gofal yn derbyn ac yn cofnodi pob galwad gan y cyhoedd, gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau ac yn eu trosglwyddo i'r Tîm Asesu a Chymorth i Blant a Theuluoedd.

**Mae'r tabl canlynol yn dangos lefel cydymffurfio â'r argymhelliad:**

| **Lefel** | **Wedi'i drosglwyddo i'r Swyddog Tîm ar Ddyletswydd o fewn 1 awr** | **Wedi'i drosglwyddo i'r Swyddog Tîm ar Ddyletswydd o fewn 2 awr** | **Wedi'i drosglwyddo i'r Swyddog Tîm ar Ddyletswydd o fewn 2-5 awr** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| **Hydref** | | | | |
| 1 | 77 | 13 | 12 | 102 |
| 2 | 50 | 11 | 3 | 64 |
| 3 | 69 | 6 | 3 | 78 |
| 4 | 33 | 2 | 0 | 35 |
| 5 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Lefel** | **Wedi'i drosglwyddo i'r Swyddog Tîm ar Ddyletswydd o fewn 1 awr** | **Wedi'i drosglwyddo i'r Swyddog Tîm ar Ddyletswydd o fewn 2 awr** | **Wedi'i drosglwyddo i'r Swyddog Tîm ar Ddyletswydd o fewn 2-5 awr** | **Cyfanswm** |
| **Tachwedd** | | | | |
| 1 | 63 | 9 | 7 | 79 |
| 2 | 50 | 7 | 3 | 60 |
| 3 | 76 | 5 | 4 | 85 |
| 4 | 34 | 8 | 0 | 42 |
| 5 | 1 | 0 | 0 | 1 |
| | | | | **Cyfanswm** |
| **Rhagfyr** | | | | |
| 1 | 53 | 8 | 15 | 76 |
| 2 | 40 | 5 | 4 | 49 |
| 3 | 85 | 9 | 8 | 102 |
| 4 | 29 | 2 | 1 | 32 |
| 5 | 0 | 0 | 0 | 0 |

| Ffynonellau'r Atgyfeiriadau Amddiffyn Plant a'r nifer a arweiniodd at Drafodaethau Strategaeth | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cysylltwyd gan** | **Hydref** | **Tachwedd** | **Rhagfyr** | **Cyfanswm** | Data cymharol chwarter 2 |
| Yr Heddlu | 22 | 13 | 22 | **57** | **45** |
| Addysg | 11 | 4 | 8 | **23** | **5** |
| Iechyd | - | 3 | 4 | **7** | **6** |
| Gwasanaethau Cymdeithasol Mewnol | 3 | - | 2 | **5** | **17** |
| Perthynas/ffrind/aelod o'r gymuned | 2 | 1 | 1 | **4** | **7** |
| Awdurdod Lleol Arall | 1 | 3 | - | **4** | **4** |
| Asiantaethau Gwirfoddol | 1 | - | - | **1** | **4** |
| Arall | - | 1 | - | **1** | **2** |
| Gwasanaeth Prawf / Cwmni Adsefydlu Cymunedol | - | - | - | **-** | **1** |
| CAFCASS | - | - | - | **-** | **1** |
| Meddyg Teulu | - | - | - | **-** | **-** |
| Gwasanaeth Ieuenctid | - | - | - | - | - |
| Adrodd am eu hunan | - | - | - | **-** | **-** |
| Tai | - | - | - | **-** | **-** |
| Ymddiriedolaeth Ambiwlans Gorllewin Cymru (WAST) | - | - | - | **-** | **-** |
| Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (MAWWF) | - | - | - | **-** | **-** |
| **Cyfanswm** | **40** | **25** | **37** | **102** | **92** |







## Dadansoddiad:

Daeth y rhan fwyaf o'r atgyfeiriadau oddi wrth yr Heddlu yn ystod y chwarter hwn, a bu gostyngiad yn nifer yr atgyfeiriadau oddi wrth ysgolion gan fod yr ysgolion ar gau am gyfnod yn y chwarter hwn.

| **Cyfeiriadau Post yr Atgyfeiriadau Amddiffyn Plant a arweiniodd at Drafodaethau Strategaeth Rhan 3** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Tref Agosaf yn y Cyfeiriad Post** | **Hydref** | **Tach** | **Rhag** | **Cyfanswm** | Data cymharol chwarter 2 |
| Aberystwyth | 17 | 16 | 23 | **56** | **44** |
| Llanbedr Pont Steffan | 9 | 1 | 5 | **15** | **11** |
| Llandysul | 2 | 2 | 4 | **8** | **7** |
| Cei Newydd | 1 | 2 | 2 | **5** | **5** |
| Aberteifi | 3 | - | 1 | **4** | **14** |
| Castellnewydd Emlyn (Ceredigion) | 2 | 1 | 1 | **4** | **4** |
| Aberaeron | 2 | 1 | 1 | **4** | **-** |
| Tregaron | 3 | - | - | **3** | **3** |
| Aber-porth | 1 | 1 | - | **2** | **-** |
| Sir arall | - | 1 | - | **1** | **4** |
| Arall | - | - | - | **-** | **-** |
| **Cyfanswm yr Atgyfeiriadau** | **40** | **25** | **37** | **102** | **92** |




## Dadansoddiad:


Aberystwyth yw'r ardal lle y ceir y nifer uchaf o atgyfeiriadau yn gyson.

| **Dadansoddiad yn ôl % o Weithgarwch Diogelu<br>Chwarter 3 2020/2021 (1 Hydref – 31 Rhagfyr)** | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm o 805 – Yr Holl Gysylltiadau Cychwynnol ynghylch Plant<br>(nid yw'r ffigur hwn yn caniatáu ar gyfer cysylltiadau a dderbyniwyd trwy un swyddog nad ydyw yn y swydd mwyach) | | | |
| Offeryn Asesu a Chymhwystra Cenedlaethol (NAET) a neilltuwyd i'r Timau Plant –<br>Dim gwybodaeth ar gael | Trafodaethau Strategaeth<br>13% | Ymholiadau Adran 47<br>6% | Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant<br>2% |


## ADRAN 4: Ymholiadau Adran 47 Amddiffyn Plant

| Nifer y Trafodaethau / Cyfarfodydd Strategaeth Amddiffyn Plant Rhan 3 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Hydref** | **Tachwedd** | **Rhagfyr** | **Cyfanswm** | Data cymharol chwarter 2 |
| 40 (20) | 25 (29) | 37 (43) | 102 | 92 |

| Asiantaethau sy'n cynnal Ymholiadau Adran 47 Amddiffyn Plant | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Hydref** | **Tachwedd** | **Rhagfyr** | **Cyfanswm** | Data cymharol chwarter 2 |
| Ymholiadau Adran 47 Amddiffyn Plant ar y cyd rhwng y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu | 15 | 10 | 13 | **38** | **37** |
| Ymholiadau Adran 47 Amddiffyn Plant gan y Gwasanaethau Cymdeithasol fel un asiantaeth | 1 | 1 | - | **2** | **6** |
| Ymholiadau Adran 47 Amddiffyn Plant gan yr Heddlu fel un asiantaeth | 4 | 3 | 3 | **10** | **4** |
| **Cyfanswm yr Ymholiadau** | **20** | **14** | **16** | **50** | **47** |



| **Categorïau'r Ymholiadau Adran 47 Amddiffyn Plant** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Categori** | **Hydref** | **Tachwedd** | **Rhagfyr** | **Cyfanswm** | Data cymharol Chwarter 2 |
| Cam-drin Corfforol | 8 | 8 | 8 | 24 | 17 |
| Cam-drin / Camfanteisio'n Rhywiol | 10 | 6 | 7 | 23 | 21 |
| Esgeulustod | 2 | - | - | 2 | 5 |
| Cam-drin Emosiynol | - | - | 1 | 1 | 4 |
| **Cyfanswm yr Ymholiadau** | **20** | **14** | **16** | **50** | 48 |





| **Cyfweliadau Fideo** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Hyd** | **Tach** | **Rhag** | **Cyfanswm** | Data cymharol Chwarter 2 |
| **Nifer y cyfweliadau fideo â phlant** | - | - | - | **-** | **-** |

**Dadansoddiad:**
Y pryderon mwyaf a arweiniodd at gynnal ymholiadau amddiffyn plant oedd honiadau am gam-drin corfforol a cham-drin rhywiol.
Cynhaliwyd y mwyafrif o'r ymholiadau ar y cyd rhwng yr Heddlu a'r Gwasanaethau Plant.


## ADRAN 5: Cynadleddau Amddiffyn Plant

| Mae'r tabl hwn yn cynnwys ffigurau wedi'u dadansoddi mewn perthynas â Chanlyniadau Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant | Nifer y plant | Nifer y plant heb eu geni | Nifer y teuluoedd | Nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, gan gynnwys rhai heb eu geni a rhai a drosglwyddwyd | Nifer y plant â Chynllun Plentyn sydd Angen Gofal a Chymorth os na chofrestrwyd |
| 14 | 19 | 1 | 12 | 16 | 4 |

**Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser:**
Cofnodwyd bod 95.0% o'r Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant wedi'u cynnal o fewn 15 diwrnod gwaith ar ôl y Drafodaeth / Cyfarfod Strategaeth. Roedd oedi wrth gynnal 1 Gynhadledd Gychwynnol Amddiffyn Plant ar gyfer 1 plentyn gan fod angen rhagor o wybodaeth.
Mae'n bwysig nodi bod yr holl Gynadleddau Adolygu Achos yn cael eu cynnal yn rhithwir trwy Microsoft Teams. Bu modd i rieni a phlant gymryd rhan yn y cyfarfodydd.




**Cyfarfodydd y Grŵp Craidd Amddiffyn Plant a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser:**
Cofnodwyd bod 75.0% o Gyfarfodydd y Grŵp Craidd Amddiffyn Plant wedi'u cynnal o fewn 10 niwrnod gwaith ar ôl y Gynhadledd Gychwynnol Amddiffyn Plant. Mae hyn yn cynrychioli 12 phlentyn allan o 16. Ar gyfer 1 teulu gyda 4 plentyn roedd oedi oherwydd argaeledd yr asiantaeth.




| **Mae'r tabl hwn yn dadansoddi canlyniadau'r Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant yn ôl niferoedd:** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant** | **Nifer y plant** | **Nifer y teuluoedd** | **Nifer y plant sy'n aros ar y Gofrestr Amddiffyn Plant** | **Nifer y plant a gafodd eu dileu o'r Gofrestr Amddiffyn Plant** | **Nifer y plant â Chynllun Plentyn sydd Angen Gofal a Chymorth yn dilyn datgofrestru** |
| 17 | 39 | 17 | 18 | 21 | 9 |

**Canlyniadau'r Adolygiadau:**
O'r 21 o blant a ddatgofrestrwyd, derbyniodd 9 ymyrraeth bellach drwy Gynllun Plentyn sydd Angen Gofal a Chymorth; roedd 3 oedd yn destun Gorchymyn Llys ac yn Blant sy'n Derbyn Gofal ac nid oedd angen unrhyw wasanaethau ar 9 plentyn arall.

**Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser:**
Cofnodwyd bod 94.8% o'r Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant wedi'u cynnal o fewn y terfynau amser. Ar gyfer 1 teulu gyda 2 blentyn cynhaliwyd y Gynhadledd y tu allan i'r terfynau amser oherwydd nid oedd Gweithiwr Allweddol ar gael ar y dyddiad a drefnwyd am ei fod yn y Llys.




| **Cyfranogiad rhieni a phlant mewn Cynadleddau Amddiffyn Plant<br>*Data cymharol Chwarter 2 mewn cromfachau** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Adroddiad y Gweithiwr Cymdeithasol i rieni 24 awr cyn y Gynhadledd Amddiffyn Plant** | ***Cadeirydd Amddiffyn Plant wedi cwrdd â'r teulu cyn y Gynhadledd Amddiffyn Plant** | ***Cadeirydd Amddiffyn Plant wedi cwrdd â'r plentyn cyn y Gynhadledd Amddiffyn Plant** | ***Aelod o'r teulu yn bresennol yn y Gynhadledd Amddiffyn Plant** | ***Cyfleu barn plant mewn Cynhadledd Amddiffyn Plant pan nad oeddent yn bresennol (5-18 oed)** | ***Presenoldeb plant yn y Cynhadledd Amddiffyn Plant (Dros 11 oed)** | ***Plant y penodwyd Eiriolwr / Tros Gynnal ar eu cyfer** |
| 87% (100%) | 96% (98%) | 60% (Amh) | 94% (86%) | 91% (97%) | 21% (0%) | 75% (91%) |

**Cyfranogiad a Phresenoldeb Plant a Theuluoedd mewn Cynadleddau:**


**Presenoldeb rhieni, plant ac aelodau'r teulu:**
Roedd o leiaf 1 rhiant / taid neu nain â chyfrifoldeb rhieni yn bresennol mewn 29 Cynhadledd Amddiffyn Plant (94%).
Roedd cyfanswm o 64 o rieni ac aelodau eraill o'r teulu yn bresennol mewn Cynadleddau Amddiffyn Plant.

**Mae barn y plant a'r bobl ifanc wedi cael eu cynrychioli cyn ac yn ystod y Gynhadledd Amddiffyn Plant:**
Roedd cyfanswm o 59 o blant o 29 o deuluoedd yn destun Cynadleddau Cychwynnol, Cyn Geni, Trosglwyddo ac Adolygu Amddiffyn Plant yn ystod y chwarter hwn.
Yn destun y cynadleddau hynny oedd 1 (2%) blentyn cyn geni, 2 (3%) blentyn oedd yn iau na 6 mis oed, 1 (2%) plentyn oedd rhwng 6 a 12 mis oed, 11 (18%) plentyn oedd yn hŷn na blwydd oed ac yn iau na 5 oed, 20 (34%) plentyn oedd rhwng 5 a 10 mlwydd oed a 24 (41%) plentyn oedd rhwng 11 a 18 mlwydd oed.
Mynegwyd barn 18 (90%) plentyn a oedd rhwng 5 ac 11 mlwydd oed yn y Gynhadledd.

Roedd 5 (21%) person ifanc yn hŷn nag 11 mlwydd oed wedi mynychu eu Cynhadledd, roedd 3 (60%) o'r bobl ifanc hyn wedi cwrdd â'r Cadeirydd cyn y Gynhadledd, fodd bynnag dim ond 2 (33%) o'r 3 pherson ifanc hyn oedd wedi cwrdd â'r Cadeirydd ar ôl y Gynhadledd.
Derbyniodd 30 (75%) o'r bobl ifanc a oedd yn hŷn na 5 mlwydd oed wasanaethau eiriolwr. Nid oedd 6 pherson ifanc wedi cael eu hatgyfeirio, gyda 4 pherson ifanc arall wedi eu hatgyfeirio ac yn aros am wasanaeth. Nodwyd bod 4 person ifanc wedi gwrthod y gwasanaeth a gafodd ei gynnig ac felly fe'u diystyriwyd yn y ffigurau.
Cafodd 1 person ifanc arall a oedd yn iau na 5 mlwydd oed ei atgyfeirio hefyd a derbyniodd wasanaeth.

**Dadansoddiad**
Mae o leiaf 1 aelod o'r teulu yn bresennol yn 97% o'r Cynadleddau.
Yn ystod y cyfnod hwn bu gostyngiad yn nifer y plant a drafodwyd mewn Cynadleddau a gafodd gynnig gwasanaeth eiriolwr. Roedd amryw o resymau dros hyn. Ni chafodd 6 phlentyn eu hatgyfeirio i'r Gwasanaeth Eiriolaeth ac roedd hyn yn wir amryfusedd ar ran y gweithiwr. Cafodd 4 plentyn eu hatgyfeirio ond am resymau gwahanol nid oeddent wedi ymgysylltu.


| **Crynodeb o'r Peryglon Pennaf/Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod a nodwyd ac a drafodwyd yn y Cynadleddau Amddiffyn Plant** | |
|---|---|
| Mae'r tabl hwn yn seiliedig ar werthusiad y Cadeirydd Annibynnol o'r peryglon pennaf mewn Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant lle rhoddwyd enwau'r plant dan sylw ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, a Chynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant lle roedd enwau'r plant yn aros ar y gofrestr. | |
| **Crynodeb o'r Peryglon Pennaf ar gyfer y 46 o blant a oedd ar Gofrestr Amddiffyn Plant Ceredigion ar 31 Rhagfyr 2020** | |
| Cam-drin Domestig (Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod) | 43 (93.5%) |
| Rhieni'n gwahanu wedi bod yn broblem yn y cartref (Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod) | 38 (82.6%) |
| Anawsterau iechyd meddwl y rhieni (Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod) | 36 (78.3%) |
| Troseddau treisgar gan oedolion | 31 (67.4%) |
| Rhieni'n camddefnyddio sylweddau / alcohol (Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod) | 27 (58.7%) |
| Rhieni ddim yn cydweithredu â'r Cynllun Amddiffyn Plant | 26 (56.5%) |
| Mam, tad neu bartner wedi bod yn y carchar (Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod) | 17 (36.9%) |
| Person ifanc yn ymddwyn mewn ffyrdd peryglus / yn camddefnyddio sylweddau | 16 (34.8%) |
| Perygl o gamfanteisio'n rhywiol ar blant | 15 (32.6%) |
| Camau cyfreithiol wedi'u cymryd i ddiogelu plant hŷn yn y teulu | 14 (30.4%) |
| Troseddau gan oedolion yn erbyn plant | 7 (15.2%) |
| Anableddau dysgu'r rhieni | 1 (2.2%) |



Crynodeb o'r Peryglon Pennaf ar gyfer y 46 o blant a oedd ar Gofrestr Amddiffyn Plant Ceredigion ar 31 Rhagfyr 2020
50
45
40
35
30
25
20
15
10
5
0
43
38
36
31
27
26
17
16
15
14
7
1
Cam-drin Domestig
Rhieni'n gwahanu
Anawsterau iechyd meddwl y rhieni
Troseddau treisgar gan oedolion
Rhieni'n camddefnyddio sylweddau /...
Rhieni ddim yn cydweithredu â'r Cynllun...
Mam, tad neu bartner wedi bod yn y...
Person ifanc yn ymddwyn mewn ffyrdd...
Perygl o gamfanteisio'n rhywiol ar blant
Camau cyfreithiol wedi'u cymryd i...
Troseddau gan oedolion yn erbyn plant
Anableddau dysgu'r rhieni


| Y Tri Perygl Pennaf Gwenwynig ar gyfer y 46 o blant a oedd ar Gofrestr Amddiffyn Plant Ceredigion ar 31 Rhagfyr 2020 | | |
|---|---|---|
| Nifer y plant sydd â Chynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth lle mae pob un o'r Tri Pherygl Gwenwynig yn ymddangos (Cam-drin Domestig, Rhieni'n Camddefnyddio Sylweddau ac Iechyd Meddwl y Rhieni) | 26 | 56.5% |
| Nifer y plant sydd â Chynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth lle mae Rhieni'n Gwahanu a / neu Garchariad yn ymddangos (Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod) | 39 | 84.8% |
| Nifer y plant sydd â Chynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth lle mae pob un o'r pum Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod yn ymddangos (Cam-drin Domestig, Rhieni'n Camddefnyddio Sylweddau, Iechyd Meddwl y Rhieni, Rhieni'n Gwahanu a Charchariad) | 14 | 30.4% |

**Dadansoddiad:**
Y peryglon pennaf a nodwyd oedd cam-drin domestig, rhieni'n gwahanu, rhieni'n camddefnyddio sylweddau a throseddau gan oedolyn.

## Presenoldeb Asiantaethau mewn Cynadleddau:






Mae'r siartiau uchod yn dangos yr asiantaethau a fu'n bresennol mewn Cynadleddau Amddiffyn Plant. Ar gyfartaledd estynnwyd gwahoddiad i 7 aelod o staff asiantaethau i bob cynhadledd a bu 4 yn bresennol.

Roedd 6 adroddiad ysgrifenedig ar gyfartaledd ar gael ym mhob Cynhadledd Amddiffyn Plant.

Trefnwyd dyddiad ar gyfer Cynhadledd Adolygu Amddiffyn Plant ym mhob cynhadledd pan oedd ei angen.

Roedd cworwm ymhob un o'r 31 (100%) Cynhadledd Amddiffyn Plant.

Mewn 1 (3%) Cynhadledd Amddiffyn Plant argymhellwyd galw cyfarfod Grŵp Teulu.

Darparodd Gweithwyr Cymdeithasol adroddiadau ysgrifenedig ar gyfer pob un o'r 31 (100%) cynhadledd. Roedd 14 (100%) o'r adroddiadau a gyflwynwyd mewn Cynadleddau Cychwynnol yn cynnwys cronoleg.

Mynegodd 31 (100%) o weithwyr proffesiynol / asiantaethau eu barn am gofrestru a lefel y perygl ymhob cynhadledd.

Roedd 53 (90%) o benderfyniadau cofrestru Cynhadledd Amddiffyn Plant yn ddienw, gydag 6 (10%) o gofrestriadau Cynhadledd Amddiffyn Plant yn benderfyniad mwyafrif.

Roedd 0 (0%) Cynhadledd Amddiffyn Plant wedi nodi bod anghytuno ynghylch diogelwch y Cynllun Amddiffyn Plant ar gyfer diogelu llesiant plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.

Mewn 0 (0%) cynhadledd nodwyd bod gofalwr ifanc.

Mewn 7 (25%) Cynhadledd Amddiffyn Plant nodwyd bod diffyg gwybodaeth ynghylch partner y fam.

Nodwyd mewn 3 (10%) cynhadledd fod gan y person ifanc anabledd dysgu cymedrol / difrifol; ac mewn 9 (41%) cynhadledd nodwyd bod gan y person ifanc Gynllun Datblygu Unigol.


Nodwyd mewn 0 (0%) gynhadledd fod gan y person ifanc anabledd corfforol / nam ar y synhwyrau, ac mewn 11 (37%) cynhadledd nodwyd bod gan y person ifanc anawsterau o ran ymddygiad.


Mewn 5 (17%) cynhadledd nodwyd bod gan y person ifanc anawsterau lleferydd / iaith; ac ni chofnodwyd mewn unrhyw gynhadledd (0%) fod y plant wedi'u gwahardd o'r ysgol.


## ADRAN 6: Cofrestr Amddiffyn Plant


**Mae'r tabl a'r siart isod yn dangos data a thueddiadau'r Gofrestr ar ddiwedd pob chwarter, gan ddechrau gyda'r chwarter diweddaraf.**

| Y Gofrestr Amddiffyn Plant | Nifer y plant o Geredigion wedi'u cofrestru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant | Nifer y teuluoedd o Geredigion wedi'u cofrestru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant | Nifer y plant wedi'u cofrestru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant | Nifer y teuluoedd wedi'u cofrestru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant | Cyfanswm y plant wedi'u cofrestru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant | Cyfanswm y teuluoedd wedi'u cofrestru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant | Cyfanswm y plant o Geredigion wedi'u cofrestru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant sydd yn Blant sy'n Derbyn Gofal |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 31 Rhagfyr 2020 | 46 | 24 | 7 | 5 | 53 | 29 | 5 |
| 30 Medi 2020 | 50 | 22 | 4 | 3 | 54 | 25 | 1 |
| 30 Mehefin 2020 | 46 | 24 | 4 | 2 | 50 | 26 | 4 |
| 31 Mawrth 2020 | 55 | 26 | 10 | 4 | 65 | 30 | 2 |
| 31 Rhagfyr 2019 | 35 | 20 | 12 | 5 | 47 | 25 | 3 |
| 30 Medi 2019 | 52 | 27 | 7 | 3 | 59 | 30 | 4 |
| 30 Mehefin 2019 | 55 | 31 | 10 | 5 | 65 | 36 | 3 |
| 31 Mawrth 2019 | 74 | 40 | 4 | 3 | 78 | 44 | 5 |
| 31 Rhagfyr 2018 | 53 | 32 | 2 | 2 | 55 | 34 | 4 |
| 30 Medi 2018 | 58 | 36 | 9 | 7 | 67 | 43 | 3 |
| 30 Mehefin 2018 | 54 | 31 | 9 | 6 | 63 | 37 | 6 |
| 31 Mawrth 2018 | 67 | 38 | 4 | 4 | 71 | 42 | 10 |


Tueddiadau'r Gofrestr Amddiffyn Plant
80
70
60
50
40
30
20
10
0
53
74
55
52
35
55
46
50
46
Rhag 31 2018
Maw 31 2019
Meh 30 2019
Medi 30 2019
Rhag 31 2020
Maw 31 2020
Meh 30 2020
Medi 30 2020
Rhag 31 2020


Oedran a Rhyw Plant Ceredigion (46) ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar 31 Rhagfyr 2020
Gwryw (Cyfanswm o 26)
Benyw (Cyfanswm o 20)
10
9
8
7
6
5
4
3
2
1
0
3
2
4
4
9
3
9
7
1
4
O dan 1 oed
1-4 oed
5-9 oed
10-15 oed
16-18 oed


Hyd yr amser y bu Plant Ceredigion (46) ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar 31 Rhagfyr 2020
30
25
20
15
10
5
0
27
14
5
0
o dan 6 mis
6-12 mis
1-2 flynedd
(yn cynnwys 2 deulu)
Dros 2 flynedd


Y Categori Cofrestru ar gyfer Plant Ceredigion (46) ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar 31 Rhagfyr 2020
18
16
14
12
10
8
6
4
2
0
16
16
6
4
4
Cam-drin Emosiynol neu Seicolegol
Esgeulustod
Cam-drin Corfforol
Cam-drin Rhywiol
Esgeulustod a Cham-drin Emosiynol neu Seicolegol

| Mesur 28 Llywodraeth Cymru – Yr amser ar gyfartaledd y bu pob plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant: | | |
|---|---|---|
| Ar gyfer y Mesur hwn mae'n ofynnol rhoi'r amser ar gyfartaledd mewn diwrnodau calendr y treuliodd pob plentyn ar y Gofrestr cyn eu datgofrestru yn ystod y chwarter dan sylw | Hydref – Rhagfyr | 274.5 |

| | Hyd-Rhag 2020 | Gorff-Medi 2020 | Ebrill-Meh 2020 | Ion-Maw 2020 | Hyd-Rhag 2019 | Gorff-Medi 2019 | Ebrill-Meh 2019 | Ion-Maw 2019 | Hyd-Rhag 2018 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfradd y 10,000 Plant o dan 18 oed** | 36 | 39 | 36 | 42 | 27 | 40 | 42 | 57 | 41 |

| Mesur 27 Llywodraeth Cymru – Nifer y plant a ail-gofrestrwyd ar Gofrestr Amddiffyn Plant yr Awdurdod Lleol o fewn y flwyddyn | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cynadleddau Cychwynnol** | **Hyd-Rhag 2020** | **Gorff-Medi 2020** | **Ebrill-Meh 2020** | **Ion-Maw 2020** | **Hyd-Rhag 2019** | **Gorff-Medi 2019** | **Ebrill-Meh 2019** | **Ion-Maw 2019** |
| Nifer y plant a fu ar y gofrestr o'r blaen ac a ddatgofrestrwyd dros y 12 mis diwethaf | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 5 | 1 | 2 |

**Dadansoddiad**

Roedd gostyngiad bach yn nifer y plant ar y Gofrestr yn ystod y cyfnod hwn. Datgofrestrwyd 21 o blant oedd yn cynnwys 2 deulu gyda 5 o blant, 4 teulu gyda 2 o blant, a 3 theulu gydag un plentyn. Fodd bynnag, cafodd 16 o blant eu cofrestru mewn Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant. Roedd nifer y plant yn y teuluoedd hyn yn cynnwys 1 teulu gyda 4 o blant, 3 theulu gyda 2 o blant, ac roedd 1 plentyn yr un yn y 6 Chynhadledd arall.

Mae'r mwyafrif o blant ar y Gofrestr oherwydd cam-drin emosiynol ac esgeulustod sy'n adlewyrchu'r ffaith mai cam-drin domestig yw un o'r peryglon pennaf.

Mae'r mwyafrif o blant ar y Gofrestr am gyfnod o hyd at 6 mis.

Mae mwy o fechgyn ar y Gofrestr na merched.

Y categori oedran sy'n parhau â'r nifer fwyaf ar y Gofrestr yw 10-15 mlwydd oed.

## ADRAN 7: Cyfarfodydd Strategaeth Amddiffyn Plant a gynhaliwyd o dan Rannau 4 a 5 o Ganllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan

Atgyfeiriwyd 37 o blant a chynhaliwyd cyfanswm o 32 cyfarfod strategaeth yn ystod y chwarter.

Cynhaliwyd Cyfarfodydd Strategaeth ar gyfer 1 Plentyn sy'n Derbyn Gofal o Geredigion ac 1 Plentyn sy'n Derbyn Gofal o Awdurdod Lleol arall.

Adroddwyd bod 2 Blentyn sy'n Derbyn Gofal o Geredigion wedi'u lleoli y tu allan i'r sir wedi bod yn destun Ymholiadau Amddiffyn Plant yn ardal y lleoliad.

| **Categori o Gyfarfod Strategaeth Amddiffyn Plant (Amgylchiadau Penodol)** | **Hydref Cyfarfodydd a gynhaliwyd** | **Tachwedd Cyfarfodydd a gynhaliwyd** | **Rhagfyr Cyfarfodydd a gynhaliwyd** | **Cyfanswm yr achosion** |
|---|---|---|---|---|
| Perygl o gamfanteisio'n rhywiol ar blant | 1 | 4 | 3 | **7** |
| Pryderon am ymddygiad rhywiol niweidiol | 6 | 3 | 3 | **9** |
| Pryderon ynghylch person ifanc yn mynd ar goll o'r cartref | 2 | 0 | 0 | **2** |
| Pryderon Proffesiynol | 2 | 2 | 5 | **8** |
| **Cyfanswm y cyfarfodydd** | **11** | **9** | **11** | |
| **Cyfanswm yr achosion a drafodwyd yn ystod y chwarter dan sylw** | | | | **26** |

## ADRAN 8: Cyfarfodydd Rheoli Amlasiantaethol ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant (MACSE)

| Achos Newydd / Adolygu | Ymadael / Aros yn MACSE | Gwryw / Benyw | Oedran | Yn y cartref / mewn gofal | Cofrestr Amddiffyn Plant | Dyddiad y cyfarfod | Presenoldeb Asiantaethau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| N | A | G | 15 | C | Na | 22/10/20 | CFAST, Yr Heddlu, Iechyd, Gwasanaethau Dysgu, TAF, YJPS |
| N | A | B | 17 | C | Na | 11/11/20 | CFAST, Yr Heddlu, Gwasanaethau Dysgu, YJPS, Choices |
| A | A | B | 14 | C | Ie | 01/12/20 | CFAST, Yr Heddlu, Iechyd, Gwasanaethau Dysgu, TAF, YJPS |
| N | A | B | 17 | | Ie | 27/11/20 | CFAST, Yr Heddlu, Iechyd, Gwasanaethau Dysgu, Coleg Ceredigion, Tai, WWHA, Llamau, Choices |
| N | A | B | 16 | | Ie | 27/11/20 | CFAST, Yr Heddlu, Iechyd, Gwasanaethau Dysgu, Coleg Ceredigion, Tai, WWHA, Llamau, Choices |
| A | A | B | 14 | C | Na | 21/12/20 | CFAST, Yr Heddlu, Gwasanaethau Dysgu, |
| A | A | B | 14 | C | Ie | 21/12/20 | CFAST, Yr Heddlu, Gwasanaethau Dysgu, YJPS |

Daeth 4 achos newydd i'r cyfarfodydd MACSE yn ystod Chwarter 3 a 3 achos i'w hadolygu. O'r rhain, roedd 6 yn fenywod rhwng 14-17 mlwydd oedd ac un gwryw 15 mlwydd oed a 4 ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.

## ADRAN 9: Adroddiad yr Heddlu – Cynadleddau Amlasiantaethol Asesu Risg (MARAC)

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm yr achosion oedd yn bodloni meini prawf MARAC** | 236 o achosion |
| **Nifer yr achosion a adolygwyd ac a arweiniodd at gam adolygu MRE (Ailddigwydd/Uwchgyfeirio MARAC)** | 129 o achosion wedi'u hadolygu<br>92 o achosion wedi deillio |
| **Cyfanswm yr achosion a gafodd sylw mewn Trafodaethau Dyddiol.** | 144 o achosion wedi'u trafod<br>128 o achosion wedi deillio |
| **Achosion aeth i MARAC** | 16 o achosion |
| **Canran yr achosion** | 38.98% wedi arwain at adolygiad MRE<br>54.24% wedi arwain at Drafodaethau Dyddiol<br>6.78% wedi mynd i MARAC |
| **Dadansoddiad o nifer yr achosion yn ôl dosbarth** | Sir Gaerfyrddin - 79<br>Sir Benfro - 68<br>Ceredigion - 41<br>Powys - 48 |
| **Nifer y plant ar yr aelwyd** | Cyfanswm -<br>Sir Gaerfyrddin - 78<br>Sir Benfro - 92<br>Ceredigion - 44<br>Powys - 42 |

| | **Wedi arwain at MRE** | **Wedi arwain at Drafodaethau Dyddiol** | **MARAC** | **Amser a arbedwyd yn mynd i MARAC** | |
|---|---|---|---|---|---|
| Sir Gaerfyrddin | 29 | 44 | 6 | **(*10 munud yr achos ar gyfartaledd)** | 12 awr 10 munud |
| Sir Benfro | 30 | 35 | 3 | | 10 awr 5 munud |
| Ceredigion | 21 | 19 | 1 | | 6 awr 40 munud |
| Powys | 12 | 30 | 6 | | 7 awr |

Tachwedd -

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm yr achosion oedd yn bodloni meini prawf MARAC** | 278 o achosion |
| **Nifer yr achosion a adolygwyd ac a arweiniodd at gam adolygu MRE (Ailddigwydd/Uwchgyfeirio MARAC)** | 186 o achosion wedi'u hadolygu<br>148 o achosion wedi deillio |
| **Cyfanswm yr achosion a gafodd sylw mewn Trafodaethau Dyddiol.** | 130 o achosion wedi'u trafod<br>125 o achosion wedi deillio |
| **Achosion aeth i MARAC** | 5 achos |
| **Canran yr achosion** | 53.24% wedi arwain at adolygiad MRE<br>44.96% wedi arwain at Drafodaethau Dyddiol<br>1.78% wedi mynd i MARAC |
| **Dadansoddiad o nifer yr achosion yn ôl dosbarth** | Sir Gaerfyrddin - 102<br>Sir Benfro - 90<br>Ceredigion - 46<br>Powys - 40 |
| **Nifer y plant ar yr aelwyd** | Cyfanswm - 260<br>Sir Gaerfyrddin - 100<br>Sir Benfro - 92<br>Ceredigion - 42<br>Powys - 26 |

| | **Wedi arwain at MRE** | **Wedi arwain at Drafodaethau Dyddiol** | **MARAC** | **Amser a arbedwyd yn mynd i MARAC** | |
|---|---|---|---|---|---|
| Sir Gaerfyrddin | 52 | 48 | 2 | **(*10 munud yr achos ar gyfartaledd)** | 17 awr |
| Sir Benfro | 51 | 38 | 1 | | 14 awr 50 munud |
| Ceredigion | 21 | 25 | 0 | | 7 awr 40 munud |
| Powys | 24 | 14 | 2 | | 6 awr 20 munud |

Rhagfyr -

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm yr achosion oedd yn bodloni meini prawf MARAC** | 206 o achosion |
| **Nifer yr achosion a adolygwyd ac a arweiniodd at gam adolygu MRE (Ailddigwydd/Uwchgyfeirio MARAC)** | 107 o achosion wedi'u hadolygu<br>80 o achosion wedi deillio |
| **Cyfanswm yr achosion a gafodd sylw mewn Trafodaethau Dyddiol.** | 126 o achosion wedi'u trafod<br>115 o achosion wedi deillio |
| **Achosion aeth i MARAC** | 11 o achosion |
| **Canran yr achosion** | 38.84% wedi arwain at adolygiad MRE<br>55.83% wedi arwain at Drafodaethau Dyddiol<br>5.33% wedi mynd i MARAC |
| **Dadansoddiad o nifer yr achosion yn ôl dosbarth** | Sir Gaerfyrddin - 75<br>Sir Benfro - 68<br>Ceredigion - 30<br>Powys - 33 |
| **Nifer y plant ar yr aelwyd** | Cyfanswm - 233<br>Sir Gaerfyrddin - 91<br>Sir Benfro - 73<br>Ceredigion - 34<br>Powys - 35 |

| | **Wedi arwain at MRE** | **Wedi arwain at Drafodaethau Dyddiol** | **MARAC** | **Amser a arbedwyd yn mynd i MARAC** (***10 munud yr achos ar gyfartaledd)** | |
|---|---|---|---|---|---|
| Sir Gaerfyrddin | 33 | 41 | 1 | | 12 awr 20 munud |
| Sir Benfro | 31 | 33 | 4 | | 10 awr 40 munud |
| Ceredigion | 8 | 20 | 2 | | 4 awr 40 munud |
| Powys | 8 | 21 | 4 | | 4 awr 50 munud |

## ADRAN 10: Gwasanaethau Dysgu

**ADRODDIAD LOG GWASANAETHAU YSGOLION**

**BWLIO**

Mae data bwlio yn parhau i gael eu casglu yn dymhorol ym mhob cyfarfod Corff Llywodraethu ysgolion. Gweler isod y data a gasglwyd yn nhymor yr Haf 2020 a gasglwyd yn ystod y tymor blaenorol sef tymor yr Hydref 2019.

| Math o Fwlio | Hydref 2019 | Gwanwyn 2020 | Haf 2020 |
|---|---|---|---|
| Gallu | 5 | 2 | 2 |
| Oedran | 1 | 1 | |
| Edrychiad | 4 | 8 | 5 |
| Biffobig | | | |
| Anabledd | | | 1 |
| Rhyw | | 2 | |
| Homoffobig | | | |
| Plentyn syn Derbyn Gofal | | | |
| Anneuaidd | | | |
| Beichiogrwydd neu Famolaeth | | | |
| Hiliol | | 2 | |
| Crefydd neu Gred | | | |
| Rhywiol | 2 | | |
| Trawsffobig | | | |
| Gofalwr Ifanc | | | |
| E-ddiogelwch | 2 | 7 | 1 |
| Arall | 7 | 21 | 1 |
| **Cyfanswm** | 20 | 43 | 10 |

Mae gwrthdaro rhwng ffrindiau hefyd wedi cael ei gynnwys yng nghofnodion ysgolion. Ni fyddai'r mathau hyn o ymddygiad wedi'u cynnwys fel arfer o fewn y diffiniad o fwlio, fodd bynnag mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn eu cofnodi o dan y categori 'arall' yn eu ffurflen adborth.

## HYFFORDDIANT

Mae hyfforddiant Diogelu ac Amddiffyn Plant lefel 1 ar gael fel rhaglen e-ddysgu yn unig a dyma nifer u staff sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn yn ystod cyfnod chwarter 3.

| | |
|---|---|
| Mewnol | 143 |

## VAWDASV

Mae 47 aelod o staff wedi cwblhau hyfforddiant VAWDASV ar-lein yn ystod cyfnod chwarter 3.

## ADDYSG DDEWISOL GARTREF


| Nifer y plant rydych yn ymwybodol ohonynt sydd yn cael eu haddysgu'n ddewisol gartref | Nifer y plant Addysg Ddewisol Gartref sy'n hysbys i'r Awdurdod Lleol sydd wedi cael cynnig ymweliad blynyddol yn ystod y 12 mis diwethaf | Canlyniad |
|---|---|---|
| 243<br>(cynnydd yn y nifer oherwydd pandemig COVID) | 0<br>(ymweliadau heb eu caniatáu oherwydd pandemig COVID) | |


## PLANT SY'N DERBYN GOFAL


| | |
|---|---|
| Plant sy'n derbyn gofal yng Ngheredigion o oedran ysgol statudol | 38 |
| Plant sy'n derbyn gofal a leolir y tu allan o'r Sir o oedran ysgol statudol | 11 |
| Plant sy'n derbyn gofal o Awdurdodau Lleol eraill o oedran ysgol statudol | 36 |


## Cysylltiadau Ysgolion

Gweler isod, nifer a natur y cysylltiadau a dderbyniwyd gan ysgolion / sefydliadau dysgu yn ystod cyfnod chwarter 3.


Ysgolion Uwchradd / Secondary Schools
30
25
20
15
10
5
0
Aberaeron
Aberteifi
Penglais
Penweddig
UCD



Ysgolion Canol / Middle Schools
25
20
15
10
5
0
Henry Richard
Bro Pedr
Bro Teifi


Ysgolion Cynradd / Primary Schools
10
9
8
7
6
5
4
3
2
1
0
Aberaeron
Aberporth
Aberteifi
Bro Sion Cwilt
Ciliau Parc
Comins Coch
Craig yr Wylfa
Dyffryn Cledlyn
Felinfach
Llanarth
Llangwyryfon
Llannon
Llechryd
Llwynyreos
Myfenydd
Padarn Sant
Penparc
Penrhyncoch
Plascrug
Rhos Helyg
Rhydypennau
T Llew Jones
Talgarreg
Y Dderi
Ysgol Gymraeg


Natur y Cysylltiad / Nature of Contact
80
70
60
50
40
30
20
10
0
Lles
Corfforol
Sylweddau Rhiant
Iechyd Meddwl Disgybl
Rhywiol
Iechyd a Diogelwch
Ymddygiad Disgybl
E ddiogelwch
Iechyd Meddwl Rhiant
Esgeulustod
Sylweddau Disgybl
Camdrin Domestig
Ymddygiad Rhiant
Materion Cyswllt Rhieni
Gofal
Ymddygiad Staff
Materion Cyfreithlon
Arf
Bwlian
Trin Gwybodaeth
Prevent
Beichiog

Oherwydd y nifer fawr o resymau a roddwyd ar gyfer cysylltu, mae rhai wedi cael eu grwpio gyda'i gilydd fel y nodir isod er mwyn gallu cyflwyno'r wybodaeth yn fwy eglur ar y siart.

| | |
|---|---|
| Arf | |
| Cais am wybodaeth | |
| Cam-drin Domestig | |
| Corfforol | |
| E-ddiogelwch | Gan gynnwys camddefnydd ffonau symudol/rhyngrwyd, anfon negeseuon/lluniau/fideos anweddus. |
| Esgeulustod | Gan gynnwys amodau'r cartref, problemau ariannol a goruchwyliaeth |
| Gofal | |
| Iechyd a Diogelwch | |
| Iechyd Meddwl Disgyblion | Gan gynnwys cam-drin emosiynol |
| Iechyd Meddwl Rhieni | |
| Lles | Gan gynnwys plant sydd ar goll, presenoldeb, tor-berthynas, gofalwyr ifanc, anawsterau cysylltu yn ystod y cyfnod clo, problemau cysylltu rhwng rhieni |
| Materion Cyfreithiol | |
| Atal | |
| Rhywiol | Gan gynnwys perthnasoedd amhriodol a chamfanteisio'n rhywiol ar blant |
| Sylweddau Disgyblion | Gan gynnwys cyffuriau ac alcohol |
| Sylweddau Rhieni | Gan gynnwys cyffuriau ac alcohol |
| Materion Traws | |
| Ymddygiad Disgybl | |
| Ymddygiad Rhiant | Gan gynnwys rhieni yn y carchar |
| Ymddygiad Staff | Gan gynnwys unrhyw gwynion neu sylwadau ynghylch ymddygiad aelod staff ysgolion a/neu sydd yn gysylltiedig ag ysgolion Ceredigion. |


Cwmpas Gweithredu
45
40
35
30
25
20
15
10
5
0
Hydref / October
Tachwedd / November
Rhagfyr / December

## ADRAN 11: Iechyd

## ADRAN 12: Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (S-CAMHS)

### Adroddiad Diweddaru S-CAMHS ar gyfer CYSUR

Yn unol â dogfen Llywodraeth Cymru "Canllawiau Derbyn", mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi rhoi Polisi / Llwybr Derbyn cadarn yn ei le yn amlinellu'r broses ar gyfer derbyn unrhyw berson ifanc i'r Ward Iechyd Meddwl Oedolion. Mae'r canllawiau yn datgan bod rhaid i'r Bwrdd Iechyd gael Uned ddynodedig ac o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yr uned ddynodedig yw Ward Morlais ar gampws Ysbyty Glangwili.

Mae protocol newydd wedi cael ei gymeradwyo i fodloni'r gofyniad statudol hwn a fydd yn sicrhau cydymffurfiaeth yn erbyn disgwyliadau Llywodraeth Cymru.


Gall cael eich derbyn i ward iechyd meddwl oedolion fod yn brofiad brawychus a gwneir pob ymdrech i ystyried y dewis arall lleiaf cyfyngol ar gyfer derbyn cleifion. Yn y mwyafrif o achosion caiff person ifanc ei dderbyn i'r uned ddynodedig ar Ward Cilgerran wedi'i gefnogi gan staff o'r uned iechyd meddwl.


Yn unol â'r canllawiau, mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant ychwanegol ar ddiogelu pobl ifanc ac yn ogystal mae staff ar ward Morlais i gyd wedi cwblhau'r canlynol:

- Hyfforddiant Diogelu Plant Lefel 3
- Wedi derbyn tystysgrif DBS manylach dilys
- Wedi cwblhau hyfforddiant penodol ar anghenion emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc
- Hyfforddiant ar y Ddeddf Iechyd Meddwl a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014


Rhaid i bawb a dderbynnir i wely iechyd meddwl gael ei adrodd, i gychwyn yn fewnol fel DATIX, a dilynir hyn gan adroddiad Digwyddiad Anffafriol Difrifol i'r Uned Gyflenwi yn unol â'r ddogfen Canllawiau Derbyn Llywodraeth Cymru.

**Chwarter 3 Derbyniadau i wely addas i'r oedran yr Enfys / Morlais ar y Ward Iechyd Meddwl Oedolion ar safle Ysbyty Glangwili:**




**Chwarter 3 Derbyniadau i wely addas i'r oedran yr Enfys / Morlais yn ôl rhyw:**





**Chwarter 3 Derbyniadau i wely'r Enfys / Morlais yn ôl ardal:**




**Derbyniadau i Wely Addas i Oedran Paediatreg (Uned yr Enfys, ddim yn adroddadwy)**

Mae cofnodion arbenigol CAMHS ar gyfer Chwarter 3 wedi'u hamlinellu uchod gyda chyfanswm o 17 wedi'u derbyn gyda 4 wedi'u derbyn i'r gwely pediatrig a 13 wedi'u derbyn i'r Ward Iechyd Meddwl Oedolion (Morlais). Cynnydd yn nifer y derbyniadau sy'n debygol iawn o fod yn gysylltiedig â COVID-19.

**Chwarter 3 Derbyniadau i'r Enfys / Morlais wedi'i rannu yn ôl tîm derbyn:**




**Statws Iechyd Meddwl**

Cafodd 1 unigolyn ei dderbyn i'r ward Iechyd Meddwl Oedolion o dan Adran 2 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl.

**Canlyniadau Derbyn**

| | **Wedi'i ryddhau i'w gartref** | **Ei dderbyn i ward arall** | **Aros ar y ward** |
|---|---|---|---|
| **Yr Enfys** | 4 | 0 | 0 |
| **Morlais** | 13 | 0 | 0 |


**Derbyn cleifion hunan-niweidio**

O fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda mae systemau cadarn yn eu lle i S-CAMHS ddarparu asesiad iechyd meddwl, yn dilyn atgyfeiriad gan y ward bediatrig lle mae unrhyw berson ifanc yn cael ei dderbyn yn dilyn achos o hunan-niweidio. Yn gyffredinol y rheswm am ei dderbyn yw gorddos ond ar adegau gall fod yn dilyn achos bwriadol o dorri'r croen neu geisio crogi ei hun.


Bydd pob achos o orddos/hunan-niweidio yn cael apwyntiad dilynol o fewn tri diwrnod gwaith i fonitro risg a darparu cymorth. Mae llwybr cadarn yn ei le ynghyd ag arweiniad ar gyfer derbyn yr holl bobl ifanc sy'n cyflwyno eu hunain yn dilyn hunan-niweidio er mwyn gallu cytuno ar asesiad iechyd meddwl cynhwysfawr a rheoli risg. Lle y bo'n briodol, gellir ystyried atgyfeirio i'r tîm diogelu a/neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae'r tabl canlynol yn rhoi manylion am y nifer a dderbyniwyd yn dilyn hunan-niweidio bwriadol Chwarter 3 2020-2021 ar gyfer y 3 Ardal Awdurdod Lleol:


**Chwarter 3 Ystadegau hunan-niweidio / gorddos wedi'u rhannu yn ôl rhyw ac ardal:**





**Chwarter 3 Ystadegau hunan-niweidio / gorddos wedi'u rhannu yn ôl rhyw a phroffil oedran:**




**Data Cymhariaeth (21 mis diwethaf) – Gwely Addas i'r Oedran**





**Tueddiadau Derbyn yn ôl ardal (12 mis diwethaf)**




**Cymhariaeth Derbyn Blynyddol yn ôl ardal**

Mae'r graff canlynol yn cymharu'r nifer a dderbyniwyd ar gyfer Chwarter 3 2020/2021 yn erbyn y nifer a dderbyniwyd ar gyfer yr un chwarter 2019/2020 a 2018/2019, wedi'i ddiffinio ymhellach yn ôl ardal.




**Eiriolaeth**

Yn unol â Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2012, disgwylir i'r Byrddau Iechyd sicrhau bod mynediad i Wasanaethau Eiriolaeth yn ei le, yn unol â Rhan 4 y Mesur, ar gyfer unrhyw unigolyn a dderbynnir i'r ysbyty. Gofynnir i bob person ifanc a dderbynnir i Ward Morlais a hoffent gael mynediad i Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol. Y targed perfformiad disgwyliedig yw bod 100% o gleientiaid yn cael cynnig hyn a bod yr wybodaeth yn cael ei chofnodi a'i hadrodd trwy ein Dadansoddwr Gwybodaeth.

Ar Ward Cilgerran mae gwybodaeth yn cael ei darparu i bobl ifanc pan gânt eu derbyn ar argaeledd mynediad i'r Gwasanaeth Eiriolaeth. Fodd bynnag, nid yw'r safon perfformiad uchod yn gymwys, felly nid yw data yn cael ei goladu fel mater o arfer.

# GRŴP GWEITHREDOL LLEOL CWMPAS CEREDIGION


**Adroddiad Rheoli Perfformiad – Diogelu Oedolion**

**Chwarter: 3**

**1.10.20 – 31.12.20**

# TYSTIOLAETH DATA CHWARTER 3 2020-2021


| **Oedolion** | |
|---|---|
| 2019-2020 – Chwarter 3 | 138 |
| 2019-2020 – Chwarter 4 | 153 |
| 2020-2021 – Chwarter 1 | 120 |
| 2020-2021 – Chwarter 2 | 119 |
| 2020-2021 – Chwarter 3 | 111 |




Ceir ychydig o ostyngiad yn nifer yr oedolion dan amheuaeth o fod mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso o 119 yn Chwarter 2 i 111 yn Chwarter 3, a chafwyd gostyngiad sylweddol yn y nifer ers Chwarter 2 a Chwarter 3 y flwyddyn flaenorol. Ers Chwarter 4 y flwyddyn ddiwethaf a dechrau epidemig y Coronafeirws, bu gostyngiad sylweddol yn nifer yr adroddiadau a dderbynnir gan y tîm.

**Adroddiadau – Fesul Mis**


| Labeli Rhes | Rhif Adnabod Asesu |
|---|---|
| **2019-2020 – Chwarter 3** | **150** |
| Hyd | 68 |
| Tach | 48 |
| Rhag | 34 |
| **2019-2020 – Chwarter 4** | **169** |
| Ion | 60 |
| Chwe | 44 |
| Maw | 65 |
| **2020-2021 – Chwarter 1** | **132** |
| Ebr | 51 |
| Mai | 40 |
| Meh | 41 |
| **2020-2021 – Chwarter 2** | **148** |
| Gorff | 54 |
| Awst | 52 |
| Medi | 42 |
| **2020-2021 – Chwarter 3** | **123** |
| Hyd | 40 |
| Tach | 42 |
| Rhag | 41 |
| **Cyfanswm** | **722** |




**Adroddiadau – Fesul Mis**

| **Rhif Adnabod Asesu**<br><br>**Labeli Rhes** | **Labeli Colofn**<br>**2019-2020 – Chwarter 3** | **2019-2020 – Chwarter 4** | **2020-2021 – Chwarter 1** | **2020-2021 – Chwarter 2** | **2020-2021 – Chwarter 3** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Eiriolwr | | | 1 | 1 | | 2 |
| Y Gwasanaeth Ambiwlans | 1 | 7 | 4 | 6 | 6 | 24 |
| Rheoleiddiwr Gofal | | | | 1 | | 1 |
| Ysbyty Annibynnol | | 1 | | | | 1 |
| Awdurdod lleol | 37 | 26 | 33 | 21 | 29 | 146 |
| Bwrdd Iechyd Lleol | 29 | 31 | 23 | 41 | 25 | 149 |
| Arall | 11 | 9 | 3 | 11 | 7 | 41 |
| Yr Heddlu | 19 | 23 | 23 | 26 | 25 | 116 |
| Gwasanaeth Prawf | | 1 | 1 | 1 | | 3 |
| Asiantaeth Ddarparu | 30 | 42 | 30 | 19 | 13 | 134 |
| Perthynas / Ffrind | 10 | 22 | 4 | 11 | 12 | 59 |
| Adrodd am eu hunain | 4 | 2 | 6 | 2 | 2 | 16 |
| Trydydd Sector | 9 | 5 | 4 | 8 | 4 | 30 |
| **Cyfanswm** | **150** | **169** | **132** | **148** | **123** | **722** |

Yr Awdurdod Lleol yw'r ffynhonnell uchaf o adroddiadau gyda 29 o adroddiadau'n cael eu gwneud gan staff yn yr Awdurdod Lleol a 25 o adroddiadau'n cael eu gwneud gan yr Heddlu a'r Bwrdd Iechyd Lleol o'i gymharu â Chwarter 2 lle mae'r Bwrdd Iechyd Lleol oedd y ffynhonnell uchaf o adroddiadau, wedi'i ddilyn gan yr Heddlu ac yna staff yr Awdurdod Lleol.  Yn Chwarter 2 a Chwarter 3 mae hunan-atgyfeiriadau yn isel iawn, gyda dim ond 2 adroddiad ym mhob chwarter yn cael ei wneud gan y sawl yr amheuir ei fod yn cael ei gam-drin neu ei esgeuluso.


Nifer yr adroddiadau o oedolion dan amheuaeth o fod mewn perygl a dderbyniwyd – Ffynhonnell yr Adroddiad
100%
90%
80%
70%
60%
50%
40%
30%
20%
10%
0%
Eiriolwr
Y Gwasanaeth Ambiwlans
Rheoleiddiwr Gofal
Ysbyty Annibynnol
Awdurdod lleol
Bwrdd Iechyd Lleol
Arall
Yr Heddlu
Gwasanaeth Prawf
Asiantaeth Ddarparu
Perthynas / Ffrind
Adrodd am eu hunain
Trydydd Sector
2020 - 2021 - Chwarter 3
2020 - 2021 - Chwarter 2
2020 - 2021 - Chwarter 1
2019 - 2020 - Chwarter 4
2019 - 2020 - Chwarter 3

| Ffynhonnell yr Adroddiad | Yr Heddlu | | |
|---|---|---|---|
| **Adroddiadau** | | | |
| **Rhif Adnabod Asesu** | **Labeli Colofn** | | |
| **Labeli Rhes** | **Na** | **Ie** | **Cyfanswm** |
| 2019-2020 – Chwarter 3 | 18 | 1 | 19 |
| 2019-2020 – Chwarter 4 | 12 | 11 | 23 |
| 2020-2021 – Chwarter 1 | 17 | 6 | 23 |
| 2020-2021 – Chwarter 2 | 12 | 14 | 26 |
| 2020-2021 – Chwarter 3 | 17 | 8 | 25 |
| **Cyfanswm** | **76** | **40** | **116** |





| Cyfnod | Na | Ie |
|---|---|---|
| 2019-2020 – Chwarter 3 | 149 | 1 |
| 2019-2020 – Chwarter 4 | 158 | 11 |
| 2020-2021 – Chwarter 1 | 126 | 6 |
| 2020-2021 – Chwarter 2 | 134 | 14 |
| 2020-2021 – Chwarter 3 | 115 | 8 |

| Corfforol | Ie |
|---|---|

**Corfforol**


| Rhif Adnabod Asesu<br>Labeli Rhes | Labeli Colofn<br>Gwryw | Benyw | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 2019-2020 – Chwarter 3 | 7 | 25 | 32 |
| 2019-2020 – Chwarter 4 | 17 | 31 | 48 |
| 2020-2021 – Chwarter 1 | 7 | 22 | 29 |
| 2020-2021 – Chwarter 2 | 10 | 25 | 35 |
| 2020-2021 – Chwarter 3 | 9 | 20 | 29 |
| **Cyfanswm** | **50** | **123** | **173** |




| Rhywiol | Ie |
|---|---|

**Rhywiol**


| Rhif Adnabod Asesu<br>Labeli Rhes | Labeli Colofn<br>Gwryw | Benyw | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 2019-2020 – Chwarter 3 | 2 | 9 | 11 |
| 2019-2020 – Chwarter 4 | 1 | 6 | 7 |
| 2020-2021 – Chwarter 1 | 2 | 4 | 6 |
| 2020-2021 – Chwarter 2 | 1 | 6 | 7 |
| 2020-2021 – Chwarter 3 | 2 | 5 | 7 |
| **Cyfanswm** | **8** | **30** | **38** |



| Emosiynol / Seicolegol | Ie |
|---|---|

**Emosiynol / Seicolegol**


| Rhif Adnabod Asesu | Labeli Colofn | | |
|---|---|---|---|
| Labeli Rhes | Gwryw | Benyw | Cyfanswm |
| 2019-2020 – Chwarter 3 | 13 | 36 | 49 |
| 2019-2020 – Chwarter 4 | 24 | 31 | 55 |
| 2020-2021 – Chwarter 1 | 24 | 37 | 61 |
| 2020-2021 – Chwarter 2 | 26 | 44 | 70 |
| 2020-2021 – Chwarter 3 | 28 | 40 | 68 |
| **Cyfanswm** | **115** | **188** | **303** |





| Ariannol | Ie |
|---|---|

**Ariannol**

| Rhif Adnabod Asesu | Labeli Colofn | | |
|---|---|---|---|
| Labeli Rhes | Gwryw | Benyw | Cyfanswm |
| 2019-2020 – Chwarter 3 | 30 | 27 | 57 |
| 2019-2020 – Chwarter 4 | 21 | 25 | 46 |
| 2020-2021 – Chwarter 1 | 10 | 16 | 26 |
| 2020-2021 – Chwarter 2 | 14 | 23 | 37 |
| 2020-2021 – Chwarter 3 | 14 | 17 | 31 |
| **Cyfanswm** | **89** | **108** | **197** |



| Esgeulustod | Ie | | |
|---|---|---|---|
| **Esgeulustod** | | | |
| **Rhif Adnabod Asesu** | **Labeli Colofn** | | |
| **Labeli Rhes** | **Gwryw** | **Benyw** | **Cyfanswm** |
| 2019-2020 – Chwarter 3 | 22 | 31 | 53 |
| 2019-2020 – Chwarter 4 | 28 | 35 | 63 |
| 2020-2021 – Chwarter 1 | 14 | 28 | 42 |
| 2020-2021 – Chwarter 2 | 29 | 23 | 52 |
| 2020-2021 – Chwarter 3 | 22 | 26 | 48 |
| **Cyfanswm** | **115** | **143** | **258** |





Y math o gam-drin a adroddir sy'n parhau'r uchaf yn gyson yn Chwarter 3 yw cam-drin emosiynol/seicolegol, a benywod yw'r nifer uchaf o ddioddefwyr cam-drin emosiynol/seicolegol. Cafwyd 68 o adroddiadau o gam-drin emosiynol/seicolegol yn y chwarter hwn a 70 yn Chwarter 2. Mae hyn yn gynnydd cyson ers Chwarter 4 y flwyddyn ddiwethaf lle roedd 55 o adroddiadau yn Chwarter 4 a 49 yn Chwarter 3.

Esgeulustod sy'n parhau i fod yr ail gategori uchaf a adroddir, gyda 48 yn y chwarter hwn a 52 yn Chwarter 2.

Bu gostyngiad yn nifer yr adroddiadau a dderbyniwyd mewn perthynas â cham-drin ariannol dros y flwyddyn o 57 yn Chwarter 3 y flwyddyn ddiwethaf i 31 yn Chwarter 3 y flwyddyn hon.

Yn Chwarter 4 y flwyddyn ddiwethaf roedd nifer uchel o adroddiadau yn ymwneud â cham-drin corfforol, ond mae hyn wedi gostwng dros y cyfnod hwn yn y flwyddyn.


**Adroddiadau a arweiniodd at ymholiadau**



| Rhif Adnabod Asesu | Labeli Colofn | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Labeli Rhes** | **Na – Arall (nodwch os gwelwch yn dda)** | **Na – Gwrthododd yr unigolyn gymryd rhan mewn ymholiad** | **Na – Nid oedd yr unigolyn yn oedolyn mewn perygl** | **Wedi arwain at ymholiad** | **Cyfanswm** |
| 2019-2020 – Chwarter 3 | 36 | 1 | 30 | 83 | 150 |
| 2019-2020 – Chwarter 4 | 35 | 1 | 34 | 99 | 169 |
| 2020-2021 – Chwarter 1 | 17 | 3 | 33 | 79 | 132 |
| 2020-2021 – Chwarter 2 | 25 | 1 | 35 | 87 | 148 |
| 2020-2021 – Chwarter 3 | 31 | 4 | 15 | 73 | 123 |
| **Cyfanswm** | **144** | **10** | **147** | **421** | **722** |


O'r adroddiadau a dderbyniwyd yn Chwarter 3, aeth 73 ymlaen at ymholiad, a chafodd 50 eu cau yn y cam adrodd o'i gymharu ag 87 a aeth ymlaen i ymholiad a 61 a gafodd eu cau yn y cam adrodd yn Chwarter 2. Mae angen gwneud mwy o waith dadansoddi i bennu pam rydym yn derbyn nifer uchel o adroddiadau nad ydynt yn mynd ymlaen i ymholiad, a gall mwy o waith codi ymwybyddiaeth gydag asiantaethau gael ei wneud ar atgyfeiriadau priodol.

| A ddylai'r adroddiad fynd ymlaen at ymholiad? | Ie – Wedi arwain at ymholiad | | |
|---|---|---|---|
| **Adroddiadau a arweiniodd at Ymholiad** | | | |
| **Rhif Adnabod Asesu** | **Labeli Colofn** | | |
| **Labeli Rhes** | **Ie** | **Na** | **Cyfanswm** |
| 2019-2020 – Chwarter 3 | 29 | 54 | 83 |
| 2019-2020 – Chwarter 4 | 53 | 46 | 99 |
| 2020-2021 – Chwarter 1 | 39 | 40 | 79 |
| 2020-2021 – Chwarter 2 | 24 | 63 | 87 |
| 2020-2021 – Chwarter 3 | 6 | 67 | 73 |
| **Cyfanswm** | **151** | **270** | **421** |





Dim ond 6 ymholiad gafodd eu cynnal gyda'r canlyniad bod angen rhoi cynllun amddiffyn ar waith ar unwaith, o'i gymharu â 24 yn Chwarter 2, ac mae hyn yn ostyngiad sylweddol o'r chwarteri blaenorol. Cafodd 3 o bobl eu gwneud yn ddiogel yn eu cartrefi eu hunain trwy gynllun amddiffyn gofal a chymorth, o ganlyniad i'r ymholiadau a gwblhawyd, 2 mewn lleoliad cartref gofal ac 1 mewn lleoliad gofal iechyd.  Cafodd 5 cynllun Gofal a Chymorth eu rhoi yn eu lle o ganlyniad i amheuaeth o gam-drin neu esgeulustod gan weithiwr cyflogedig a chafodd 1 ei roi yn ei le oherwydd cam-drin a/neu esgeulustod gan berthynas neu ffrind.


| CYSUR Cartrefi Eu Hunain | 1 |
|---|---|
| **Lle – Cartrefi Eu Hunain** | |
| **Labeli Rhes** | **Rhif Adnabod Asesu** |
| 2019-2020 – Chwarter 3 | 20 |
| 2019-2020 – Chwarter 4 | 27 |
| 2020-2021 – Chwarter 1 | 27 |
| 2020-2021 – Chwarter 2 | 13 |
| 2020-2021 – Chwarter 3 | 3 |
| **Cyfanswm** | **90** |





| CYSUR Yn y Gymuned | 1 |
|---|---|
| **Lle – Cymuned** | |
| **Labeli Rhes** | **Rhif Adnabod Asesu** |
| 2019-2020 – Chwarter 3 | 3 |
| 2019-2020 – Chwarter 4 | 9 |
| 2020-2021 – Chwarter 1 | 2 |
| 2020-2021 – Chwarter 2 | 5 |
| **Cyfanswm** | **19** |




| CYSUR Lleoliad Cartrefi Gofal | 1 |
|---|---|
| **Lle – Cartrefi Gofal** | |
| **Labeli Rhes** | **Rhif Adnabod Asesu** |
| 2019-2020 – Chwarter 3 | 6 |
| 2019-2020 – Chwarter 4 | 18 |
| 2020-2021 – Chwarter 1 | 9 |
| 2020-2021 – Chwarter 2 | 2 |
| 2020-2021 – Chwarter 3 | 2 |
| **Cyfanswm** | **37** |




| CYSUR Lleoliad Iechyd | 1 |
|---|---|
| **Lle – Iechyd** | |
| **Labeli Rhes** | **Rhif Adnabod Asesu** |
| 2019-2020 – Chwarter 4 | 4 |
| 2020-2021 – Chwarter 1 | 2 |
| 2020-2021 – Chwarter 2 | 5 |
| 2020-2021 – Chwarter 3 | 1 |
| **Cyfanswm** | **12** |




| Cyfnod | Cartrefi eu Hunain | Cymuned | Cartrefi Gofal | Iechyd |
|---|---|---|---|---|
| 2019-2020 – Chwarter 3 | 20 | 3 | 6 | 0 |
| 2019-2020 – Chwarter 4 | 27 | 9 | 18 | 4 |
| 2020-2021 – Chwarter 1 | 27 | 2 | 9 | 2 |
| 2020-2021 – Chwarter 2 | 13 | 5 | 2 | 5 |
| 2020-2021 – Chwarter 3 | 3 | 0 | 2 | 1 |





| | |
|---|---|
| Person – Gweithiwr Cyflogedig | 1 |

**Person – Gweithiwr Cyflogedig**

| **Labeli Rhes** | **Rhif Adnabod Asesu** |
|---|---|
| 2019-2020 – Chwarter 3 | 9 |
| 2019-2020 – Chwarter 4 | 27 |
| 2020-2021 – Chwarter 1 | 11 |
| 2020-2021 – Chwarter 2 | 7 |
| 2020-2021 – Chwarter 3 | 5 |
| **Cyfanswm** | **59** |



| Person – Perthynas / Ffrind | 1 |
|---|---|

**Person – Perthynas / Ffrind**


| Labeli Rhes | Rhif Adnabod Asesu |
|---|---|
| 2019-2020 – Chwarter 3 | 6 |
| 2019-2020 – Chwarter 4 | 21 |
| 2020-2021 – Chwarter 1 | 22 |
| 2020-2021 – Chwarter 2 | 14 |
| 2020-2021 – Chwarter 3 | 1 |
| **Cyfanswm** | **64** |

| **Person – Gwirfoddolwr / Gweithiwr Di-dâl** | 0 |
|---|---|


| Person – Defnyddiwr Gwasanaeth Arall | 1 |
|---|---|

**Person – Defnyddiwr Gwasanaeth Arall**


| Labeli Rhes | Rhif Adnabod Asesu |
|---|---|
| 2019-2020 – Chwarter 3 | 3 |
| 2020-2021 – Chwarter 1 | 1 |
| 2020-2021 – Chwarter 2 | 2 |
| **Cyfanswm** | **6** |



| Person – Arall | 1 |
|---|---|
| **Person – Arall** | |
| **Labeli Rhes** | **Rhif Adnabod Asesu** |
| 2019-2020 – Chwarter 3 | 11 |
| 2019-2020 – Chwarter 4 | 7 |
| 2020-2021 – Chwarter 1 | 6 |
| 2020-2021 – Chwarter 2 | 3 |
| **Cyfanswm** | **27** |




| | |
|---|---|
| 2019-2020 – Chwarter 3 | 11 |
| 2019-2020 – Chwarter 4 | 7 |
| 2020-2021 – Chwarter 1 | 6 |
| 2020-2021 – Chwarter 2 | 3 |
| 2020-2021 – Chwarter 3 | 0 |



| Cyfnod | Gweithiwr Cyflogedig | Perthynas / Ffrind | Gwirfoddolwr | Defnyddiwr Gwasanaeth Arall | Arall |
|---|---|---|---|---|---|
| **2019-2020 – Chwarter 3** | 9 | 6 | 0 | 3 | 11 |
| **2019-2020 – Chwarter 4** | 27 | 21 | 0 | 0 | 7 |
| **2020-2021 – Chwarter 1** | 11 | 22 | 0 | 1 | 6 |
| **2020-2021 – Chwarter 2** | 7 | 14 | 0 | 2 | 3 |
| **2020-2021 – Chwarter 3** | 5 | 1 | 0 | 0 | 0 |

| 2020-2021 – cyfarfodydd a gynhaliwyd yn Chwarter 3 | |
|---|---|
| Cyfarfodydd Strategaeth Gychwynnol | 8 |
| Cyfarfodydd Strategaeth Bellach | 5 |
| Cyfarfodydd Proffesiynol Cychwynnol | 4 |
| Cyfarfodydd Proffesiynol Pellach | 3 |

**Holiadur Gwerthuso Defnyddiwr Gwasanaeth:**
Mae hwn wedi'i gwblhau bellach ac wedi'i anfon at staff yn y tîm iddynt ddechrau ei ddefnyddio cyn gynted â phosibl. Cytunwyd os gall staff gael adborth gan unigolion a/neu deuluoedd dros y ffôn, dylent wneud hynny. Fodd bynnag, cydnabyddir bod natur y cwestiynau a ofynnir ar yr holiadur gwerthuso yn fwy addas ar gyfer cyfarfodydd wyneb yn wyneb, ac felly disgwylir i fwy gael eu cwblhau pan fyddwn yn gallu cynnal ymweliadau wyneb yn wyneb.

# Eitem Agenda 5

## Cyngor Sir CEREDIGION County Council

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu |
| **DYDDIAD:** | 16eg o Fehefin 2021 |
| **LLEOLIAD:** | O bell drwy Gynhadledd Fideo |
| **TEITL:** | Adroddiad ar Log Penderfyniadau Grŵp Rheoli Aur Covid-19 |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Darparu gwybodaeth am benderfyniadau'r Grŵp Rheoli Aur yn ystod cyfarfodydd a gynhaliwyd rhwng 1af Rhagfyr 2020 a 29ain Ebrill 2021 |
| **RHESWM CRAFFU DROS OFYN AM YR WYBODAETH:** | Heb ofyn |

**CEFNDIR:**

Ar y 25ain o Fawrth 2020, rhoddodd yr Arweinydd bwerau dirprwyedig dros dro i Brif Weithredwr y Cyngor a'r Grŵp Rheoli Aur, i wneud penderfyniadau ynghylch dogfen ymateb y Cyngor i COVID-19 (gweler (a) isod).

Cafodd y penderfyniad hwn ei adolygu, ac ar 2il Hydref 2020 cymeradwyodd yr Arweinydd y penderfyniad diwygiedig (gweler dogfen (b) isod). Bydd y ddogfen yn cael ei hadolygu yn Ionawr 2021.

Yn ystod y cyfnod cynhaliwyd Cyfarfodydd o'r Grŵp Rheoli Aur i drafod y pandemig Covid-19 a sut i ddelio'n effeithiol â'r sefyllfa. Mae'r Grŵp Rheoli Aur yn dal i gwrdd nifer o weithiau bob wythnos.

Mae llythyr Sicrwydd Dros Dro Adferiad Covid-19 Archwilio Cymru i'r Cyngor, dyddiedig 19eg Hydref 2020, yn crynhoi ei gasgliadau dros dro, yn seiliedig ar fonitro parhaus o'r broses addasu yn sgil effaith barhaus y pandemig. Yn yr Atodiad, mae Archwilio Cymru'n cyfeirio, fel rhan o drefniadau penderfynu ac addasu'r Cyngor, at y Log Penderfyniadau'n cael ei gynllunio ar gyfer ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor, ac ar gyfer adrodd i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu (gweler (c) isod).

Nododd y Pwyllgor Archwilio gynnwys y llythyr hwn yn ei gyfarfod ar 12fed Tachwedd 2020.

Mae'r Log Penderfyniadau'n rhestru'r penderfyniadau a wnaed yn ystod cyfarfodydd y Grŵp Rheoli Aur ers y cyfarfod cyntaf a gynhaliwyd ar 2il Mawrth 2020.

Cafodd y Log ei gyhoeddi gyntaf ar wefan y Cyngor ar 5ed Tachwedd 2020 (ar gyfer y penderfyniadau a wnaed hyd at 30ain Medi 2020).

Cyflwynwyd adroddiad gerbron y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ar 20fed Ionawr 2021. Ynghlwm i'r Adroddiad roedd y Log Penderfyniadau ar gyfer y penderfyniadau a wnaed ers y cyfarfod cyntaf a gynhaliwyd ar 2il Mawrth 2020 hyd at (a chan gynnwys) y penderfyniadau a wnaed ar 30ain Tachwedd 2020. Cafodd y Log ei gyhoeddi gyntaf ar wefan y Cyngor ar 5ed Tachwedd 2020 (ar gyfer penderfyniadau a wnaed hyd at 30ain Medi 2020).
(Adroddiad ar gael ar
http://www.ceredigion.gov.uk/cpdl/Democratic_Services_Meetings_Public/Coord%20agenda%20pack%20200121%20FINAL%20English%20v2.pdf)

**SEFYLLFA BRESENNOL**
Mae'r Log Penderfyniadau ar gyfer penderfyniadau a wnaed yn ystod cyfarfodydd y Grŵp Rheoli Aur rhwng 3ydd Rhagfyr 2020 a 26ain Chwefror 2021 wedi'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor (Gweler **Atodiad 1** isod a dolen (f) isod).

Mae'r Log Penderfyniadau ar gyfer penderfyniadau a wnaed yn ystod cyfarfodydd y Grŵp Rheoli Aur rhwng 2il Mawrth 2021 a 29ain Ebrill 2021 wedi'i baratoi erbyn hyn hefyd (Gweler **Atodiad 2** ynghlwm) a bydd yn cael ei cyhoeddi ar wefan y Cyngor: https://www.ceredigion.gov.uk/resident/coronavirus-covid-19/governance/)

Mae dolenni i ddogfennau perthnasol i'w gweld isod:

(a) Cofnod o Benderfyniad Brys – 'Paratoi ar gyfer Covid-19'
https://www.ceredigion.gov.uk/media/6833/cofnod-o-benderfyniad-brys-record-of-urgent-decision.pdf
(b) Cofnod o Benderfyniad Brys - 'Parhau i ymateb i Covid-19'
https://www.ceredigion.gov.uk/media/7784/adolygiad-parhau-i-ymateb-i-covid-19-review-continuing-to-respond-to-covid-19-medi-september-2020.pdf
(c) Llythyr Sicrwydd Dros Dro Adferiad Covid-19 Archwilio Cymru dyddiedig 19eg Hydref 2020
http://www.ceredigion.gov.uk/cpdl/Democratic_Services_Meetings_Public/1%20Audit%20Wales%20Report%20combined%20(s).pdf.
(d) Log Penderfyniadau – 2/3/2020 i 30/9/2020:
http://www.ceredigion.gov.uk/media/7973/ccc-gold-command-decision-log_-march-september-2020.pdf
(e) Log Penderfyniadau – 1/10/2020 i 30/11/2020:
http://www.ceredigion.gov.uk/media/8318/decision-log-of-gold-command-decisions-between1102020-and-30112020.pdf
(f) Log Penderfyniadau – 3/12/2020 i 26/02/2021
https://www.ceredigion.gov.uk/media/8990/record-of-gold-command-decisions-1122020-2622021.pdf

| | |
|---|---|
| **LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:** | **A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig?** Naddo<br>**Os naddo, esboniwch pam**<br>***Crynodeb:*** *Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu gwybodaeth ac nid yw'n cynrychioli unrhyw newid polisi neu strategaeth.* |

**Hirdymor:** Mae'r Log Penderfyniadau'n gofnod o benderfyniadau a wnaed gan y Grŵp Rheoli Aur gyda'r nod o gydbwyso angen tymor byr â chynllunio hirdymor ar gyfer y dyfodol yng ngoleuni'r pandemig.

**Integreiddio:** Mae'r Log Penderfyniadau'n gofnod o benderfyniadau a wnaed gan y Grŵp Rheoli Aur gyda'r nod o gael effaith bositif ar bobl, yr economi, yr amgylchedd a diwylliant, a cheisio sicrhau budd i bob un o'r tri hyn yng ngoleuni'r pandemig.

**Cydweithio:** Mae'r Log Penderfyniadau'n cyfeirio at benderfyniadau a wnaed gan y Grŵp Rheoli Aur, gan gydweithio â phartneriaid eraill i'w cyflenwi.

**Cynnwys:** Mae'r Log Penderfyniadau'n cyfeirio at benderfyniadau sy'n cynnwys ac yn gofyn barn y rhai sydd â diddordeb, gan gynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid ac ymgynghori.

**Atal:** Mae'r Log Penderfyniadau'n cyfeirio at benderfyniadau a wnaed gan y Grŵp Rheoli Aur oedd yn golygu bod adnoddau'n cael eu defnyddio i atal neu reoli problemau yn sgil y pandemig presennol

**ARGYMHELLIAD/ARGYMHELLION:** Nodi cynnwys yr Adroddiad a chynnwys Cyfarfodydd Grŵp Rheoli Aur Covid-19 fel y'u gwelir yn y Log Penderfyniadau amgaeedig **(Atodiadau 1 a 2**).

**RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD/ARGYMHELLION:** Monitro'r modd y mae trefniadau penderfynu'r Cyngor er mwyn addasu'n cael eu llywodraethu.

**Enw Cyswllt:** Elin Prysor

**Teitl:** Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyfreithiol a Llywodraethu (a Swyddog Monitro)

**Dyddiad yr Adroddiad:** 19.05.2021

**Acronymau:** Amherthnasol

| | |
|---|---|
| **Atodiadau:** | **Atodiad 1** – Log Penderfyniadau'r Grŵp Rheoli Aur (penderfyniadau a wnaed rhwng 1af Rhagfyr 2020 a 26ain Chwefror 2021)<br>**Atodiad 2** – Log Penderfyniadau'r Grŵp Rheoli Aur (penderfyniadau a wnaed rhwng 2il Mawrth 2021 a 29ain Ebrill 2021) |

**Atodiad 1**

| **Cofnod o Benderfyniadau'r Grŵp Rholi Aur – Penderfyniadau a wnaed mewn cyfarfodydd a gynhaliwyd rhwng y 3ydd o Ragfyr 2020 a'r 26ain o Chwefror 2021** | | |
|---|---|---|
| 154 | 03.12.20 | Dylid cynnig ar frys i Fwrdd Iechyd Hywel Dda bod yr uned profi symudol yn symud o Aberteifi yn ôl i Aberystwyth oherwydd y cynnydd yn nifer yr achosion yn yr ardal dros y diwrnodau diwethaf, a'r ffaith bod yr ymyraethau a roddwyd ar waith yn Aberteifi ddechrau'r wythnos ddiwethaf wedi cael effaith gadarnhaol. |
| | | Bydd system ar alwad ar gyfer ceisiadau am gyfarpar diogelu personol ('PPE') yn cael ei defnyddio yn ystod gwyliau'r Nadolig gan ddefnyddio rhif ffôn y tu allan i oriau Amser Haf Dwyrain America. |
| | | Gwrthod cais i ffilmio yn y Borth, yn unol ac yn gyson â barn y Grŵp Reoli Aur ynghylch ceisiadau i ffilmio mewn ysgolion a'r pryderon ynghylch cyfraddau heintio yn cynyddu yn Aberystwyth. |
| | | Cymeradwyo defnyddio'r car symudedd ar y ddealltwriaeth nad oedd Canolfan Padarn ei hun yn cael ei defnyddio ar gyfer unrhyw weithgareddau. |
| | | Caniatáu i gontractwyr allanol ddosbarthu offer newydd a gwneud gwaith cynnal a chadw ar yr offer argraffu presennol. |
| | | Peidio ag ailddechrau'r ganolfan galw heibio ar gyfer rhoi cymorth Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu ('TGCh') yn Neuadd y Sir yn Aberaeron ar hyn o bryd. |
| | | Ailddechrau'r gwasanaeth clicio a chasglu yn Llyfrgell Aberteifi a'r gwasanaeth llyfrgell symudol yn Ne Ceredigion os bydd y Grŵp Reoli Aur yn cytuno i ailagor ysgolion yn Aberteifi o ddydd Llun yn ystod cyfarfod y Grŵp Rheoli Aur yfory. |
| | | Cefnogi, mewn egwyddor, gynnwys y Sir yn rhaglen dreialu'r Cynllun Llwybr ar gyfer staff gofal cartref a gweithwyr galluogi yn y lle cyntaf. Mae'r cynnig yn gysylltiedig â chymryd rhan mewn prosiect ar gyfer profi asymptomatig gan ddefnyddio profion llif unffordd hunan-brofi. |

| | | |
|---|---|---|
| 155 | 04.12.20 | Gan fod y gyfradd fesul 100k o'r boblogaeth yn Aberteifi wedi parhau i ostwng bob dydd yr wythnos hon, gallai'r canlynol ddigwydd o ddydd Llun y 7fed o Ragfyr 2020:<br>• Gallai'r 7 ysgol yn ardal Aberteifi oedd wedi cau ailagor;<br>• Gallai'r gwasanaeth Dechrau'n Deg / Flying Start ailagor;<br>• Gallai busnesau yn nhref Aberteifi ailagor;<br>• Gallai campws Coleg Ceredigion ailagor;<br>• Bydd y Parth Diogel yn cael ei godi yn Aberteifi;<br>• Bydd codi tâl mewn meysydd parcio yn ailddechrau.<br>• Bydd staff Llyfrgell Aberteifi yn dechrau ar y gwaith o ailddechrau'r Gwasanaeth Clicio a Chasglu ddydd Mawrth yr 8fed o Ragfyr 2020. |
| | | Cymeradwyo'r cynnig arfaethedig i gynnal cyfarfod olaf bob mis y Grŵp Goruchwylio Rhanbarthol Atal ac Ymateb fel cyfarfod gydag aelodaeth ychwanegol a bod ganddo swyddogaeth Tîm Rheoli Digwyddiadau Rhanbarthol ('IMT'), fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru. |
| | | Ni ddylid gwahodd Arolygiaeth Gofal Cymru i'r Tîm Rheoli Digwyddiadau Rhanbarthol gan ei fod yn groes i'w swyddogaeth fel corff rheoleiddio. |
| | | Gall Porth Cymorth Cynnar, Gwasanaeth Llesiant a Dysgu'r Cyngor, ailddechrau rhywfaint o waith cymorth ac ymyrraeth gymunedol â ffocws ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd mwyaf hyglwyf Ceredigion, yn unol â'r mesurau a nodwyd yn y Papur cynnig (Papur Opsiynau ar gyfer ailddechrau rhai gwasanaethau cymorth ac ymyrraeth gymunedol ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd mwyaf hyglwyf Ceredigion). |
| | | Nid oes angen i'r holl safleoedd gwastraff cartref agor ar Noswyl Nadolig. |
| 156 | 08.12.20 | Ni fydd y tîm olrhain cysylltiadau yn adolygu'r achosion positif o Covid-19 yn ôl-weithredol oherwydd newid yn y rheoliadau hunanynysu, a bydd y tîm olrhain cysylltiadau yn defnyddio 10 diwrnod yn hytrach nag 14 diwrnod o'r dyddiad y caiff ei weithredu'n genedlaethol. |
| | | Ni ddylid defnyddio staff y Parth Coch sy'n delio â'r cyhoedd ar gyfer rolau gwirfoddol yn y canolfannau brechu. Roedd pryderon diogelwch a dylai'r Cyngor amddiffyn plant/pobl oedrannus neu grwpiau hyglwyf eraill cyn belled â phosibl. |

| | | |
|---|---|---|
| 157 | 10.12.20 | Nid dyma'r amser i'r grŵp Croeso Teifi (adsefydlu teuluoedd o Syria yn Aberteifi) ddechrau ar y trefniadau i ddod â theulu arall o ffoaduriaid i Aberteifi yn wyneb maint pandemig Covid-19 a'r materion sy'n gysylltiedig â phenderfyniad y Swyddfa Gartref i gartrefu nifer sylweddol o ffoaduriaid ym Mhenalun, Sir Benfro. |
| 158 | 11.12.20 | Derbyn cyfrifoldeb dros weinyddu Grant Ardrethi Annomestig y Gronfa i Fusnesau dan Gyfyngiadau ar ran Llywodraeth Cymru, a dilyn y telerau ac amodau a nodir yn y dogfennau canllaw. |
| | | Ni fyddai'r Cyngor mewn sefyllfa i ganiatáu i Fwrdd Iechyd Hywel Dda ddefnyddio Canolfan Padarn fel canolfan hyfforddi ar gyfer staff cymorth gofal iechyd oherwydd bod defnyddwyr gwasanaeth yn defnyddio rhan o'r safle. |
| | | Mae angen gwasanaeth TGCh ar ddydd Nadolig oherwydd bod staff tracio ac olrhain yn gweithio. |
| | | Cytunwyd ar y cynigion ar gyfer gwasanaeth TGCh dros y Nadolig, fel y manylir yn yr adroddiad (adroddiad ar y trefniadau cymorth TGCh dros wyliau'r Nadolig). |
| | | Talu staff cyfradd fesul diwrnod am yr oriau y maent yn eu gweithio yn hytrach na chyfradd ar alwad wrth gefn. |
| 159 | 15.12.20 | Peidio â chymeradwyo'r cynnig yn y papur Llety Dros Dro oherwydd ni ddylai'r Cyngor fod yn annog unrhyw ymddygiad sy'n mynd yn groes i'r rheolau a'r rheoliadau ynghylch cymdeithasu dros gyfnod y Nadolig. |
| | | Bydd grŵp bach o Swyddogion y Cyngor yn gweithio gyda'i gilydd ar gynllun gweithredu i ystyried rhoi profion llif unffordd ar waith mewn ysgolion uwchradd yn seiliedig ar ganlyniadau o safle peilot cychwynnol, ond y cafeat yw bod angen i'r dyfeisiau gael eu cymeradwyo i'w defnyddio gan staff anfeddygol ymlaen llaw. |
| | | Caiff yr holl hysbysiadau cosb penodedig a hysbysiadau cau eu cyfathrebu trwy ddatganiadau i'r wasg a phostiadau ar y cyfryngau cymdeithasol tra bo hysbysiadau gwella yn cael eu rhoi ar wefan y Cyngor yn unig. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Gwneud y penderfyniadau canlynol ynghylch dysgu o bell mewn ysgolion rhwng y 14eg a'r 18fed o Ragfyr 2020:<br>• Bydd y Cyngor yn sicrhau darpariaeth ar gyfer plant gweithwyr hanfodol rhwng 8.30am-4.00pm mewn 3 safle gwahanol ar draws y Sir – Ysgol Llwyn yr Eos, Ysgol y Dderi a Chanolfan Enfys Teifi, Aberteifi;<br>• Mae'r Cyngor wedi diffinio gweithwyr hanfodol fel rhai lle mae'r ddau riant neu riant sengl yn gweithio i'r gwasanaethau iechyd rheng flaen neu wasanaethau gofal;<br>• Mae'r Panel Ymddygiad a Llesiant, gyda mewnbwn gan y Gwasanaethau Cymdeithasol, wedi nodi'r plant a'r bobl ifanc sydd i'w targedu rhwng y 15fed a'r 18fed o Ragfyr 2020. Caiff y disgyblion hyglwyf hyn gymorth trwy amrywiaeth o ddarpariaeth, gan gynnwys galwadau llesiant dyddiol gan eu hysgolion;<br>• Gall disgyblion hyglwyf iawn, e.e. plant ar y gofrestr amddiffyn plant fynychu'r hyb gofal plant yn dilyn cais gan y gwasanaethau cymdeithasol;<br>• Bydd disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim yn cael taleb/taliad BACS yn unol â'r dull arferol. |
| | | Cymeradwyo'r cynnig i ychwanegu 149 diwrnod at adnewyddiadau ar gyfer adnewyddu trwyddedau eiddo 3 blynedd a 5 mlynedd ar gyfer priodasau a phartneriaethau sifil. |
| 160 | 17.12.20 | Byddai'r Cyngor yn parhau i ddarparu taliadau Dull Sefydlogi Ariannol Ewropeaidd ar gyfer y cyfnod cyfredol hwn er na fydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r taliadau. |
| | | Cadw'r gorchmynion yn eu lle wrth fynd i mewn i'r Flwyddyn Newydd i beidio â chau'r ffyrdd yn Aberystwyth, Aberteifi a Cheinewydd, a chadw'r trefniadau fel y maent yn Aberaeron. I'w hadolygu eto ym mis Ionawr 2021. |
| | | Derbyn cynllun cyllido Llywodraeth Cymru ar gyfer Podiau Ymweld â Chartrefi Gofal. |
| | | Gwrthod y cais gan yr RNLI i ddefnyddio Pwll Cam yn Harbwr Aberaeron ar gyfer digwyddiad hyfforddi ym mis Ionawr 2021 yn bennaf oherwydd y math o ddigwyddiad, y niferoedd dan sylw, a'r posibilrwydd y gallai ddenu torf fawr. |
| | | Cymryd rhan yn y system Stockwatch a rhannu data stoc i mewn/stoc allan, yn ôl y gofyn (cais gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae Stockwatch yn system a weithredir dros Gymru gyfan sy'n cofnodi nifer y gwahanol stociau o PPE sydd gan bob sefydliad (y rhai sydd ar y system). |

| | | |
|---|---|---|
| 161 | 18.12.20 | Cymeradwyo addasiadau arfaethedig y Gwasanaeth Economi ac Adfywio ar gyfer symud i Lefel Rhybudd 4 (Covid-19). |
| | | Parhau â'r gwaith ar bob safle adeiladu trwy Lefel Rhybudd 4, ac eithrio safle dymchwel Arriva.<br><br>Atgoffa contractwyr bod yn rhaid iddynt ddilyn yn gaeth y mesurau risg yn eu Hasesiadau Risg a Datganiadau Dull neu caiff y safle perthnasol ei gau yn ystod Lefel Rhybudd 4. Os gwelir eu bod heb gydymffurfio, y nhw fydd yn gyfrifol am roi'r gorau i'r gwaith ar y safle. |
| | | Bydd Gwasanaeth Clicio a Chasglu'r Llyfrgelloedd yn parhau ar gau yn ystod Lefel Rhybudd 4. |
| | | Cefnogi parhau â gwasanaeth y Cofrestrydd yng Nghanolfan ar sail 2 + 1 (ar diwrnodau seremoni neu yn Neuadd y Sir). |
| | | Cytuno ar y cynigion canlynol ynghylch addasiadau cyfnod clo Lefel Rhybudd 4:<br>• Mae gan yr Ystafell Bost a TGCh 4 aelod o staff yng Nghanolfan Rheidol;<br>• Y Gwasanaeth Rheoli Gwybodaeth/Clicio ac Archifo i barhau i weithio gartref. |
| 162 | 21.12.20 | Dylai safleoedd gwastraff cartref parhau ar agor ar ôl gwyliau'r Nadolig yn ôl yr arfer gyda'r un trefniadau yn eu lle a negeseuon clir eu bod at ddefnydd hanfodol yn unig. |
| | | Cau'r llyfrgelloedd gan gynnwys y gwasanaeth clicio a chasglu a'r gwasanaeth symudol, a'i adolygu yn y flwyddyn newydd. |
| | | Parhau i godi tâl am barcio ceir yn ystod cyfnod clo Lefel Rhybudd 4 gan ddefnyddio'r systemau talu heb arian parod. |
| | | Oherwydd y pwysau sy'n gysylltiedig â Covid-19 bydd penawdau cyllideb lefel uchel yn cael eu darparu i'r Cyngor ar gyfer cyllideb y flwyddyn nesaf, a bydd hwnnw a diffygion yn cael eu priodoli i'r Grŵp Arweinyddiaeth i'w trafod ar y cyd. |
| 163 | 22.12.20 | Cymeradwyo cais i sefydlu'r Grŵp Rheoli Arian Marwolaethau Ychwanegol yn y flwyddyn newydd i ddechrau'r gwaith cynllunio. |
| | | Dylai'r baneri 'Aros Gartref. Achub Bywydau' a 'Gofalu am eich Swigen' gael eu harddangos ar draws y Sir dros gyfnod y Nadolig a'r cyfnod clo Rhybudd Lefel 4. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Parhau i ail-bostio'r neges yn y cyfryngau cymdeithasol ynghylch pryderon am gyfraddau heintio yn Aberystwyth dros gyfnod y Nadolig. |
| 164 | 24.12.20 | Amherthnasol. |
| 165 | 04.01.21 | Cymeradwyo'r penderfyniad na fyddai disgyblion Blwyddyn 11-13 yn dychwelyd i'r ysgol ar y 6ed o Ionawr 2021, sy'n golygu y bydd yr holl flynyddoedd ysgol yng Ngheredigion yn dysgu o bell yn ystod wythnos gyntaf y tymor. |
| 166 | 05.01.21 | Cytuno ar y trefniadau ysgol arfaethedig y bydd dysgu o bell yn cael ei ddarparu tan y 18fed o Ionawr 2021 yn y lle cyntaf, ond y gall disgyblion hyglwyf a phlant gweithwyr hanfodol sy'n bodloni'r meini prawf y cytunwyd arnynt fynychu'r ysgol yn ystod y cyfnod hwn. |
| | | Bydd y meini prawf i weithwyr hanfodol/allweddol gael mynediad at ddarpariaeth gofal plant mewn ysgolion yn cael eu gosod ar un rhiant/gofalwr, sef gweithiwr hanfodol yn y gwasanaethau iechyd, gofal, yr heddlu neu'r gwasanaethau brys. |
| | | Bydd y meini prawf i ddisgyblion hyglwyf gael mynediad i'r ysgol yn rhoi blaenoriaeth i ddisgyblion ar y Gofrestr Amddiffyn Plant a disgyblion lle mae lleoliad Plant sy'n Derbyn Gofal mewn perygl o chwalu. Gellir gwahodd disgyblion eraill, fel disgyblion sydd â Chynlluniau Gofal a Chymorth, i fynychu'r ysgol 2 ddiwrnod yr wythnos i ddechrau. |
| | | Dylid enwebu'r holl staff ysgol sy'n darparu gofal i blant hyglwyf ar gyfer eu cynnwys ar y rhestr frechu Categori 1 sy'n cael ei llunio gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Porth Gofal ar gyfer y Bwrdd Iechyd. |
| | | Os yw staff addysgu yn gweithio o gartref ac yn dysgu o bell dylid recordio'r gwersi hynny at ddibenion diogelu, ond pan fyddant yn addysgu'n rhithwir o leoliad ysgol nid oes angen recordio'r gwersi. |
| | | Gellir rhoi rhyddhad Adran 49 (Deddf Llywodraeth Leol 1988) i eiddo am y cyfnod clo fel y nodir yn y cais Adran 49 ynghlwm. |
| | | Gohirio'r penderfyniad ynghylch staff llyfrgell yn cael mynediad i Lyfrgell Aberystwyth a Glanyrafon. Bydd y cais yn cael ei ailgyflwyno yn ystod wythnos gyntaf mis Chwefror pan fyddant mewn sefyllfa well i asesu risg ac effaith amrywiolyn newydd Covid-19. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Gellid llacio dros dro cyfnod craidd 4 awr yn y cynllun oriau hyblyg oherwydd y ffaith nad yw plant yn mynychu ysgolion ar hyn o bryd. Cytunwyd y byddai'r oriau hyblyg rhwng 6am a 9pm yn cael eu cadw. |
| 167 | 07.01.21 | Bydd y Swyddog Brexit ac Argyfyngau Sifil Posibl yn mynychu grŵp adnoddau'r Fforwm Cydnerthu Lleol i asesu a oedd cynrychiolydd penodedig o'r adran Adnoddau Dynol yn briodol. |
| | | Derbyn y cynnig am gymorth ar y cyd i ddefnyddio cyfleuster corffdy Nant y Ci yn Sir Gaerfyrddin, os oes angen. |
| 168 | 08.01.21 | Goleuo'r Castell a'r Bandstand yn borffor yn Aberystwyth i ddathlu Diwrnod Cofio'r Holocost ar y 27ain o Ionawr 2021. |
| 169 | 12.01.21 | Cymeradwyo ymweliad llesiant/stepen drws â theulu, fel y manylir yn yr Adroddiad. |
| | | Cau'r maes parcio yn rhannol yng Nghanolfan Hamdden Plascrug at ddefnydd y cyhoedd a throsglwyddo'r cyfrifoldeb am ei reoli i Fwrdd Iechyd Hywel Dda hyd oni hysbysir fel arall. |
| | | Dylid cau'r Hawliau Tramwy Cyhoeddus/Llwybr Beicio sy'n rhedeg o flaen Canolfan Hamdden Plascrug tra bo'r Ysbyty Maes ar waith. |
| | | Cytuno ar y dull arfaethedig o ddarparu profion llif unffordd ar gyfer y Tîm Galluogi. |
| 170 | 14.01.21 | Bydd yr Uned Profi Symudol yn parhau wedi'i lleoli ym Mhenmorfa, Aberaeron am y pythefnos nesaf. |
| | | 1. Mae'r penderfyniad gwreiddiol a wnaed yng nghyfarfod 141 (03.11.2020), fel y'i diwygiwyd, ynghylch trwyddedau perfformiad plant, wedi dod i ben;<br>2. Pob cais i'w benderfynu yn ôl ei rinweddau;<br>3. Rhaid i'r Grŵp Rheoli Aur wneud penderfyniadau ynghylch trwyddedau perfformiad plant trwy lens COVID-19 er mwyn amddiffyn iechyd y cyhoedd;<br>4. Bydd y Gwasanaeth Cyfreithiol yn asesu pob cais i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol;<br>5. Bydd y Gwasanaeth Ysgolion yn darparu datganiad ynghylch effaith trwydded ar addysg plentyn. |
| | | Ni ellir ailddechrau ymweliadau safle Rheoli Datblygu nes bod cyfyngiadau Lefel Rhybudd 4 yn cael eu codi. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Gwrthod y cynnig i staff ymweld yn gorfforol â safle Cam 2 Digartrefedd/Llety Dros Dro er mwyn cydgysylltu â chontractwyr ac asiantau. Bydd y tîm yn ystyried strategaethau arloesol a chreadigol i gyflawni'r amcanion ac adrodd yn ôl gyda chynigion a chyfiawnhad pellach os na ellid cyflawni'r tasgau o bell. |
| 171 | 15.01.21 | Cymeradwyo'r egwyddor a'r broses arfaethedig ar gyfer Gwasanaeth Cwnsela Ysgolion ar-lein. |
| | | Gellir rhyddhau gohebiaeth ychwanegol ar y cyfryngau cymdeithasol dros y penwythnos ynghylch yr Hybiau Gofal Plant. |
| | | Gwrthod y cais gan gwmni cyfryngau i ffilmio yn Aberystwyth oherwydd cyfyngiadau Lefel Rhybudd 4. |
| 172 | 19.01.21 | Cytuno â phenderfyniad y grwpiau staff ar y rheng flaen fel y nodir yn yr Adroddiad Diweddaru Brechu Torfol i fynychu Canolfan Rheidol, gan gynnwys ychwanegu grwpiau staff hanfodol Covid-19 pellach, gan gynnwys:<br>• Cofrestryddion;<br>• Staff Cyswllt Cwsmeriaid Hanfodol e.e. staff ystafell bost;<br>• Staff TGCh hanfodol;<br>• Gwasanaethau cyfleusterau (gwasanaethau arbenigol ymateb i Covid-19 e.e. cymylu ac ati);<br>• Priffyrdd – Tîm ar Ddyletswydd y Tu Allan i Oriau. |
| 173 | 21.01.21 | Prynu'r masgiau wyneb P3 a'r citiau gosod fel y nodir yn Adroddiad Diweddaru PPE. |
| | | Bydd penderfyniad ar yr hyfforddiant stacio paledi yn cael ei ohirio tan ar ôl i'r cyfyngiadau cyfnod clo presennol gael eu codi. |
| | | Cefnogi penderfyniad a wnaed gan y panel i gynnig rhyddhad cyfradd Adran 49 (Deddf Llywodraeth Leol 1988) i fusnesau am y cyfnod 01.04.2020 i 31.03.2021, sy'n cyfateb i £9362.50. |
| | | Ceisiadau am drwydded perfformiad plant yn cael eu caniatáu, yn amodol ar ddarparu'r dogfennau sy'n aros i'w cyflwyno, ac amod trwyddedu ychwanegol. Ceisir ymrwymiad ysgrifenedig gan rieni'r plant y byddant yn cymryd y mesurau ynysu priodol er mwyn peidio â chyfaddawdu diogelwch y grwpiau rheoli ysgolion priodol ar ôl ffilmio. Pe bai hynny'n golygu bod yn absennol o'r ysgol yna byddai hynny'n cael ei ystyried yn absenoldeb diawdurdod gan y Cyngor. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cytuno, mewn egwyddor, i'r gwaith ddechrau ar roi to newydd ar Ysgol Bro Sion Cwilt ac i fanylion pellach gael eu cyflwyno i'r Grŵp Rheoli Aur pan fydd y contractwr wedi'i ddewis cyn dechrau'r gwaith. |
| | | Tra bo'r Sir yn y cyfnod clo ar Lefel Rhybudd 4, bydd pob cais am ffilmio yn cael ei wrthod. |
| 174 | 22.01.21 | Ni wnaed unrhyw benderfyniadau |
| 175 | 26.01.21 | O ran cais gan Gynghorydd i gynnal ymweliad safle mewn person â lesddeiliaid newydd eiddo masnachol canol tref, y peth gorau fyddai peidio â chwrdd â'r lesddeiliaid mewn person, oherwydd cyfyngiadau presennol y cyfnod clo gan nad yw i'w weld yn hanfodol. Byddai'n well cynnal y cyfarfod o bell.<br><br>Byddai staff Economi a Datblygu'r Cyngor hefyd ar gael i helpu gyda'r cyfarfod, yn ôl yr angen. |
| | | Cefnogi'r farn i beidio â chymeradwyo'r Strategaeth Profi Cymunedol arfaethedig yn seiliedig ar y profion llif unffordd os caiff ei drafod yn y cyfarfod y Tîm Rheoli Digwyddiadau Rhanbarthol ddydd Gwener yma. |
| 176 | 28.01.21 | Dylid cyfathrebu â grwpiau darparwyr allanol canlynol i egluro sut y gallant gysylltu â Bwrdd Iechyd Hywel Dda i drefnu apwyntiad brechu:<br>• Trefnwyr Angladdau;<br>• Staff Cartrefi Gofal Allanol;<br>• Darparwyr Gofal Cartref;<br>• Diverse Cymru (elusen); a<br>• Darparwyr tai â chymorth/byw â chymorth. |
| | | Contractwyr i gael mynediad i Ysgol Henry Richard rhwng y 13eg o Chwefror 2021 a'r 18fed o Chwefror 2021 i gwblhau diffygion a thrwsio'r to sy'n gollwng. |
| | | Yn wyneb cyfyngiadau presennol y cyfnod clo, gwrthododd y Grŵp Rheoli Aur y cais i ffilmio. Roedd hyn yn gyson â cheisiadau diweddar eraill ac yn cydnabod bod y cyfyngiadau presennol hefyd yn debygol o barhau. |
| 177 | 29.01.21 | Byddai'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Porth Ceredigion yn cynrychioli'r awdurdod ar y grŵp rhanbarthol i ystyried a thrafod y profion llif unffordd. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Gall y gwaith adeiladu ar y cyswllt Llwybrau Diogel Llanbadarn i Ganol y Dref trwy Ysgol Penweddig fynd rhagddo, yn amodol ar brotocolau llym Covid-19. |
| | | Cymeradwyo'r cynnig i gludo staff cynnal a chadw dros y gaeaf mewn cerbydau 4x4 er mwyn iddynt allu cyflawni eu dyletswyddau mewn tywydd gwael. |
| | | Cymeradwyo'r lefel bresennol ar gyfer mabwysiadu profion llif unffordd ni fwriedir mynd ymhellach nes bod mwy o dystiolaeth o'u heffeithiolrwydd. |
| | | Awgrymu syniadau am eitemau ar gyfer darllediad BBC Radio 5 Live y mae Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn eu trefnu ar gyfer y 10fed o Chwefror 2021, ar yr amod y gellir ei wneud yn rhithwir. |
| | | Y lle gorau i ddod o hyd i'r offer fideo i staff roi tystiolaeth o bell yn yr achos hwn yw Penmorfa. |
| 178 | 02.02.21 | Ni fyddai'r model arfaethedig i roi profion llif unffordd ar gyfer staff arlwyo peripatetig yn cael ei weithredu nes bod preswylwyr a staff cartref gofal a staff arlwyo (gan gynnwys staff peripatetig) i gyd wedi derbyn y ddau frechiad. |
| | | Gohirio'r penderfyniad i ailagor Gwasanaeth Clicio a Chasglu'r Llyfrgelloedd, ac a ddylid cynnig y gwasanaeth cymorth digidol ar gyfer y cyfrifiad am bythefnos er mwyn ystyried statws y pandemig yn lleol ac yn genedlaethol. |
| | | Bydd contractwyr ac ymgynghorwyr yn cael mynediad i Ysgol Uwchradd Aberteifi rhwng yr 8fed o Chwefror 2021 a'r 12fed o Chwefror 2021 i gwblhau'r arolygon sy'n ofynnol ar gyfer y Contract Dylunio ac Adeiladu ar yr amod bod yr holl eithriadau ac elfennau gweithdrefnol yn eu lle. |
| | | Nid yw barn y Grŵp Reoli Aur o ran ymweld â chartrefi gofal wedi newid. Mae cyfyngiadau Lefel Rhybudd 4 yn dal i fod yn eu lle a hyd nes y'u codir ni ddylid ymweld â chartrefi gofal oni bai bod amgylchiadau eithriadol (diwedd oes) ac mae asesiad risg yn ei le. |
| | | Bydd diffiniad y Cyngor o 'weithiwr hanfodol' yn aros yr un fath. |
| | | Ni ddylid gwneud unrhyw waith pellach ar gyflwyno profion llif unffordd ar gyfer staff gofal cymdeithasol ar y rheng flaen nes bod cynllun rhanbarthol wedi'i gytuno. |

| | | |
|---|---|---|
| 179 | 04.02.21 | Bydd y Cyngor yn parhau i arddel disgresiwn lleol at ddibenion nodi staff ar gyfer grŵp blaenoriaeth 2 i gael brechiadau yn unol â'r canllawiau cyfredol. |
| | | Cytuno y gall meddygfa leol ddefnyddio Neuadd Chwaraeon Ysgol Bro Teifi ar gyfer sesiwn frechu ar y 6ed o Chwefror 2021 yn amodol ar dri amod:-<br>1. Bod cytundeb ysgrifenedig yn ei le;<br>2. Bod staff yn cadw at y cyngor Iechyd a Diogelwch ynghylch dod â'u bwyd a'u diod eu hunain; a<br>3. Bod pawb yn ymwybodol bod y gampfa wedi'i neilltuo fel Prif Ganolfan Orffwys Brys. |
| 180 | 05.02.21 | Gall yr ymweliadau llesiant/stepen drws â theuluoedd nad ydynt wedi ymateb i ymholiadau Plant sy'n Colli Addysg neu Addysg Gartref fynd yn eu blaen cyn gynted â phosibl. |
| | | Ildio'r hysbysiad o ffioedd priodas a phartneriaeth sifil o dan yr amgylchiadau a nodir yn y cynnig mewn perthynas â'r ffioedd hynny. |
| 181 | 09.02.21 | Bydd holl ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn ôl ar y safle yn ystod yr wythnos yn dechrau yr 22ain o Chwefror 2021, yn unol â datganiad Llywodraeth Cymru. |
| | | Cytuno ar y sail resymol y bydd disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn ôl mewn grwpiau bach am 1 diwrnod yn ystod yr wythnos gyntaf i sicrhau eu bod yn cael eu hailgyflwyno i arferion yr ysgol (hynny yw, hylendid) a'u staff, a fydd yn gwisgo masgiau trwy'r dydd nawr. |
| | | Nodi na fydd y Canllawiau Gweithredol sydd eu hangen i ddiweddaru Asesiadau Risg ysgolion ar gael tan y 10fed p Chwefror 2021, ac felly dim ond 2 ddiwrnod llawn fydd gan Benaethiaid i adolygu asesiadau risg ac ymgynghori ag Undebau Athrawon a staff. |
| | | Cymeradwyo penderfyniad y Grŵp Rheoli Arian Marwolaethau Ychwanegol y dylai'r grŵp sefyll i lawr yn sgil data monitro marwolaethau ychwanegu hyd nes y bydd unrhyw gynnydd dramatig. |
| 182 | 11.02.21 | Gall y ganolfan brofi a leolir ar safle Meddygfa Padarn Aberystwyth ar hyn o bryd gael ei symud i faes parcio Canolfan Rheidol. |
| | | Caniatáu i Arolwg Grŵp ymarfer arolwg amlddisgyblaethol fynychu safle Ysgol Dyffryn Aeron ar yr 17eg o Chwefror 2021 i gwblhau arolwg geoffisegol anymwthiol gan ddilyn Asesiadau Risg a Datganiadau Dull Covid-19. |

| | | |
|---|---|---|
| 183 | 12.02.21 | Gwrthod y cais i ffilmio gan BBC Cymru ar gyfer rhaglen ailgylchu gan ei fod yn groes i reolaethau presennol y cyfnod clo ac nid oedd yn casglu newyddion hanfodol. |
| | | Gwrthod caniatâd i ffilmio gyda drôn ar y Promenâd yn Aberystwyth oherwydd nid yw'n gynhyrchiad hanfodol a rheolaethau presennol y cyfnod clo. |
| 184 | 16.02.21 | Disgyblion y Cyfnod Sylfaen i ddychwelyd yn raddol yn unol â'r camau isod:<br>1. Dylai holl ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen ddychwelyd i'r safle yn ystod yr wythnos 22ain – 26ain o Chwefror 2021 mewn grwpiau bach;<br>2. Wythnos yn cychwyn 1af Mawrth 2021, dylai disgyblion y Cyfnod Sylfaen ddychwelyd mewn grwpiau mwy, gyda holl ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn ôl ar y safle erbyn y 3ydd o Fawrth 2021;<br>3. Os yw nifer yr achosion o'r coronafeirws yng Ngheredigion yn cynyddu'n sylweddol yn ystod yr wythnos 22ain – 26ain o Chwefror 2021, bydd y Cyngor yn ailystyried y cynnig hwn. |
| | | Prynu lle pwrpasol mewn atodiad papur newydd i gynnwys adolygiad blynyddol yn rhestru enghreifftiau o'r gefnogaeth gadarnhaol y mae'r Cyngor wedi'i darparu i'r gymuned leol ers y cyfnod clo cyntaf flwyddyn yn ôl. |
| | | Cadarnhau'r penderfyniad i wrthod caniatâd i ffilmio gyda drôn ar y Promenâd yn Aberystwyth ar sail cysondeb o ran rheolaethau'r cyfnod clo a gofyniad nad yw'n hanfodol. |
| 185 | 19.02.21 | Gellir caniatáu i gontractwyr fynd i mewn i Ganolfan Rheidol i atgyweirio'r difrod i'r to yn ystod wythnos yr 22ain o Chwefror 2021 yn unol â'r Asesiadau Risg a'r trefniadau ar y safle. |
| | | Dylai'r staff barhau i ddefnyddio datrysiad mewnol y Cyngor ar gyfer adrodd canlyniadau profion llif unffordd am y tro a pheidio â defnyddio'r Porth Cenedlaethol ar hyn o bryd. Dylai'r penderfyniad gael ei adolygu ymhen 3 wythnos. |
| | | Cytuno â'r cynigion ar gyfer cyflwyno profion a hyfforddiant profion llif unffordd yn raddol i'r garfan nesaf o staff Gofal Cymdeithasol. Roedd rheolaethau diogelwch ar waith a chytunwyd yn flaenorol ar broses debyg ar gyfer cyfnodau cynharach. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Gall dau ymweliad â Theatr Felinfach fynd yn eu blaen ar yr amod nad oes mwy na dau unigolyn ar y safle yn ystod yr ymweliadau. Bydd angen i'r unigolion wisgo PPE llawn a dylid cynnal yr ymweliadau cyn gynted â phosibl ac yn unol â'r Asesiadau Risg priodol. |
| | | Gallai'r Rhaglen Trin Wynebau Ffyrdd fynd rhagddi gan ddilyn y mesurau rheoli a nodwyd yn Adroddiad y Rhaglen Trin Wynebau Ffyrdd. |
| 186 | 23.02.21 | Gall contractwr allanol ddarparu gwaith cynnal a chadw ar offer llungopïo/argraffu presennol yng nghoridor y Prif Weithredwr, Penmorfa oherwydd nad oes staff yn y swyddfa ar hyn o bryd. |
| | | Gallai archwiliadau hanfodol Rheoliadau Gweithrediadau Codi ac Offer Codi gael eu cynnal yn lleoliadau'r Cyngor. |
| | | Gellir defnyddio bws mini Dechrau'n Deg i gludo dau deulu i ac o'r Cylch Meithrin yn Llandysul yn unol â'r canllawiau Asesu Risg ac Iechyd a Diogelwch. |
| | | Rhoi caniatâd i fyfyriwr ffilmio yn Aberystwyth ar y 5ed a'r 6ed o Fawrth 2021 oherwydd ei fod at ddibenion addysgol. |
| 187 | 25.02.21 | Cefnogi a chymeradwyo'n llawn penderfyniad y Tîm Rheoli Digwyddiadau Rhanbarthol i gadw'r 2 ganolfan brofi yn eu lleoliadau presennol. |
| | | Parhau â threfniadau taliad standby Covid-19 nes bod cyfyngiadau Lefel Rhybudd 4 yn cael eu llacio. |
| | | Os nad yw'r sefyllfa'n newid erbyn ail wythnos Mawrth 2021, y dylid datgomisiynu'r prosiect i ddefnyddio'r Enfys Fach (Awel Deg gynt) ar gyfer cyfleuster gofal canolraddol dros dro Covid-19 (cam i fyny/camu i lawr). |
| | | Cymeradwyo argymhelliad y Prif Swyddog Corfforaethol – Cyllid a Chaffael i gymeradwyo Cais Grant Cyfalaf Elusen am gyllid. |
| | | Cytuno mewn egwyddor i ailagor Gwasanaeth Clicio a Chasglu'r Llyfrgelloedd ar ôl i Lywodraeth Cymru godi cyfyngiadau'r cyfnod clo Lefel Rhybudd 4 i Lefel Rhybudd 3. |
| 188 | 26.02.21 | Cefnogi'r papur ymateb i'r ymgynghoriad a'r diwygiadau a baratowyd ynghylch y newidiadau arfaethedig i Hawliau Datblygu a Ganiateir Cymru. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cymeradwyo'r Canllaw Dylunio ar gyfer Canol Trefi. |
| | | Dirymu penderfyniad 66 Cyllid a Chaffael (ynghylch lleoliadau gofal preswyl y tu allan i'r Sir). |

**Atodiad 2**

| **Log Penderfyniadau'r Grŵp Rheoli Aur – Penderfyniadau a wnaed mewn cyfarfodydd a gynhaliwyd rhwng 2 Mawrth 2021 a 29 Ebrill 2021** | | |
|---|---|---|
| 189 | 02.03.21 | Cytuno ar y cynnig i barhau i gasglu canlyniadau profion LFD oddi wrth staff mewn ysgolion nes bod system Llywodraeth Cymru'n darparu'r canlyniadau lleol neu fesul ysgol. |
| | | Mabwysiadu dull graddol o ail-agor lleoliadau nas cynhelir. |
| | | Dilyn y cyfarwyddyd a chaniatáu i ddisgyblion sy'n gwarchod sydd â llythyrau cefnogi gan eu rhieni a'u Meddygon Teulu i ddychwelyd. |
| | | Bod y dull o ddarparu cymorth glanhau ychwanegol i ysgolion gan ddefnyddio arian cymorth Covid-19 yn cael ei gytuno, a bod modd cael trafodaethau rhwng y gwasanaeth â'r ysgolion am ofynion glanhau yn y dyfodol lle mae diffygion ar hyn o bryd. |
| | | Cytuno i'r cais i ddau dechnegydd osod goleuadau y tu allan i Theatr Felinfach fel rhan o ymgyrch codi ymwybyddiaeth genedlaethol rhwng 5ed a 16eg Mawrth 2021. |
| | | Bod y Bwrdd Iechyd yn cael defnyddio Canolfan Blant Integredig Aberteifi i redeg clinig Iechyd Meddwl Amenedigol ar ôl i'r cyfyngiadau aros gartref gael eu codi, ac yn unol â'r asesiadau risg a'r trefniadau a amlinellir yn yr adroddiad. |
| 190 | 04.03.21 | Dim penderfyniadau. |
| 191 | 05.03.21 | Cefnogi a chymeradwyo'n llawn y cynigion a amlinellir yn yr adroddiad a'r mapiau ategol ar gyfer ailagor Parthau Diogel Canol Trefi. |
| | | Bodd modd i'r hyfforddiant codi a chario wyneb yn wyneb ar gyfer Staff Gofal newydd gymryd lle, ar yr amod bod Rheolwr Gwasanaeth o fewn Gwasanaethau i Oedolion yn arwyddo'r mesurau rheoli a rheidrwydd hanfodol sydd yn eu lle ymhob achos. |
| | | Bod disgyblion Canolfan y Bont yn cael mynediad at yr Astrotyrff yn Llanbed yn ystod amser egwyl ac amser cinio cyn belled â bod hynny wedi'i gyfyngu'n llym i'r disgyblion hynny'n unig. |
| 192 | 09.03.21 | Cymeradwyo'r cynnig sydd ynghlwm i roi Cam 1 o ymweliadau â Chartrefi Gofal ar waith, yn amodol ar yr holl brotocolau diweddaraf ar gyfer ymwelwyr, a diwygio'r llythyr i deuluoedd yn pwysleisio'r dull graddol sydd dal ar droed, a bod yr holl Gartrefi â'r cyfleusterau gofynnol yn eu lle. |
| | | Y gall actor ddefnyddio Campfa'r Brifysgol yn Aberystwyth rhwng 18fed Mawrth a 3ydd Ebrill am mai dyma ei fan gwaith, i baratoi ar gyfer ffilm newydd. |
| 193 | 11.03.21 | Y gall y cynllunio ar gyfer darparu'r Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol yn ystod Haf 2021 ddechrau. |

| | | |
|---|---|---|
| 194 | | Y bydd gwasanaeth Clicio a Chasglu'r Llyfrgell yn ail-ddechrau yn llyfrgelloedd Aberaeron, Aberystwyth, Aberteifi a Llanbed o 17eg Mawrth 2021. |
| | | Y gall ymweliadau safle'r Swyddog Rheoli Cynllunio ac Adeiladu ail-ddechrau. |
| | | I roi dull graddol ar waith yn Aberteifi drwy ledaenu palmentydd ond peidio â gweithredu Parth Diogel llawn dros gyfnod y Pasg. |
| | | Rhoi'r Parth Diogel ar waith yng Nghei Newydd dros gyfnod y Pasg. |
| | | Cadw'r trefniadau presennol fel y maent yn Aberaeron dros gyfnod y Pasg. |
| | | Rhoi'r Parth Diogel ar waith yn y Borth dros gyfnod y Pasg. |
| | | Rhoi'r Parth Diogel ar waith yn Aberystwyth dros gyfnod y Pasg. |
| | | Cefnogi'r cais am Drwydded Perfformio i Blant ar gyfer un disgybl, cyn belled â bod modd cael sicrwydd y bydd yr holl ffilmio'n digwydd yn yr awyr agored. |
| | | Nad yw'r Grŵp Rheoli Aur, o heddiw ymlaen, mewn sefyllfa i gefnogi'r cais am Drwydded Perfformio i Blant ar gyfer ail ddisgybl am fod Lloegr yn parhau i fod dan fesurau clo Haen 4 ac ni wyddys yr union ddyddiadau ffilmio. |
| | | Caniatáu mynediad i ddisgyblion ysgolion uwchradd i Hyfforddiant Ceredigion Training i gwblhau elfennau ymarferol eu cymwysterau galwedigaethol. |
| | | Mynd ymlaen â'r trefniadau ar gyfer dychwelyd at Wasanaeth Cwnsela Ysgolion wyneb yn wyneb. |
| | 12.03.21 | Y dylid diwygio'r penderfyniad a nodwyd yng nghyfarfod y Grŵp Rheoli Aur ar 5ed Ionawr 2021 ynghylch Diffiniad o Weithiwr Hanfodol ar gyfer darpariaeth yr Hwb Gofal Plant i ddarllen: 'Y bydd y meini prawf o ran gweithiwr hanfodol/allweddol yn cael mynediad at ddarpariaeth gofal plant mewn ysgolion yn cael eu gosod fel bod y ddau riant/ gofalwr (neu un ar gyfer unig riant/gofalwr) yn weithiwr hanfodol ym maes iechyd, gofal, yr heddlu neu'r gwasanaethau brys'. |
| 195 | | Bod y penderfyniad a nodwyd yng nghyfarfod y Grŵp Rheoli Aur ar 5ed Ionawr 2021 ynghylch y Diffiniad o Weithiwr Hanfodol o ran darpariaeth yr Hwb Gofal Plant yn gywir ac nad oedd angen ei ddiwygio. Bydd penderfyniad y Grŵp Rheoli Aur ar 12fed Mawrth 2021 yn cael ei ddiddymu. |
| | 16.03.21 | Bod ymweliadau ysgol ar gyfer disgyblion newydd 4 oed sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn digwydd yn rhithiol, lle bo modd, ond os oes angen iddyn nhw ddigwydd yn yr ysgol mewn rhai amgylchiadau, gall hynny ddigwydd yn ystod wythnos gyntaf gwyliau'r Pasg (os ydy'r Pennaeth yn hapus gyda threfniant o'r fath.) |

| | | |
|---|---|---|
| | | Y gellir cymeradwyo'r Drwydded Perfformio i Blant ar gyfer y disgybl cyntaf (y cyfeirir ato ym mhenderfyniad 194 uchod) yn sgil y ffaith y bydd y rhan fwyaf o'r ffilmio'n digwydd yn yr awyr agored, a bydd yr unig olygfa dan do'n cael ei ffilmio mewn man sydd wedi'i awyru'n dda. |
| | | Y gellir cymeradwyo'r Drwydded Perfformio i Blant ar gyfer yr ail ddisgybl y cyfeirir ato ym mhenderfyniad 194 uchod yn sgil y ffaith bod yr holl geisiadau o bersbectif cydymffurfio wedi'u bodloni. |
| | | Y gall Prawf Sgiliau Hanfodol y Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth (ILM) gymryd lle yn Felinfach ar 8fed Ebrill 2021, gan wneud defnydd priodol o PPE a chadw pellter cymdeithasol. |
| | | Cymeradwyo'r cais i staff yr Uned Cynnal a Chadw Trafnidiaeth (TMU) gael hyfforddiant Profwr MOT yng Nglanyrafon ar 29ain Ebrill 2021 gyda Hyfforddwr o Gaerfyrddin. |
| | | Mynd ymlaen â'r Ymgyrch Coffau Cenedlaethol yr wythnos nesaf a goleuo'r Castell, y Llyfrgell a'r Bandstand yn felyn. Hefyd, cefnogi'r munud o dawelwch cenedlaethol. |
| | | Bod ceisiadau am weithgareddau Profiad Gwaith yn cael eu gwrthod yn ystod Lefelau Perygl 4 neu 3 Covid-19. |
| 196 | 18.03.21 | Bod cynnig (elusen) DASH Ceredigion ar gyfer gweithgareddau wedi'u targedu dros y Pasg i blant gydag anableddau yn cael ei gymeradwyo, yn amodol ar y mesurau diogelwch a rheoli risg a osodir yn yr adroddiadau sydd ynghlwm. |
| | | Y gall Staff, mewn egwyddor, fynychu cyrsiau ymarferol Cymorth Cyntaf, a chaniatáu archebu llefydd yn amodol ar ddod â'r mater yn ôl i'r Grŵp Rheoli Aur i'w gymeradwyo'n ffurfiol yn Ebrill 2021. |
| | | Cynnal ymweliad Iechyd a Diogelwch brys ar y cyd (1 Swyddog o bob Gwasanaeth) â Chartref Nyrsio preifat yn sgil pryderon Diogelu a ddaeth i'r fei. |
| | | Cwrdd ar y 1af (3pm) a'r 8fed (9am) o Ebrill 2021 dros gyfnod y Pasg. |
| | | Bod cyfarfodydd y Grŵp Arweinyddiaeth a drefnwyd ar gyfer 21ain Mawrth 2021 a 7fed Ebrill 2021 yn cael eu canslo. |
| | | Bod Adroddiadau ar y Sefyllfa mewn Cartrefi Gofal i'w cwtogi i adroddiadau unwaith yr wythnos ar ddyddiau Mercher o 29ain Mawrth 2021 ymlaen. Byddai'r penderfyniad hwn yn amodol ar adrodd ychwanegol drwy eithriad petai amgylchiadau'n gofyn am hynny. |
| 197 | 19.03.21 | Nid yw'r Grŵp Rheoli Aur mewn sefyllfa i gefnogi'r cais gan Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant i ganiatáu i 'Gêm-On' drefnu gwersyll bêl-droed ar Gaeau'r Brifysgol yn Llanbed ar 29ain a 30ain Mawrth 2021. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cymeradwyo'r cynigion ar gyfer gweinyddu'r etholiad fel y'u gosodir yn yr adroddiad, ar sail y mesurau rheoli cynhwysfawr a ddisgrifiwyd. |
| | | Cymeradwyo'r ceisiadau am Grant Cymunedol mewn egwyddor, ar yr amod bod yr holl ymgeiswyr yn cyflwyno Asesiadau Risg, gweithdrefnau gwirio a mantolenni. Nodir na chaiff y prosiectau ddechrau heb anfon y dogfennau hyn ymlaen llaw i'w cymeradwyo. |
| | | Cefnogi'r penderfyniad a wnaed yng nghyfarfod y Grŵp Arweinyddiaeth ddydd Mercher i wrthod cais gan 'The One Show' i ffilmio ar draeth y Borth. |
| | | Cefnogi'r penderfyniad a wnaed yng nghyfarfod y Grŵp Arweinyddiaeth ddydd Mercher i wrthod cais i ffilmio Craith mewn lleoliad ym Mhenrhyncoch. |
| | | Peidio â chaniatáu'r cais rheoli traffig ar gyfer ffilmio Craith ym Mhenrhyncoch. |
| 198 | 23.03.21 | Caniatáu i'r Tîm Nyrsio Ysgolion fynd i ysgolion (dosbarth derbyn a blwyddyn 1 Cynradd, a Blwyddyn 8 a 9 Uwchradd) i ddarparu'r rhaglen frechu ym Mai a Mehefin 2021. |
| | | Y gall yr elfen weithgareddau o Gynllun y Pasg ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yng Ngwersyll yr Urdd Llangrannog fynd yn ei flaen, ar yr amod bod yna drefniadau trafnidiaeth amgen. |
| | | Y gall y Gwasanaeth Maethu gael mynediad at Penmorfa i gasglu'r Ffeiliau Maethu ar ddiwrnod pan nad yw Staff y Gwasanaethau Etholiadol yn yr adeilad. |
| | | Y gellir mynd â'r Ffeiliau Maethu i swyddfeydd Felinfach i'w sganio. |
| | | Gwrthod cais am ganiatâd i ffilmio ym Mharc Natur Penglais oherwydd nifer y bobl yn y criw ffilmio, a fyddai'n teithio o Gaerdydd.. |
| 199 | 26.03.21 | Yn dilyn cyhoeddiadau diweddaraf Llywodraeth Cymru, y baneri i'w harddangos yw –<br>• "Cadw Ceredigion yn Ddiogel" (Canol Trefi)<br>• "Safwch yn eich Swigen"<br>• "Ystyriwch bob Siwrnai, Arhoswch yn Lleol"<br>• "Rheolau Covid Cymru ar Waith" |
| | | Y dylai'r taliadau Covid-19 wrth gefn presennol barhau am y tro, gan adolygu'r sefyllfa o fewn mis. |
| | | Nad oedd modd cefnogi cais 'Dychwelyd i Rygbi' Undeb Rygbi Cymru i ddefnyddio'r caeau a'r cyfleusterau ar hyn o bryd oherwydd y canllawiau diogelwch Covid-19 presennol. Byddai'r sefyllfa'n cael ei hadolygu mewn 4 wythnos. |
| | | Cymeradwyo cais i 10 aelod staff sefyll arholiad Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan, dan oruchwyliaeth, yn swyddfeydd Felinfach. |
| | | Caniatáu defnydd o'r Cae Tywarch Artiffisial yng Nghanolfan Hamdden Aberteifi ar gyfer gweithgareddau cwricwlaidd dan |

| | | |
|---|---|---|
| | | oruchwyliaeth (ar yr amod bod y cyfleuster yn cael ei gadw'n ddiogel dan glo ar bob adeg arall). |
| | | Caniatáu mynediad i ddau aelod o staff y Gwasanaethau Hamdden i'r Cae Tywarch Artiffisial yn Aberteifi yn ystod gwyliau ysgol y Pasg, i'w baratoi ar gyfer eu defnyddio. |
| | | Cymeradwyo parhau i gefnogi, mewn egwyddor, defnydd y Bwrdd Iechyd o feysydd parcio sy'n berchen i'r Cyngor i osod Unedau Profi Symudol. |
| | | Cymeradwyo'r cynnig bod Seicolegwyr Addysg yn cynnal asesiadau mewn ysgolion, ar yr amod eu bod yn gweithredu dan yr un protocolau diogelwch â Staff Cwnsela'r Ysgol ac yn cadw at y rheolau a osodir yn yr adroddiad. |
| 200 | 01.04.21 | Cytuno i'r newidiadau i'r cynigion ar gyfer Parthau Diogel yng Nghei Newydd, fel y'u gosodwyd yn yr adroddiadau a gyflwynwyd. |
| | | Cytuno i'r cynnig i oedi cyn cyflwyno parthau masnachwyr ar bromenâd Aberystwyth tan 16eg Ebrill 2021 er budd diogelwch Covid-19. |
| | | Cytuno i'r cynnig i beidio â rhoi trwyddedau ar gyfer reidiau a gweithgareddau i blant ar bromenâd Aberystwyth ar hyn o bryd yn sgil pryderon diogelwch Covid-19. Byddai'r mater yn cael ei ail-ystyried gan y Grŵp Rheoli Arian mewn deufis. |
| | | Y gall y Gwasanaeth Cofrestru ail-ddechrau apwyntiadau cofrestru wyneb yn wyneb yn Neuadd y Sir, Aberaeron o 7fed Ebrill 2021. |
| | | Caniatáu i un aelod Staff weithio yn yr Archif i ddelio a cheisiadau ar-lein am wybodaeth. Gall y gwasanaeth ddechrau o 12fed Ebrill 2021. |
| | | Cytuno i'r cais i hyfforddwr a Swyddog Dilysu newydd fynychu Neuadd y Sir dros gyfnod o wythnos i gynnal yr hyfforddiant hanfodol ar y system, yn amodol ar gadw at y mesurau diogelwch PPE a Covid-19 arferol. |
| 201 | 08.04.21 | Ail-gadarnhau'r penderfyniad a wnaed y llynedd ynghylch Staff yn cael gwyliau â thâl i hunan-ynysu yn dilyn gwyliau tramor. Os archebwyd y gwyliau cyn bod yr wybodaeth am y gofynion hunan-ynysu ar gael, yna byddai gwyliau gyda thâl yn cael ei ganiatáu, ond os oedd y Staff yn gwybod bod angen hunan-ynysu cyn archebu'r gwyliau, yna rhaid cymryd gwyliau heb dâl. Byddai hyn hefyd yn berthnasol gydag unrhyw wyliau a ohiriwyd o'r llynedd i eleni. |
| | | Byddai Cyfarfodydd y Grŵp Rheoli Aur yn cael eu cynnal bob dydd Mawrth a dydd Iau, a gellid cael adroddiadau ar y Sefyllfa Bresennol mewn Cartrefi Gofal bob dydd Llun a dydd Mercher. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cytuno i'r canlynol:<br>a) Parhau i dalu premiwm dros dro wythnosol o £50 y lleoliad i leoliadau Gofal Cymdeithasol i Oedolion y Cyngor yng Ngheredigion, yn unol â Chynllun Llywodraeth Cymru (gan nodi bod terfyn amser ar hwn erbyn hyn, sef 30ain Mehefin 2021).<br>b) Talu premiwm dros dro wythnosol o £50 y lleoliad i'r holl Gartrefi Preswyl Tu Allan i'r Sir ar gyfer lleoliadau Gofal Cymdeithasol i Oedolion y Cyngor, yn dod i rym ar 29ain Mehefin 2020 (gan nodi bod terfyn amser ar hwn erbyn hyn, sef 30ain Mehefin 2021).<br>c) Parhau i dalu premiwm dros dro wythnosol o £37 y lleoliad i leoliadau Byw â Chymorth y Cyngor yng Ngheredigion yn unol â chynllun Llywodraeth Cymru (gan nodi bod terfyn amser ar hwn erbyn hyn, sef 30ain Mehefin 2021).<br>d) Talu premiwn dros dro wythnosol o £37 y lleoliad i'r holl Ddarparwyr Byw â Chymorth Tu Allan i'r Sir ar gyfer lleoliadau Gofal Cymdeithasol y Cyngor, yn dod i rym ar 29/6/20 (gan nodi bod terfyn amser ar hwn erbyn hyn, sef 30ain Mehefin 2021).<br>e) Trosglwyddo unrhyw arian premiwm dros dro priodol sy'n gysylltiedig â lleoliadau sy'n cynnwys elfen Bwrdd Iechyd, i'r Darparwyr priodol, cyn belled â bod hwnnw'n cael ei ariannu'n llawn gan y Bwrdd Iechyd, ac yn unol â chynlluniau Llywodraeth Cymru, yr Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol (gan nodi bod terfyn amser ar hwn erbyn hyn, sef 30ain Mehefin 2021).<br>f) Parhau i ganiatáu i Gartrefi Preswyl Pobl Hŷn, Cartrefi Preswyl Anabledd Dysgu, a Darparwyr Byw â Chymorth yng Ngheredigion i hawlio eu costau go iawn mewn perthynas a Llefydd Gwag a chostau Eithriadol yn sgil Covid-19, yn unol â chynllun Llywodraeth Cymru (gan nodi bod terfyn amser ar hwn erbyn hyn, sef 30ain Mehefin 2021).<br>g) Parhau i dalu premiwm dros dro o £1 yr awr am bob darparwr Gofal Cartref, yn unol â chynllun Llywodraeth Cymru (gan nodi bod terfyn amser ar hwn erbyn hyn, sef 30ain Mehefin 2021).<br>h) Cyflwyno argymhelliad arfaethedig wedi'i ddiweddaru i'r Cabinet ochr yn ochr â'r adroddiad ar y broses o Osod Ffioedd 2021/22 maes o law:<br>Mai'r man cychwyn ar gyfer comisiynu lleoliadau Pobl Hŷn Tu allan i'r Sir fyddai uchafswm y cyfraddau cytunedig ar gyfer Bobl Hŷn o Fewn y Sir, oni bai bod dim darpariaeth ar gael o Fewn y Sir (ac eithrio lleoliadau yn Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin, lle byddai'r Cyngor yn codi'r un cyfraddau â'r Awdurdod Lleol perthnasol). Serch hynny, mae angen ystyried pob achos yn ôl ei rinweddau ei hun. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cymeradwyo'r cais i ffilmio ar yr amod bod y criw'n darparu'r Grŵp Rheoli Aur â phrofion Covid-19 negyddol cyn y ddyddiadau ffilmio, a phetai yna drefniadau i aros mewn Gwesty lleol, yna byddai hynny'n amodol ar adroddiad boddhaol oddi wrth staff Diogelu'r Cyhoedd bod y mesurau diogelu rhag Covid-19 yn y gwesty'n cydymffurfio â'r canllawiau cyfredol. |
| 202 | 13.04.21 | Cymeradwyo dogfen cyfnod addasu tuag at adferiad y gwasanaeth ysgolion. |
| | | Y dylai'r holl wasanaethau ddefnyddio templed tebyg wrth gyflwyno'u cynigion ar gyfer symud tuag at adferiad ar ôl Covid-19 i'r Grŵp Rheoli Aur. |
| | | Y gellir cynnal yr Hyfforddiant Staciwr Trydan yn ystod yr wythnos yn dechrau 3ydd Mai 2021. |
| | | Y gall y gwaith o ddymchwel adeilad Arriva yn Aberystwyth ddechrau ar 19eg Ebrill 2021 yn sgil y cyfraddau isel o Covid-19 yng Nghymru ar hyn o bryd. |
| | | Y gall yr Hyfforddiant ar gyfer Gweithredwyr Priffyrdd, fel y'i gosodwyd yn yr adroddiad, fynd yn ei flaen. |
| 203 | 15.04.21 | Bod dogfen cyfnod addasu tuag at adferiad Gwydnwch Staff Gofal yn cael ei chymeradwyo mewn egwyddor, ar y ddealltwriaeth bod pob un o'r 3 Chyfnod yn cael eu cyflwyno gerbron y Grŵp Rheoli Aur wythnos ymlaen llaw i gael eu cymeradwyo'n derfynol. |
| | | Cytuno â'r trywydd a osodwyd gan yr Is-grŵp Twristiaeth yn eu cynnig ar gyfer adnoddau ychwanegol i gynorthwyo'r Awdurdod Lleol i reoli'r Economi Ymwelwyr yn haf 2021, a chefnogi'r bwriad i fynd ati hefyd i wneud cais am gyllid gan Lywodraeth Cymru. |
| | | Cytuno i ymweliad monitro'r Cyd-banel Monitro Amlasiantaeth â Chartref Gofal Abermad, ar yr amod bod y mesurau diogelwch Covid-19 a osodwyd yn y papur yn cael eu bodloni. |
| 204 | 20.04.21 | Cymeradwyo, mewn egwyddor, dogfen cyfnod addasu tuag at adferiad y Gwasanaethau Dydd, ar y ddealltwriaeth bod pob un o'r 3 Chyfnod yn cael eu cyflwyno gerbron y Grŵp Rheoli Aur wythnos ymlaen llaw i gael eu cymeradwyo'n derfynol. |
| | | Bod dogfen cyfnod addasu tuag at adferiad y Porth Cymorth Cynnar yn cael ei chymeradwyo mewn egwyddor, ar y ddealltwriaeth bod pob un o'r 3 Chyfnod yn cael eu cyflwyno gerbron y Grŵp Rheoli Aur wythnos ymlaen llaw, i gael eu cymeradwyo'n derfynol. |
| | | Cytuno ar gynnwys yr ebost drafft i Staff ar Deithio Tramor, a gaiff ei anfon fel rhan o'r ebost Staff wythnosol ddydd Gwener. |
| | | Cytuno mewn egwyddor i'r cais am drwydded priffyrdd i ffilmio 'Escape to the Country'. |
| | | Cytuno i'r ceisiadau Codi Cychod, ar yr amod bod yn rhaid iddynt ddigwydd rhwng dydd Llun a dydd Gwener (ac eithrio gwyliau banc) yn ystod oriau gwaith arferol. |

| | | |
|---|---|---|
| 205 | 22.04.21 | Y gall y Grŵp Ail-agor Lleoliadau Cymunedol gynnal sesiwn friffio gyhoeddus rithwir ar 28ain Ebrill 2021. |
| | | Bod modd rhoi Cyfnod 1 o'r cynllunio i Addasu'r Gwasanaeth Ysgolion i symud tuag at gynllun adfer ar ôl Covid-19, a gytunwyd mewn egwyddor gan y Grŵp Rheoli Aur yr wythnos diwethaf, ar waith. |
| | | Atal dros dro y gwaith ffordd ar Stryd Morgan, Aberteifi, oedd wedi'i drefnu ar gyfer yfory; gellir bwrw 'mlaen a'r gwaith arall a drefnwyd. |
| | | Cymeradwyo, mewn egwyddor, dogfen cyfnod addasu tuag at adferiad y Gwasanaeth Cwnsela Ysgolion, ar y ddealltwriaeth bod pob un o'r 3 Chyfnod yn cael eu cyflwyno gerbron y Grŵp Rheoli Aur wythnos ymlaen llaw, i gael eu cymeradwyo'n derfynol. |
| | | Bod modd rhoi Cyfnod 1 o'r cynllunio i Addasu Gwydnwch Staff Gofal Preswyl i symud tuag at gynllun adfer ar ôl Covid-19, a gytunwyd mewn egwyddor gan y Grŵp Rheoli Aur yr wythnos hon, ar waith. |
| | | Bodd modd rhoi Cyfnod 1 o'r cynllunio i Addasu Gwasanaethau Dydd i symud tuag at gynllun adfer ar ôl Covid-19, a gytunwyd mewn egwyddor gan y Grŵp Rheoli Aur yr wythnos hon, ar waith. |
| | | I gymeradwyo, mewn egwyddor, dogfen cyfnod addasu tuag at adferiad y Gwasanaeth Seibiant, ar y ddealltwriaeth bod pob un o'r 3 Chyfnod yn cael eu cyflwyno gerbron y Grŵp Rheoli Aur wythnos ymlaen llaw, i gael eu cymeradwyo'n derfynol. |
| | | Y gellid symud y weithred 'Caniatáu i Swyddogion ar draws y Gwasanaeth i Bob Oed a Llesiant i ymweld i roi mewnbwn proffesiynol, gan gynnwys Gweithwyr Cymdeithasol (gan gynnwys Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid) a gwiriadau Sicrwydd Ansawdd' i Gyfnod 1 o'r cynllun Gwydnwch Staff Gofal Preswyl, ar y tair amod a gytunwyd, sef bod y Cartref Gofal yn y categori gwyrdd, bod pawb yn y cartref gofal wedi cael y brechiad, a bod unrhyw ymwelwyr yn cyflwyno prawf LFD negyddol cyn cael mynediad. |
| | | Cytuno i'r cais gan Gwmni Ennyn Awaken Productions ac AMP Media i ffilmio, yn sgil y ffaith eu bod yn gwmnïau lleol ac nad oedd eu ceisiadau'n cael eu hystyried yn rhai risg uchel. |
| 206 | 27.04.21 | Cymeradwyo'r diwygiadau i'r cynllunio i Addasu Gwydnwch Staff Gofal Preswyl i symud tuag at gynllun adfer ar ôl Covid-19. |
| | | Cymeradwyo'r cynllun graddol diwygiedig ar gyfer cyflwyno Parth Diogel yn Aberteifi. |
| | | Cytuno bod modd rhoi'r cynllunio afaethedig i Addasu Cyllid a Chaffael i symud ymlaen tuag at gynllun adfer ar ôl Covid-19, a gytunwyd mewn egwyddor gan y Grŵp Rheoli Aur yr wythnos diwethaf, ar waith. |
| | | Cytuno bod modd rhoi Cyfnod 1 o'r cynllunio i Addasu Porth Cymorth i symud tuag at gynllun adfer ar ôl Covid-19, a |

| | | |
|---|---|---|
| | | gytunwyd mewn egwyddor gan y Grŵp Rheoli Aur yr wythnos diwethaf, ar waith. |
| | | Cytuno y gellir dychwelyd at ymweliadau mewnol ar draws yr holl wasanaethau ar ôl 17eg Mai neu’r dyddiad y byddwn yn symud i Lefel Rhybudd 2. |
| | | Ystyried opsiynau Astudiaeth Dichonoldeb yr Hwb PPE eto, ynghyd â’r papur ar rôl Rheolwr Gweithredol Storfeydd. |
| | | Y byddai taliadau Covid-19 wrth gefn ar gyfer y garfan Staff Covid-19 24/7 yn cael eu hatal dros dro unwaith ein bod yn symud i Lefel Rhybudd 2, ond na fyddai’r rhai i Staff Cyflenwi Brys Covid-19 yn cael eu hatal nes ein bod yn symud i Lefel Rhybudd 1.. |
| | | Cymeradwyo dechrau hyfforddiant Cymorth Cyntaf Paediatrig ym Mai/Mehefin, fel y cytunwyd mewn egwyddor ar 18fed Mawrth 2021. |
| | | Cymeradwyo’r cynnig bod un aelod staff o’r theatr ac un aelod staff Rheoli Cyfleusterau yn mynychu’r theatr yn gorfforol ar gyfer yr arolwg awyru, yn dilyn cyfarfod Teams rhithwir i drafod. |
| | | Y gallai ymweliadau a gwaith dilynol mewn perthynas â’r Grant Cyfleusterau Anabledd/Addasiadau ail-ddechrau. |
| | | Cymeradwyo’r cais i ffilmio Craith cyn belled â bod y ffilmio’n cael ei ohirio nes ein bod yn symud i Lefel Rhybudd 2. |
| | | Cymeradwyo cynigion gan yr Urdd i gynnal yr Eisteddfod T yn Llangrannog, a bod angen gwneud cais am drwydded trwy’r broses briodol. |
| 207 | 29.04.21 | Cymeradwyo’r cynnig i ymweld â dwy safle Theatr Felinfach yn dilyn cyfarfod Teams i drafod yr Arolwg Awyru. |
| | | Cymeradwyo’r Addasu i symud ymlaen tuag at gynlluniau adfer ar ôl Covid-19 ar gyfer y gwasanaeth Archwilio Mewnol a Llywodraethu a’r gwasanaeth Cyfreithiol. |
| | | Cymeradwyo’r cais i ffilmio ar gyfer y Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol ar yr amod bod y ffilmio’n digwydd yn yr awyr agored tu allan i oriau ysgol. |
| | | Cadw at safbwynt a phenderfyniad dydd Mawrth diwethaf y byddid yn rhoi caniatâd i ffilmio Craith yng Ngheredigion unwaith ein bod wedi symud i Lefel Rhybudd 2 yn unig. |
| | | Y gallai’r gwaith o osod 5 Cysgodfan Beiciau mewn lleoliadau a gytunwyd ar draws y sir ddigwydd yn ystod y gwyliau ysgol hanner tymor ym Mehefin. |
| | | Y gellid cynyddu cyfanswm nifer y Staff a ganiateir yng Nghanolfan Rheidol i 17, ond caniatáu’n benodol i hyd at 5 Cofrestrydd yn unig i fynychu ar yr un pryd os oes angen. |

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

**Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cydlynu a gynhaliwyd o bell trwy fideo-gynadledda ddydd Iau, 11eg Chwefror 2021**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Elizabeth Evans (Cadeirydd), Euros Davies, Marc Davies, Endaf Edwards, Keith Evans, Lyndon Lloyd MBE, Rowland Rees-Evans, Mark Strong, Wyn Thomas ac Ivor Williams.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Ellen ap Gwynn, Arweinydd y Cyngor ac Aelod o'r Cabinet dros Bolisi, Perfformiad a Phartneriaethau; y Cynghorydd Catherine Hughes, Aelod o'r Cabinet dros Borth Ceredigion, Ymyrraeth Gynnar, Hybiau Lles a Diwylliant; y Cynghorydd Ray Quant, Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod o'r Cabinet dros Gyfreithiol a Llywodraethu, Pobl a Threfniadaeth a Gwasanaethau Democrataidd; y Cynghorydd Alun Williams, Aelod o'r Cabinet dros Borth Cynnal a'r Cynghorydd Ceredig Davies (Sylwedydd).

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:** Eifion Evans, Prif Weithredwr; Barry Rees Cyfarwyddwr Corfforaethol; Caroline Lewis Cyfarwyddwr Corfforaethol; Stephen Johnson, Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Cyllid a Chaffael; Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Gwasanaethau Democrataidd; Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyfreithiol a Llywodraethu; Justin Davies, Rheolwr Corfforaethol - Cyllid Craidd, Cyllid a Chaffael; Duncan Hall Rheolwr Corfforaethol Cyllid a Chyfrifon Gwasanaethau, Cyllid a Chaffael; Lisa Evans, Swyddog Safonau a Chraffu a Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol Gwasanaethau Democrataidd.

(10:00am –11.40am)

**1 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorydd Paul Hinge am na allai fynychu'r cyfarfod.

**2 Datgelu Buddiant Personol / Buddiant sy'n Rhagfarnu**

Ni ddatgelwyd dim buddiant personol na buddiant sy'n rhagfarnu.

**3 Adroddiad ar y gyllideb ddrafft ar gyfer y flwyddyn nesaf gan gynnwys y rhaglen gyfalaf tair blynedd**

Amlinellodd y Cynghorydd Elizabeth Evans, Cadeirydd y Pwyllgor, drefniadaeth y cyfarfod a chroesawodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Ellen ap Gwynn, Aelodau o'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Ellen ap Gwynn, yr adroddiad ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2021/2022 gan gynnwys y rhaglen gyfalaf tair blynedd, gan amlinellu bod hwn yn setliad dros dro, a bod y setliad terfynol i fod i ddod ar 2il Mawrth 2021. Nododd y Cynghorydd ap Gwynn fod cyfanswm y setliad refeniw a ddyrannwyd i Geredigion yn adlewyrchu cynnydd 2% o'i gymharu â 2020/21 sef y setliad isaf yng Nghymru. Mae'r setliad yn adlewyrchu ystod o symudiadau ail-ddosbarthu llai ffafriol yn ariannol gan gynnwys gostyngiad yn y ffigurau a ragwelir yn y boblogaeth yn ogystal â niferoedd disgyblion meithrin/ysgol gynradd.

Nododd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn fod yr Asesiadau o Wariant Safonol ar gyfer 2021/22, yn dynodi amcangyfrif £154,802k o gost sy'n gynnydd 3.1%. Bydd angen ystyried unrhyw addasiadau sy'n codi o'r setliad terfynol er mwyn cael eu hymgorffori yn y gyllideb. Yn ystod Gweithdy ar y Gyllideb i’r Aelodau, cytunwyd y byddai £1.3m o arbedion yn cael eu rhannu rhwng gwasanaethau sy’n adnabod arbedion 1% yr un, tra byddai’r £2.1m o arbedion sy’n weddill yn cael eu dal fel targed corfforaethol o dan gyllideb y Grŵp Arweiniol.

Dywedodd wrth yr Aelodau fod y pwysau mwyaf sylweddol o ran costau yn ymwneud â Phorth Cynnal a Phorth Gofal gyda chyllidebau sy’n gysylltiedig â Gofal Cymdeithasol yn parhau i ddod o dan straen sylweddol oherwydd effeithiau'r pandemig, a galw cynyddol ar y gwasanaethau. Rhagwelir y byddai'r buddion o drawsnewid gwasanaethau yn ôl pob tebyg i'w gweld o ddiwedd y flwyddyn ariannol nesaf.

Dywedwyd wrth yr aelodau hefyd bod Ardoll yr Awdurdod Tân yn destun ymgynghoriad ffurfiol ac y bydd y ffigurau terfynol yn llai na'r disgwyl.

Yn ogystal, rhagwelir y bydd yr effaith ariannol sy'n deillio o bandemig COVID19 ar gyfer y flwyddyn gyfredol yn arwain at gost ychwanegol i'r Cyngor, yn ogystal â rhywfaint o golli incwm. Rhagwelir y bydd hyn yn parhau i'r flwyddyn ariannol nesaf, er nad yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi cadarnhad ffurfiol eto o unrhyw gyllid manwl, felly mae angen cyllideb gorfforaethol yng nghyllideb y Grŵp Arweiniol yn ogystal â defnyddio cronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi gan gynnwys Cronfa Wrth Gefn COVID19 yn ôl yr angen. Mae pwysau eraill yn cynnwys cost rheoli clefyd coed ynn ac arian cyfatebol ar gyfer rhaglenni ysgolion a chynlluniau amddiffyn yr arfordir.

Argymhellodd y Cabinet y dylid cynyddu Treth y Cyngor 3.5%, o'i gymharu â 5% yn Sir Benfro, 4% yn Sir Gaerfyrddin, a 3.9% ym Mhowys. Nodwyd hefyd bod cyllid ychwanegol wedi'i roi i gynorthwyo'r rheini sydd mewn caledi trwy Gynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor.

Nododd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn ei bod wedi ysgrifennu at Julie James, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol cyn y Nadolig ond nid yw wedi cael ateb eto. Mae hi hefyd wedi ysgrifennu at Aelod Etholaethol y Senedd, sydd hefyd wedi ceisio cefnogaeth, a bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru hefyd wedi cyflwyno sylwadau ynghylch yr angen am gyllid gwaelodol.

Diolchodd i Swyddogion am gyflwyno'r adroddiadau yn ystod cyfnod hynod heriol, gyda phwysau ychwanegol prosesu cyllid grant sy’n gysylltiedig â COVID-19.

Cafwyd trafodaeth wedyn ynghylch ailddyrannu arbedion pe bai cyllid gwaelodol yn cael ei gyflwyno, a nodwyd y byddai'r Cabinet yn adolygu unrhyw welliannau a ddaeth i'r amlwg. Nododd yr aelodau hefyd eu pryderon ynghylch swyddi o bosibl yn cael eu colli a'r effaith ar ddisgyblion ysgol os yw'r fformiwla cyllido’n cael ei lleihau o ganlyniad i niferoedd is disgyblion, a gofynasant am fwy o wybodaeth ynghylch cyd-brynu a'r rhaglen cyllid cyfalaf ar gyfer ffermydd

sirol sy'n deillio o'r ddeddfwriaeth newydd ar Barthau Perygl Nitradau. Nodwyd hefyd, oherwydd COVID-19 a ffyrlo, fod hwn yn gyfnod hynod heriol i drigolion Ceredigion.

Daeth y drafodaeth i ben gydag esboniad pam roedd angen cynnydd 3.5% yn Nhreth y Cyngor pan fo chwyddiant cyffredinol yn rhedeg yn is na hyn ar hyn o bryd a phan mae llawer o drigolion yn ei chael hi'n anodd. Esboniwyd, bod Treth Cyngor Band D y Cyngor yn is na chyfartaledd lefel Cymru Gyfan a phan edrychir ar y pwysau manwl o ran costau y mae Gwasanaethau yn eu hwynebu, fod y Cyngor fel rheol yn wynebu pwysau chwyddiant 5% i 6% y flwyddyn, sydd wedi bod yn lefel reolaidd ers sawl blwyddyn. Er bod elfen o hyn yn ymwneud â dyfarniad Cyflog, mae'r rhan fwyaf yn ymwneud â phwysau ar wasanaeth rheng flaen (e.e. Gofal Cymdeithasol) wedi'i yrru'n rhannol gan niferoedd ac wedi'i yrru'n rhannol gan ffactorau allanol fel y Cyflog Byw.

Gyda lefel chwyddiant yn 5% i 6% bob blwyddyn, nid yw lefel y cyllid gan Lywodraeth Cymru yn codi gyfuwch â chwyddiant ac felly mae baich mwy yn disgyn ar dalwr Treth y Cyngor. Yn y cefndir hwn mae'r Cyngor yn dal i ddarparu ystod lawn o wasanaethau yn gyson sydd naill ai'n cael eu hystyried yn Ardderchog, yn Dda Iawn neu'n Dda ac mae Archwilio Cymru wedi canmol y Cyngor am ei ddull o weithredu o ran rheolaeth ariannol a chydnerthedd ariannol cyffredinol.

Dywedwyd wrth yr aelodau i godi pryderon ynghylch meysydd gwasanaeth penodol yn y pwyllgorau Craffu perthnasol.

Yn dilyn trafodaeth, **CYTUNODD** yr Aelodau i nodi'r adroddiad.

**4 Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Ionawr 2021 ac unrhyw faterion sy'n codi o'r cofnodion.**

Nodwyd y gwelliant canlynol:

- I gynnwys ymddiheuriadau’r Cynghorydd Endaf Edwards.

**CYTUNWYD** i gadarnhau cofnodion cyfarfod y Pwyllgor ar 20 Ionawr 2021 yn gofnod cywir.

**9 Unrhyw fater arall y penderfynodd y Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Pwyllgor**

Ni chodwyd dim materion eraill.

**Cadeirydd:**____________

**Dyddiad:**_____________

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

**Cofnodion Cyfarfod Arbennig y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu a gynhaliwyd o bell trwy fideo-gynadledda ddydd Iau, 18fed Mawrth 2021**

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr Euros Davies, Marc Davies, Elaine Evans, Elizabeth Evans, Keith Evans, Lyndon Lloyd MBE, Mark Strong, Lynford Thomas, Wyn Thomas ac Ivor Williams.

1.40pm – 1.45pm

1 **Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorydd Endaf Edwards am na allai fynychu'r cyfarfod;

2 **Datgelu Buddiannau Personol / Buddiannau sy'n Rhagfarnu (gan gynnwys datganiadau Chwipio)**

Ni ddatgelwyd dim buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu.

3 **Ethol Cadeirydd y Pwyllgor ar gyfer blwyddyn fwrdeistrefol 2021/22, gan ddod i rym ar 15fed Mai 2021**

Fe'i cynigiwyd gan y Cynghorydd Elizabeth Evans a'i eilio gan y Cynghorydd Keith Evans a **PHENDERFYNWYD** yn unfrydol y dylid ethol y Cynghorydd Rowland Rees-Evans yn Gadeirydd y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ar gyfer blwyddyn fwrdeistrefol 2021/22.

4 **Ethol Is-gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer blwyddyn fwrdeistrefol 2021/22, gan ddod i rym ar 15fed Mai 2021**

Fe'i cynigiwyd gan y Cynghorydd Elizabeth Evans a'i eilio gan y Cynghorydd Keith Evans a **PHENDERFYNWYD** yn unfrydol y dylid ethol y Cynghorydd Elaine Evans yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ar gyfer blwyddyn fwrdeistrefol 2021/22.

**Cadarnhawyd yng nghyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar xxxx 2021**

**Cadeirydd:**

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

# Cyngor Sir CEREDIGION County Council

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu** |
| **DYDDIAD:** | **16 Mehefin 2021** |
| **LLEOLIAD:** | **ZOOM** |
| **TEITL:** | **Blaenraglen Waith Ddrafft 2021/22** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Adolygu rhaglen waith bresennol y Pwyllgor** |
| **Y RHESWM PAM FOD CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH HON:** | **Mae blaenraglen waith y Pwyllgor yn cael ei harolygu a'i diweddaru ymhob cyfarfod** |

**CEFNDIR:**

Mae'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'n goruchwylio gwaith y Cyngor er mwyn sicrhau y darperir gwasanaethau yn y ffordd orau posib a hynny er budd y gymuned leol.

Swyddogaeth Trosolwg a Chraffu yw ystyried y gwasanaethau a'r materion sy'n effeithio ar bobl yng Ngheredigion. Mae'r broses yn rhoi cyfle i Gynghorwyr archwilio amryw swyddogaethau'r Cyngor, holi cwestiynau am sut y gwnaethpwyd penderfyniadau, ystyried os ellir gwneud gwelliannau i wasanaethau a gwneud argymhellion yn unol â hynny.

Mae craffu'n hanfodol wrth hyrwyddo atebolrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth i'r Cyngor fynd ati i wneud penderfyniadau a'r ffordd mae'n darparu gwasanaethau.

Prif swyddogaethau'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yw'r canlynol:

- Galw'r Cabinet a'r Swyddogion i gyfrif ynghylch eu penderfyniadau
- Bod yn 'gyfaill beirniadol', drwy holi cwestiynau am sut y gwnaethpwyd penderfyniadau, fel bod y bobl sy'n penderfynu'n destun 'rhwystrau a gwrthbwysau', gan wneud y drefn o benderfynu yn fwy dilys
- Cynnal adolygiadau o wasanaethau a pholisïau'r Cyngor
- Cynnal adolygiadau ar gyfer datblygu gwasanaethau a pholisïau'r Cyngor
- Ystyried unrhyw fater arall sy'n effeithio ar y sir
- Sicrhau bod Ceredigion yn perfformio hyd eithaf ei allu ac yn darparu gwasanaethau o'r radd flaenaf i'w ddinasyddion
- Asesu effaith polisïau'r Cyngor ar gymunedau lleol, ac argymell ffyrdd o wella
- Gweithio gyda'r cyhoedd i ddatblygu polisïau a gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinasyddion.

Gall trefn effeithiol o Drosolwg a Chraffu arwain at y canlynol:

- Penderfyniadau gwell
- Gwelliant o ran Darparu Gwasanaethau a Pherfformiad
- Trefn gadarn ar gyfer Datblygu Polisïau, yn seiliedig ar ymgynghori â'r cyhoedd a chyfraniad arbenigwyr annibynnol
- Gwelliant o ran Democratiaeth, Cynhwysiant, Arweinyddiaeth Gymunedol ac Ymgysylltu
- Ychwanegu haen eglur o dryloywder ac atebolrwydd i brosesau gwleidyddol y Cyngor
- Rhoi cyfle i bob Aelod feithrin sgiliau a gwybodaeth arbenigol a allai fod o fudd yn y dyfodol wrth lunio polisïau a monitro perfformiad
- Creu diwylliant o hunan-herio ar sail tystiolaeth.

**Y SEFYLLFA BRESENNOL:**

**Cwestiynau i'w hystyried wrth ddewis pynciau**

- A oes amcan clir dros archwilio'r pwnc hwn?
- Ydych chi'n debygol o lwyddo i gael y canlyniad a ddymunir?
- Beth yw'r manteision tebygol i'r Cyngor a dinasyddion Ceredigion?
- Ydy'r mater yn un sylweddol?
- Oes yna gysylltiadau â'r Strategaeth Gorfforaethol?
- A yw'n fater allweddol i'r cyhoedd?
- Ydy'r materion wedi cael eu codi gan archwiliad allanol?
- A yw'n wasanaeth sy'n perfformio'n wael?

**Dewis pynciau**
Dylai Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ystyried gwybodaeth o'r Strategaeth Gorfforaethol, Cynllun Gwella, Cynllun Strategol, Cynlluniau Gwasanaeth, y Gofrestr Risg Gorfforaethol, arbedion yn y gyllideb – cynigion ac effaith, cyfarfodydd chwarterol y panel Rheoli Perfformiad Corfforaethol a mewnbwn adrannol wrth ddewis pynciau a chynllunio eu Blaenraglenni Gwaith, ynghyd ag unrhyw waith sy'n parhau.

**ARGYMHELLIAD (ARGYMHELLION):**

Adolygu a diweddaru'r Blaenraglen Waith bresennol.

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Lisa Evans |
| **Dynodiad:** | Swyddog Craffu a Safonau |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 2/6/2021 |
| **Acronymau:** | BW- Blaenraglen Waith<br>FWP- Forward Work Programme |

Blaenraglen Waith y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu 2021/22

| Pwyllgor | Eitem (disgrifiad/teitl) | Siaradwyr Gwadd | Pwrpas e.e. monitro, polisi, argymhellion |
|---|---|---|---|
| ***Cydlynu*** | | | |
| 16 Mehefin | Cofnodion y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (gan gynnwys Cadeirydd y grŵp prosiect)<br><br>Adroddiadau Diogelu Cysur / CWMPAS<br><br>Cofnod o Gamau Gweithredu'r Grŵp Rheoli Aur yn wyneb COVID-19 | Diana Davies<br><br>Sian Howys<br><br>Elin Prysor | Monitro<br><br>Monitro<br><br>Monitro |
| 15 Medi | Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Sir Ceredigion 2020-24<br><br>Polisi Cyfryngau Cymdeithasol RIPA<br><br>Diweddariad ar Brosiect Cylch Caron | Michael Smith<br><br>Elin Prysor<br><br>Donna Pritchard | |
| 1 Rhagfyr | Diweddariad ar Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol | Michael Smith | |
| **2022**<br>10 Chwefror<br>Paratoi'r Gyllideb | Paratoi'r Gyllideb | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfarfodydd y gorffennol | Effaith Brexit ar economi gyffredinol Ceredigion | | |

| Pwyllgor | Eitem (disgrifiad/teitl) | Siaradwyr Gwadd | Pwrpas e.e. monitro, polisi, argymhellion |
|---|---|---|---|
| ***Cymunedau sy'n Dysgu*** | | | |
| 27 Mai | CYSGA<br><br>Defnyddio darpariaeth rithiol i'r dyfodol<br><br>Cytundeb Partneriaeth rhwng yr ALl a'r Ysgolion 2021-24 | Silyn Roberts<br><br>Meinir Ebbsworth/Non Davies | |
| 1 Medi | | | |
| 25 Tachwedd | Adroddiad ar chanlyniadau TGAU a Safon Uwch | | |
| **2022**<br>3 Chwefror | | | |
| 24 Chwefror Paratoi'r Gyllideb 1:30pm | Cyllideb | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfarfodydd y Dyfodol | Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant<br><br>Asesiad Digonolrwydd Chwarae | Carys Davies<br><br>Cathryn Morgan | |
| Ffrydiau Gwaith | Safonau ac Ysgolion<br><br>ADY, Cynhwysiant a Lles<br><br>Porth Cymorth Cynnar | Meinir Ebbsworth<br><br>Gillian Evans<br><br>Elen James | |

| Pwyllgor | Eitem (disgrifiad/teitl) | Siaradwyr Gwadd | Pwrpas e.e. monitro, polisi, argymhellion |
|---|---|---|---|
| ***Cymunedau Ffyniannus*** | | | |
| 26 Mai | Adroddiad Blynyddol ar Reoli Carbon | Lyndon Griffiths | |
| 15 Gorffennaf | Cod Ymarfer ar gyfer Arolygu Priffyrdd<br><br>Defnyddio Mannau Agored | | |
| 4 Tachwedd | Diweddariad ar Clefyd coed ynn<br><br>Cyflawni Sero-Net erbyn 2030 - bob chwe mis | | |
| **2022**<br>20 Ionawr | | | |
| 25 Ionawr<br>Paratoi'r Gyllideb<br>9:30am | Paratoi'r Gyllideb | | |
| Cyfarfodydd y dyfodol | Parcio ceir yn y trefi – edrych ar y sefyllfa yn ariannol, yn flynyddol, yn dymhorol, ac yn ôl lleoliad.<br><br>Afonydd a llifogydd | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Casglu sbwriel | | |

| Pwyllgor | Eitem (disgrifiad/teitl) | Siaradwyr Gwadd | Pwrpas e.e. monitro, polisi, argymhellion |
| --- | --- | --- | --- |
| ***Adnoddau Corfforaethol*** | | | |
| 13 Mai<br>Cyfarfod Arbennig | Polisi Gofalwyr<br><br>Rheoli slyri Ffermydd y Sir | Geraint Edwards<br><br>Russell Hughes- Pickering | Cyn-Cabinet<br><br>Cais gan y Pwyllgor a chan Aelodau'r Pwyllgor Cymunedau Ffynniannus yn ystod cyfarfod y Gyllideb |
| 7 Gorffennaf 2021 | Polisi Pryderon a Chwynion Corfforaethol<br><br>Strategaeth Iechyd a Lles | Marie-Neige Hadfield<br><br>Geraint Edwards | Cyn-Cabinet<br><br>Cyn-Cabinet |
| 14 Hydref 2021 | Adroddiad ar Dlodi yn ystod y Pandemig, gan gynnwys y Strategaeth i Fynd i'r Afael â Chaledi | Sian Howys<br>Diana Davies<br>Cathryn Morgan | Cais gan Aelodau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cysylltedd Digidol<br><br>Siarad, Gwrando a Gweithio Gyda'n Gilydd, Polisi Ymgysylltu Drafft Cyngor Sir Ceredigion | David Owen<br><br>Michael Smith | <br><br>Cyn Cyngor |
| **<u>2022</u>**<br>13 Ionawr | | | |
| 25 Chwefror<br>Paratoi'r Gyllideb<br>1:30pm | | | |
| 17 March | | | |
| Grŵp Gorchwyl a Gorffen<br><br><br>Cyfarfodydd y dyfodol | Ystadau – Ffermydd y Sir – cyfarfod anffurfiol efo Tenantiaid Ffermydd y Sir (gohiriwyd cyfarfod Ebrill oherwydd y pandemig)<br><br>Cyfarfod o'r grwp Gorffen a Gorchwyl Ffermydd y Sir ar 13.7.2021, am 3 o'r gloch. (nid yw'r cyfarfod yma yn agored i'r cyhoedd). | | |

| Pwyllgor | Eitem(disgrifiad/teitl) | Siaradwyr Gwadd | Pwrpas e.e. monitro, polisi, argymhellion |
|---|---|---|---|
| ***Cymunedau Iachach*** | | | |
| 24 Mehefin | Y Swyddog Adolygu Annibynnol (IRO) | | |
| Medi I'w drefnu | Tipio Anghyfreithlon – esbonio'r weithdrefn<br><br>Safonau Masnach (scamiau)<br><br>Lles Anifeiliaid a Bridio Cŵn (i'w gadarnhau)<br><br>Rheoli Plâu (i'w gadarnhau) | | |
| 6 Hydref | Pryder – rhaid dod o hyd i fwy o ofalwyr maeth sy'n siarad Cymraeg fod yn flaenoriaeth i blant sy'n derbyn gofal yng Ngheredigion. Tynnodd aelodau o'r cymunedau iachach sylw at y ffaith bod plant Cymraeg eu hiaith yn cael eu rhoi gyda theuluoedd Saesneg eu hiaith. Dywedodd Aelod ei fod yn broblem hirsefydlog a bod y plant hyn mewn amgylchiadau rhyfedd iawn yn gorfod newid iaith. | Cais mewn cyfarfod pan yn trafod yr IRO | Donna Pritchard<br>Nerys Lewis |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Pecynnau Gofal | Donna Pritchard a Heather West | |
| 16 Rhagfyr | Polisi Grantiau a Benthyciadau | Llyr Hughes | Cyn-Cabinet |
| **2022**<br>24 Chwefror<br>Paratoi'r Gyllideb<br>9:30am | | | |
| 16 Mawrth | | | |
| Eitemau i'r dyfodol | Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol | Donna Pritchard | Monitro |